Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Number: 03/2010

# Gwerthusiad Interim o Dechrau'n Deg



**Gwerthusiad Interim o Dechrau'n Deg**

**Geoff White & Lisa McCrindle o SQW Consulting Ltd**

Rhagor o wybodaeth:
Joanne Starkey
Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Cathays Park
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 02920 82 6732
E-bost: Research2@wales.gsi.gov.uk

Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010
© Crown Copyright 201

**Cydnabyddiaeth**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Geoff White a Lisa McCrindle o SQW Consulting Ltd. Mae'n pwyso ar waith y consortiwm sy'n darparu gwerthusiad cenedlaethol Cymorth a Dechrau'n Deg yn cynnwys: Ipsos MORI, CRG Research, Prifysgol Gorllewin Lloegr, Bryste a Karl Ashworth. Hoffem estyn diolch arbennig i Joanne Starkey o Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a Phartneriaethau Dechrau'n Deg ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru a gefnogodd y gwerthusiad ac a ddarparodd fewnwelediad gwerthfawr i ddarpariaeth, cyflawniadau a heriau'r ddwy raglen.

**Cynnwys**

---

Crynodeb Gweithredol ii

1: Nodau ac amcanion Dechrau'n Deg 1

2: Y gwerthusiad 4

3: Sail resymegol y rhaglen 13

4: Rhoi'r rhaglen ar waith – dyrannu adnoddau 27

5: Strwythurau a phrosesau rheoli partneriaeth 39

6: Cynllunio a darparu gwasanaethau 44

7: Effeithiolrwydd 79

8: Canlyniadau 92

9: Casgliadau ac argymhellion 112

Atodiad A: Cwestiynau Ymchwil yn deillio o'r briff gwreiddiol 120

## Crynodeb Gweithredol

---

### Nod ac Amcanion Dechrau'n Deg

1. Lansiwyd rhaglen Dechrau'n Deg gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2006/07 fel rhaglen beilot gyda'r nod o '*gwneud gwahaniaeth pendant i gyfleoedd bywyd plant dan 4 oed yn yr ardaloedd y mae'n gweithredu ynddynt'*. Daeth y rhaglen yn weithredol yn 2007/08 gyda dyraniad grant gwerth £44 miliwn dros ddwy flynedd gyntaf yr ymrwymiad pedair blynedd wreiddiol. Caiff ei weinyddu fel grant i Awdurdodau Lleol a'i dargedu ar yr ardaloedd sy'n dioddef fwyaf o amddifadedd.

2. Bwriad y rhaglen oedd buddsoddi rhagor na £2,000 ar gyfer bob plentyn bob blwyddyn yn yr ardaloedd hynny wrth ddarparu'r hawliau canlynol - rhaglenni ymweliadau iechyd, gofal plant, cefnogi rhieni ac Iaith a Chwarae (LAP). Mae'n rhagnodol o ran graddfa ac ansawdd rhai o'r hawliau. Fodd bynnag, mae'n caniatáu ar gyfer hyblygrwydd lleol ac mae'n disgwyl atebolrwydd lleol drwy'r Bartneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc trosfwaol ym mhob Awdurdod Lleol.

3. Mae Dechrau'n Deg yn ceisio osgoi'r angen am gamau unioni yn ddiweddarach ac yn y pen draw lleihau nifer y bobl sydd â sgiliau gwael iawn drwy sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg o ran:
   - Datblygu iaith
   - Datblygu'r meddwl
   - Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol
   - Iechyd corfforol
   - Clustnodi'n fuan y rheini sydd ag anghenion mawr

### Y gwerthusiad

4. Comisiynwyd gwerthusiad Dechrau'n Deg gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2007/08 i asesu:

- effeithiolrwydd y rhaglen mewn sefydlu'r amgylchiadau angenrheidiol ar gyfer gwelliannau'n ddiweddarach mewn cyfleoedd bywyd, o ran:
  - ➢ y ffactorau strwythur a phroses sy'n hollbwysig mewn sicrhau darpariaeth effeithiol o gefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc difreintiedig
  - ➢ y newidiadau mewn agwedd ac ymddygiad plant a'u teuluoedd sy'n gyson gyda gwelliannau diweddarach yn eu rhagolygon ar gyfer datblygiad cymdeithasol ac addysgiadol

a wnaeth hynny mewn ffyrdd a oedd yn cynnig gwerth da am arian

5. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad interim yn seiliedig ar y llinynnau ymchwil canlynol: Adolygiad data a pholisi, cyfrifiad rhaglen Partneriaethau Dechrau'n Deg; astudiaethau achos ardal blynyddol ac astudiaethau achos thematig. Caiff yr adroddiad hwn ei ategu gan adroddiad ar y don gyntaf o arolwg arhydol o deuluoedd gyda phlant 0-3 oed wedi eu lleoli mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd rheoli sydd yn y maes ar hyn o bryd fe'i cwblheir yn 2011.

6. Dim ond am dair blynedd y mae rhaglen Dechrau'n Deg wedi bod yn weithredol ac, yn unol â phrofiad Cychwyn Cadarn, dim ond nawr y mae'n cyrraedd statws cwbl weithredol. O ganlyniad, interim yw'r gwerthusiad yn ei natur ac mae'n canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed mewn sefydlu partneriaethau a phrosesau ac mewn darparu hawliau Dechrau'n Deg. Mae'n ystyried i ba raddau y mae canlyniadau cadarnhaol wedi eu cyflawni ar gyfer plant a theuluoedd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Caiff ei ategu gan ragor o asesu meintiol unwaith y bydd canlyniadau ton gyntaf yr arolwg arhydol ar gael yn gynnar yn 2011.

## Rhesymeg y rhaglen

7. Roedd y cyfiawnhad dros ymyriadau'r blynyddoedd cynnar yn y cyd-destun Cymreig yn driphlyg:
   - fel modd ychwanegol i fynd i'r afael â rhai o'r problemau ar gyfer plant sydd mewn ardaloedd gwir ddifreintiedig yng Nghymru ar gam cynnar

yn eu datblygiad i gynyddu eu rhagolygon nawr ar yn ddiweddarach mewn bywyd, ac i leihau costau camau unioni a gweithredu argyfwng (e.e. drwy wasanaethau cymdeithasol a'r system cyfiawnder troseddol) yn y dyfodol

- fel ymateb i'r (a phrawf o'r) dystiolaeth gynyddol (gyda'i tharddiad yn yr UDA yn bennaf) sy'n dangos yn gyson ganlyniadau a chymarebau cost a budd cadarnhaol a ddaw o ymyriadau blynyddoedd cynnar ar gyfer plant difreintiedig ac o ddarpariaeth gwasanaethau integredig
- ffynhonnell ariannu i fynd i'r afael â'r diffyg cymhelliant ar gyfer darparwyr gwasanaeth prif ffrwd i fuddsoddi mewn ymyriadau blynyddoedd cynnar y mae eu budd yn dymor hwy ac yn ansicr ond rhai y mae eu costau yn rhai tymor byr a diriaethol ac yn dod yn gyfrifoldeb y darparwyr hynny (megis y gwasanaeth iechyd) nad sydd o reidrwydd yn elwa o ran cyflawni allbynnau targed.

8. Am y rhesymau uchod, ariannodd Dechrau'n Deg wasanaethau cefnogi arbennig ar gyfer plant ifanc difreintiedig a'i gwneud yn ofynnol iddynt gael eu darparu gan bartneriaethau rhwng y darparwyr gwasanaeth perthnasol a thrwy integreiddio gwasanaethau a, lle bo hynny'n bosibl, lleoliadau. Darparodd gasgliad 'cyffredinol' o hawliau y gallai'r holl blant a'u teuluoedd mewn ardaloedd wedi eu dynodi fel rhai o amddifadedd eu cyrchu heb gael prawf moddion neu ddioddef stigma. Fe'i cynlluniwyd fel cynllun peilot fel cydnabyddiaeth o'r angen am ragor o dystiolaeth ar beth oedd yn gweithio o ran ymyriadau blynyddoedd cynnar er mwyn llywio ystyriaeth polisi o'r achos am ymestyniad neu esblygiad cefnogaeth o'r fath neu, yn wir, ei ddileu.

9. Roedd cyfiawnhad dros y rhaglen yn y termau uchod gan y dystiolaeth sy'n bodoli ac mae'n parhau'n gadarn. Fodd bynnag, golyga natur peilot y rhaglen bod yn rhaid gwerthuso ei heffeithiolrwydd a'i chost-effeithiolrwydd o ran y plant hynny a'u rhieni a oedd yn gymwys ar gyfer hawliau Dechrau'n Deg ac a fanteisiodd arnynt - yn hytrach nag o ran ei effaith ar wella cyfleodd bywyd plant difreintiedig yng Nghymru yn gyfan. Ni ellir chwaith ei werthuso fel pe byddai'n ateb cyflym. Mae'r holl dystiolaeth yn dynodi bod angen i ymyriadau

blynyddoedd cynnar gael eu gwreiddio'n weithredol, yn ddiwylliannol ac yn gyson cyn y gallant gael effaith sy'n ddirnadwy.

## Rhoi'r rhaglen ar waith – dyrannu adnoddau

10. Cafodd cynllun rhaglen Dechrau'n Deg ei seilio'n gadarn ar fwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ganolbwyntio ar ardaloedd o amddifadedd wedi eu targedu - o ran dynodiad ardaloedd Dechrau'n Deg a'r dyraniadau cyllideb (fesul pen o'r boblogaeth gymwys) rhyngddynt. Ni fu datblygiadau yn y sail tystiolaeth na newid mewn amodau cyd-destunol sydd wedi gwneud y rhesymeg ar gyfer y rhaglen yn llai cadarn o ran ei hamcanion, ei thargedu ar ardaloedd o amddifadedd neu'r ffordd y gwnaethpwyd hyn. Yr unig cafeat sydd angen ei nodi i'r casgliad hwn yw bod poblogaeth y plant dan bedair oed yn yr ardaloedd Dechrau'n Deg nawr yn fwy nag a ragamcanwyd pan gyflwynwyd y rhaglen. Mae hyn, felly, wedi cael effaith ar ddyraniad cyllideb y pen o'r boblogaeth gymwys neu ar faint y boblogaeth honno.

11. Mae dyraniadau cyllideb i Bartneriaethau Dechrau'n Deg wedi codi'n gyffredinol yn unol â'r rheiny a nodwyd yn y canllawiau gwreiddiol. Fodd bynnag, methodd y rhan fwyaf o'r Partneriaethau wario eu dyraniad llawn ar ryw adeg dros gyfnod bywyd y rhaglen ac mae rhai ardaloedd wedi cael anawsterau cyson o ran hyn. Canlyniad hyn fu tanwariant cyffredinol ar draws y rhaglen (2006/07 - 2009/10) o £11 miliwn neu 10%. Efallai y gellir priodoli hyn yn rhannol i'r oedi a'r problemau cychwynnol anochel mewn sefydlu'r rhaglen a chyflenwi ei wariant cyfalaf ar adeiladau a'u hailwampiad. O gofio bod y rhaglen erbyn hyn yn agos i weithrediad cyflwr sefydlog, mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru gadw llygad agos ar unrhyw danwariant a'r rhesymau dros hynny.

## Strwythurau a phrosesau rheoli Partneriaeth

12. Yn ystod y tair blynedd ers ei lansio, mae rhaglen Dechrau'n Deg y gellir ei hadnabod wedi datblygu sy'n adeiladu ar allu ac arbenigedd lleol i fynd i'r afael â materion lleol o fewn fframwaith darparu cenedlaethol.

13. Diffinnir rhaglen Dechrau'n Deg yn lleol o ran ei strwythurau a'i hymagwedd tuag at ddarparu'r hawliau. Er yr amrywiad lleol hwn a hyblygrwydd ar draws 22 ardal, caiff ei hadnabod fel 'rhaglen'. Mae integreiddiad cynyddol a chyson y rhaglen gyda'r Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc (CYPP) a'i rôl sydd wedi ei diffinio'n glir yn y Cynlluniau Sengl (sy'n ofynnol yn ôl y Ddeddf Plant, 2004) i gyd yn arwyddion cadarnhaol o'r parch sydd i'r rhaglen. Ar y cyfan mae Partneriaeth Dechrau'n Deg yn atebol i un o is-grwpiau'r CYPP er mewn rhai ardaloedd mae atebolrwydd yn uniongyrchol i fwrdd y CYPP. Felly mae llwybr uniongyrchol drwy ba un y gall dysgu o Dechrau'n Deg gael ei fwydo yn ôl i'r darparwyr gwasanaeth prif ffrwd. Mae'n bwysig bod y gwersi o'r rhaglen yn cael eu harchwilio'n gyson ac y manteisir ar y cyfleoedd ar gyfer unrhyw welliannau i wasanaethau prif ffrwd y gallai eu hawgrymu.

## Cynllunio a darparu gwasanaeth

14. Mae'r Partneriaethau wedi gwneud cynnydd trawiadol o ran darparu'r hawl gofal plant ac o ran darparu cymysgedd amrywiol o ddarpariaeth LAP ar draws y Partneriaethau. Mae rhagor o amrywiaeth mewn darpariaeth hawliau ymwelwyr iechyd a rhianta. Ond, ar y cyfan, mae dros hanner y Partneriaethau yn agos i fod wedi sefydlu rhaglen wasanaeth lawn dros y pedwar prif hawl mewn dim ond 2-3 blynedd.

15. Mae hyn yn gyflawniad sylweddol o gofio'r heriau y bu'n rhaid mynd i'r afael â hwy a phan roddir ystyriaeth i brofiad mewn mannau eraill. Daeth Gwerthusiad Cenedlaethol rhaglen Cychwyn Cadarn yn Lloegr i'r casgliad ei bod wedi cymryd o leiaf dair blynedd cyn i'r rhaglenni Cychwyn Cadarn fod mewn 'cyflwr sefydlog' gweithredol ac nad oedd yn rhaid iddynt gwrdd â'r heriau a osodwyd ar gyfer Partneriaethau Dechrau'n Deg (e.e. yn ymwneud â llwyth achosion ymweliadau iechyd).

16. Mae rhai materion yn parhau parthed yr amrywiad ar draws Partneriaethau o ran darparu hawliau Dechrau'n Deg a'r tensiwn rhwng yr hawliau a ragnodir yn genedlaethol a'u priodoldeb ar lefel leol. Dylid adolygu'r materion canlynol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a dylid ymdrechu i'w datrys pan fydd angen:

- Gofal plant: A ddylid adolygu ac os oes angen, mynd i'r afael â'r 'lleoedd gwag' o ran sesiynau gofal plant a ddarperir, er enghraifft, trwy gynnig hyblygrwydd i Bartneriaethau i addasu natur yr hawl rhagnodedig (h.y. 2.5 awr, 5 diwrnod yr wythnos)?
- Ymweliadau iechyd: A yw hi'n angenrheidiol ac yn bosibl i'r hawl rhagnodedig presennol – sydd wedi'i fynegi yn nhermau llwyth achosion ymwelwyr iechyd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg – gael ei ddiwygio i adlewyrchu cynnig ehangach o gymorth iechyd gan gynnwys sgiliau eraill megis gweithwyr cefnogi teuluoedd a therapyddion lleferydd ac iaith?
- Rhianta: A ddylai'r amrywiaeth a welwyd ym maint yr hawl rhianta ar draws Partneriaethau gael ei lleihau trwy nodi lefelau isaf o ddarpariaeth?
- LAP: A oes angen i'r hawl LAP – sy'n boblogaidd ac y mae ymarferwyr yn ei ystyried yn gyflwyniad da i ddatblygiad iaith - gael ei adolygu o ran ei botensial i gyflawni canlyniadau iaith disgwyliedig Dechrau'n Deg?

## Effeithiolrwydd

17. Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg wedi bod yn weithredol effeithiol. Mae wedi:

- cynyddu'n sylweddol hygyrchedd gwasanaethau sydd yn eu tro wedi arwain at lefelau cynyddol ac uwch o rai sy'n eu defnyddio yn ogystal â chynnydd mewn ymgysylltu â gwasanaethau ehangach
- adeiladu cysylltiadau'n effeithiol ac wedi ymgysylltu â'r teuluoedd hynny sy'n draddodiadol anoddach eu cyrraedd, neu sy'n ymgysylltu fawr ddim mewn gwasanaethau prif ffrwd
- ymgysylltu rhieni ym mywydau eu plant
- gweithio gyda'r teuluoedd hynny sydd â'r lefel uchaf o angen
- canfod anghenion ynghynt yn ogystal â materion neu broblemau ehangach
- creu llwybrau atgyfeirio effeithiol naill ai i hawliau Dechrau'n Deg eraill neu i wasanaethau cyffredinol ehangach
- datblygu perthynas waith effeithiol gydag ysgolion lleol a wnaeth gynorthwyo'n fawr y trosglwyddo o Dechrau'n Deg i'r meithrin i'r ysgol
- sefydlu ymagwedd amlasiantaeth effeithiol tuag at ddarparu

- recriwtio grŵp ehangach o staff proffesiynol i ddiwallu anghenion lleol yn well
- buddsoddi mewn datblygu a hyfforddi staff
- cyflawni lefelau cyffredinol uchel o fodlonrwydd a galw cryf am y gwasanaethau.

18. Canfyddir Dechrau'n Deg ar hyn o bryd gan Dimau Partneriaeth Dechrau'n Deg fel: bod wedi taro'r cydbwysedd cywir darparu canllawiau a ragnodwyd a chaniatáu hyblygrwydd lleol ac ysgogi ymagweddau amlasiantaethol tuag at ddarparu. Mae ysgogi ymagweddau amlasiantaethol wedi cynorthwyo i wneud y rhaglen yn fwy effeithiol mewn cyfuno ei hawliau gydag ymyriadau eraill mewn 'pecyn' wedi ei deilwra sy'n mynd i'r afael ag anghenion penodol teuluoedd unigol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen adolygu neu fynd i'r afael â rhai o'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraff 16 i wneud i'r pecynnu hwn weithio'n fwy effeithiol.

## Canlyniadau

19. Mae angen cymedroli'r disgwyliadau ynglŷn ag i ba raddau y dylai canlyniadau Dechrau'n Deg ar gyfer pobl ifanc fod wedi eu cyflawni erbyn hyn drwy gydnabod bod cyflwr sefydlog gweithredol mewn darparu hawliau dim ond wedi ei gyflawni'n ddiweddar gan y Partneriaethau. Gwelwyd bod hyn yn ystyriaeth bwysig mewn gwerthuso canlyniadau'r rhaglenni lleol Cychwyn Cadarn yn Lloegr a dylid hefyd roi ystyriaeth iddo o ran Dechrau'n Deg.

20. Mae'r Partneriaethau yn paratoi ar gyfer gwerthuso Dechrau'n Deg ar lefelau lleol er mwyn deall y gwahaniaeth y mae wedi ei wneud i wasanaethau a theuluoedd. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr amser a'r ymdrech y maent wedi ymroi i ddatblygu fframweithiau perfformiad a rhesymeg i arwain a chyfeirio'r gweithgaredd gwerthusol a datblygu a rhoi ar waith ystod o ddulliau ac offer gwerthuso. Mae'r rhan fwyaf o'r cynnydd wedi ei wneud gydag asesiadau ansoddol ac arolygon cyrraedd a gadael ac mae hyn yn golygu nad yw'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn gadarn feintiol yn ei natur.

21. Er gwaethaf hynny, mae ymdrechion gwerthuso lleol yn dangos bod y gwasanaethau a ddarperir gan Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol ar blant - yn bennaf drwy, ond nid yn gyfyngedig i, welliannau mewn datblygiad emosiynol a chymdeithasol - a'u rheini - drwy gynnydd mewn hyder a hunan-barch. Mae'r stori a adroddir yn gryf ac yn gyson yn awgrymu bod y rhaglen ar y llwybr cywir i gyflawni ei chanlyniadau canolradd o ran datblygiad plentyn a datblygiad teulu/rhieni, yn ogystal â chyfrannu yn fwy eang i welliant mewn gwasanaeth.

22. Mae Dechrau'n Deg wedi dechrau dylanwadu ar wasanaethau prif ffrwd. Mae diddordeb arbennig mewn dysgu gan, ac adeiladu ar, yr ymagwedd amlasiantaeth a'r ddarpariaeth gwasanaeth integredig. Fodd bynnag, mae cyflwyniad ehangach arferion Dechrau'n Deg wedi ei gyfyngu gan gyfyngiadau cyllidebol ar ddarparwyr gwasanaeth prif ffrwd a diffyg tystiolaeth gadarn, meintiol o'r gwahaniaeth a wneir gan Dechrau'n Deg a'i gostau a'i fanteision.

23. Gellir mynd i'r afael â'r olaf o'r rhain drwy fonitro a gwerthuso systematig allbynnau a chanlyniadau. Mae angen rhoi hyn ar waith yn fwy cyson ar draws y Partneriaethau - gyda chymorth yr uned cefnogi Partneriaethau - er mwyn llywio'r drafodaeth leol a chenedlaethol ynglŷn â ffurf ac ariannu ymyriadau blynyddoedd cynnar a chefnogaeth teulu ehangach i'r dyfodol.

## Casgliadau

24. Pan y'i aseswyd yn erbyn y ffactorau llwyddiant hollbwysig a nodwyd gan ystod o astudiaethau i danategu darparu effeithiol cefnogaeth blynyddoedd cynnar, mae rhaglen Dechrau'n Deg wedi sefydlu ac yn parhau i ddatblygu cynnig sydd ar y llwybr cywir i roi canlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant a theuluoedd yn yr ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae i ba raddau y gall tystiolaeth gael ei dangos i newidiadau ar y cam hwn wedi ei gyfyngu'n bennaf i adroddiadau ansoddol gan yr ardaloedd Partneriaeth lleol gan na fydd canfyddiadau o arolwg teuluoedd plant 0-3 oed ar gael hyd nes yn gynnar yn 2011.

25. Er gwaethaf ei natur ansoddol, mae'r gwahanol linynnau ymchwil wedi datgelu corff sylweddol o dystiolaeth o bob rhan o'r 22 Partneriaeth sy'n pwyntio'n gyson yn yr un cyfeiriad gan awgrymu bod gwelliannau wedi eu cyflawni yn:

- natblygiad emosiynol a chymdeithasol plant Dechrau'n Deg
- eu datblygiad ieithyddol a meddyliol (i raddau llai)
- hyder ac ymgysylltiad rhieni

26. Ni ellir cynnig asesiad cyffredinol a, gwerth am arian rhaglenni Dechrau'n Deg ar y cam hwn gan ei bod yn rhy gynnar yn natblygiad y rhaglen. Fodd bynnag, fel rhaglen ifanc mae wedi dangos llawer o addewid o ran ei darbodusrwydd a'i effeithiolrwydd. Bydd asesiad pellach o elfen effeithlonrwydd gwerth am arian yn bosibl wedi gweld y dystiolaeth o'r arolwg teuluoedd yn gynnar yn 2011.

27. Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg nawr mewn cam darparu 'cyflwr sefydlog'. Eto, mae'n dal i wynebu heriau o ran: sicrhau cysondeb o'r cynnig ar draws pob un o'r 22 Partneriaeth sy'n adlewyrchu gwasanaethau a materion lleol yn ogystal â chyflawni dyheadau cenedlaethol ar gyfer gwella cyfleoedd bywyd plant mewn ardaloedd o amddifadedd:

- rheoli a pharhau i ddatblygu staff (yn enwedig cefnogi integreiddiad ymwelwyr iechyd)
- mynd i'r afael â'r heriau a berir gan weithio amlasiantaeth a gweithio ar y cyd
- sefydlu fframweithiau monitro a gwerthuso lleol sy'n dal tystiolaeth am y canlyniadau gaiff eu creu gan raglenni Dechrau'n Deg.

28. Nid yw'r heriau hyn yn anorchfygol a gellir mynd i'r afael â hwy drwy gyfuniad o ddiwygiadau i ganllawiau Dechrau'n Deg, ymgysylltu parhaus rhwng y darparwyr gwasanaeth perthnasol, cyngor ac arweiniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r uned cefnogi Partneriaeth, a rhannu arfer da yn barhaus ar draws y Partneriaethau.

## Argymhellion

29. Cynigir yr argymhellion canlynol er mwyn llywio ystyriaethau polisi yn y dyfodol ar gyfer ymyriadau blynyddoedd cynnar ac yn arbennig Dechrau'n Deg:

- Dylid cadw mewn cof yn gyson natur beilot Dechrau'n Deg. Dylid ei hasesu o ran ei heffaith ar wella cyfleoedd bywyd y plant hynny, a'u rhieni, sy'n gymwys am ei hawliau - nid yn erbyn dyheadau ehangach ar gyfer plant difreintiedig yng Nghymru yn gyfan. Ni ddylid chwaith ei hystyried fel ateb cyflym ond dylid rhoi amser iddi wreiddio'n weithredol, yn ddiwylliannol ac yn gyson fel rhan o seilwaith cefnogaeth blynyddoedd cynnar yn yr ardaloedd y mae'n gweithredu ynddynt.
- Mae angen adolygu dyraniad cyllideb Dechrau'n Deg o ddau bersbectif o leiaf. Yn gyntaf, mae poblogaeth plant o dan bedair oed mewn ardaloedd Dechrau'n Deg nawr yn fwy nag ydoedd pan gafodd y gyllideb ei dyrannu gyntaf ac mae hyn yn rhoi straen ar ddarparu hawliau Dechrau'n Deg. Yn ail, mae'r rhaglen erbyn hyn yn agos i ddarpariaeth cyflwr sefydlog ac, felly, dylai unrhyw danwariant yn erbyn dyraniad cyllideb - a'r rhesymau dros hyn - gael eu hadolygu'n fanwl iawn.
- Dylai'r gwersi a ddysgir gan Dechrau'n Deg gael eu harchwilio'n gyson gan CYPP fel rhan o'r Cynllun Sengl a manteisio ar gyfleoedd ar gyfer unrhyw welliannau i wasanaethau prif ffrwd y gallai eu hawgrymu parthed datblygiad plant ifanc difreintiedig. Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r materion canlynol a dylid ymdrechu i'w datrys pan fo hynny'n angenrheidiol:

  **Gofal plant**: A ddylid adolygu ac os oes angen, mynd i'r afael â'r 'lleoedd gwag' o ran sesiynau gofal plant a ddarperir, er enghraifft, trwy gynnig hyblygrwydd i Bartneriaethau i addasu natur yr hawl rhagnodedig (h.y. 2.5 awr, 5 diwrnod yr wythnos)?

  **Ymweliadau iechyd**: A yw hi'n angenrheidiol ac yn bosibl i'r hawl rhagnodedig presennol – sydd wedi'i fynegi yn nhermau llwyth achosion ymwelwyr iechyd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg – gael ei ddiwygio i

adlewyrchu cynnig ehangach o gymorth iechyd gan gynnwys sgiliau eraill megis gweithwyr cefnogi teuluoedd a therapyddion lleferydd ac iaith?

**Rhianta**: A ddylai'r amrywiaeth a welwyd ym maint yr hawl rhianta ar draws Partneriaethau gael ei lleihau trwy nodi lefelau isaf o ddarpariaeth?

**LAP**: A oes angen i'r hawl LAP – sy'n boblogaidd ac y mae ymarferwyr yn ei ystyried yn gyflwyniad da i ddatblygiad iaith - gael ei adolygu o ran ei botensial i gyflawni canlyniadau iaith disgwyliedig Dechrau'n Deg?

- Mae angen rhoi monitro a gwerthuso systematig allbynnau a chanlyniadau Dechrau'n Deg ar waith yn fwy cyson ar draws y Partneriaethau er mwyn llywio'r drafodaeth leol a chenedlaethol ynglŷn â ffurf ac ariannu ymyriadau blynyddoedd cynnar a chefnogaeth teulu ehangach i'r dyfodol.

# 1: Nodau ac amcanion Dechrau'n Deg

1.1 Lansiwyd rhaglen Dechrau'n Deg gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2006/07 gyda'r nod o '*gwneud gwahaniaeth pendant i gyfleoedd bywyd plant dan 4 oed yn yr ardaloedd y mae'n gweithredu ynddynt'*. Fe'i gweinyddir fel grant i awdurdodau lleol i ddarparu cymorth dwys i blant dan bedair oed sydd ei angen fwyaf a'u teuluoedd – wedi'i thargedu'n ofodol ar ddalgylchoedd ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd neu mewn ffyrdd eraill lle mae dalgylchoedd ysgol yn ffitiad amherffaith gyda daearyddiaeth leol o amddifadedd.

1.2 Mae disgwyl i'r rhaglen fuddsoddi rhagor na £2,000[1] y plentyn bob blwyddyn er mwyn darparu'r hawliau canlynol:

- **Ymweliadau iechyd:** darpariaeth gwasanaeth ymweliadau iechyd gwell gyda chanllawiau penodol ar lwythi achos - un ymwelydd iechyd cyfwerth â llawn amser am bob 110 o blant 0-3 oed yn yr ardaloedd targed
- **Gofal plant:** cynnig 2.5 awr, 5 diwrnod yr wythnos o ddarpariaeth rhan amser o safon ar gyfer plant 2 oed (neu iau os bydd angen)
- **Rhaglenni rhianta:** darpariaeth rhaglenni rhianta sydd wedi eu barnu eu bod yn creu canlyniadau cadarnhaol i blant
- **Sgiliau sylfaenol:** gyda phob teulu'n cael mynediad at raglenni Iaith a Chwarae (LAP)
- **Rhannu gwybodaeth ac atgyfeirio:** rhwng yr holl ymarferwyr o fewn Dechrau'n Deg.

1.3 Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yn gymharol gul ei ffocws, o ran ei darpariaeth hawliau gwasanaeth a'i buddiolwyr targed, ac mae'n arbennig o ragnodol o ran graddfa ac ansawdd rhai o'i hawliau gwasanaeth (yn fwyaf nodedig yr hawl ymweliadau iechyd gyda'i llwyth gwaith achos). Serch hynny, mae'r canllawiau yn caniatáu ar gyfer hyblygrwydd lleol ac

[1] Cynyddwyd i £2,100 o 2009/10

mae'n disgwyl atebolrwydd lleol drwy'r Bartneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc[2] trosfwaol ym mhob ardal awdurdod lleol.

1.4 Mae prif nodau ac amcanion y Partneriaethau Dechrau'n Deg wedi eu rhagnodi gan ganllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru: i fod â chanolbwynt ar ymyrraeth a nodi angen yn gynnar, er mwyn osgoi'r angen am gamau unioni yn ddiweddarach ac yn y pen draw lleihau nifer y bobl sydd â sgiliau gwael iawn drwy sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg parthed

- Datblygiad iaith
- Datblygiad meddwl
- Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol
- Iechyd corfforol
- Clustnodi'n fuan y rheini sydd ag anghenion mawr

1.5 Cyflwynwyd y rhaglen yn 2006/07 a daeth yn weithredol yn 2007/08[3] gyda dyraniad gwerth £44 miliwn dros ddwy flynedd gyntaf yr ymrwymiad pedair blynedd wreiddiol. Dosbarthwyd yr ariannu ar draws Awdurdodau Lleol gan ddefnyddio fformiwla presennol Cymorth[4] sy'n seiliedig ar ymchwil i batrymau'r galw am wasanaethau cymdeithasol plant a gynhaliwyd ar y cyd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

1.6 Mae'r canllawiau yn amlinellu disgwyliad Llywodraeth Cynulliad Cymru y dylai'r rhaglen 'adeiladu ar sylfeini buddsoddiad *Cymorth pan fo'r rhain yn gyson gyda Dechrau'n Deg neu gellir eu haddasu i fod felly*'. Roedd y

[2] Cyflwynwyd y Partneriaethau yn 2002 fe Partneriaethau Fframwaith Plant a Phobl Ifanc fel rhan o Ganllawiau Cynllunio Fframwaith Plant a Phobl Ifanc, LlCC, 2002 ac fe'i diwygiwyd yn 2007/08 mewn ymateb i 'Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau', LlCC, 2004, sef canllawiau WAG ar gydweithredu lleol o dan Ddeddf Plant 2004. Yng ngweddill yr adroddiad hwn cyfeirir ar Bartneriaethau Plant a phobl Ifanc fel CYPP.

[3] Cafodd 2006/07 ei chydnabod fel canolbwyntio ar gynllunio gweithlu a datblygu rhaglen gyda darpariaeth yn dechrau o ddifrif yn 2007/08

[4] Dyrannwyd cyllidebau ar draws Awdurdodau Lleol gan Lywodraeth y Cynulliad ar sail Fformiwla Gwasanaethau Cymdeithasol Personol Plant yn yr Asesiad o Wariant Safonol . Gosodwyd Argymhellwyd y fethodoleg sy'n ail i'r fformiwla gan Brifysgol Caerefrog er mwyn ei defnyddio wrth ddyrannu adnoddau mewn gwasanaethau cymdeithasol. Tynnodd ar bedwar dangosydd yn ymwneud â phlant mewn tai cymdeithasol ar rent a phlant mewn tai wedi'u gorboblogi.

canllawiau yn tybio y gallai hanner y buddsoddiad presennol Cymorth hwn (mewn plant yn yr ystod oedran 0-3) ffitio yn y modd hwn.

1.7 Dyrannwyd 'cap', neu uchafswm nifer y plant cymwys, i'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc (CYPP) a gofynnwyd iddynt ddewis ardaloedd ar gyfer darparu Dechrau'n Deg yn seiliedig ar ddalgylchoedd ysgolion. Rhoddwyd cyfarwyddyd i'r CYPP i ddewis y dalgylchoedd cymunedau ysgol gyda'r mwyaf o amddifadedd o fewn yr ardal Awdurdod Lleol.

Ffigur 0-1: Crynodeb Rhaglen Dechrau'n Deg

**Sefydlwyd yn:** 2006/07
**Cyfnod darparu:** 2007/08 – 2010/11 (arian wedi ei ymrwymo)
**Cyfanswm dyraniad refeniw 2006/07-2010/11:** £127 miliwn
**Cyfanswm dyraniad cyfalaf 2006/07 – 2010/11:** £21 miliwn
**Grŵp targed:** Teuluoedd gyda phlant 0-3 oed (dan 4) mewn ardaloedd o amddifadedd a dargedwyd mewn Awdurdod Lleol
**Nifer targed o fuddiolwyr:** 16,000 y flwyddyn

*Ffynhonnell: Data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru*

# 2: Y gwerthusiad

## Materion ac ymagwedd y gwerthusiad

2.1 Comisiynwyd gwerthusiad sengl gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer rhaglenni Cymorth a Dechrau'n Deg. Ystyriwyd yr ymagwedd hon yn briodol oherwydd eu hamcanion polisi oedd yn gorgyffwrdd, eu trefniadau llywodraethu a rheoli cyffredin a'r potensial ar gyfer dysgu gan ei gilydd ynglŷn â beth sy'n gweithio'n dda (a dim cystal). Rhoddwyd pwyslais gan Gynulliad Cymru i'r posibiliadau dysgu a geir gan y gwerthusiad.

2.2 Am y rheswm hwnnw, cynlluniwyd y gwerthusiad dros nifer o flynyddoedd a chyflwynwyd mewn ffyrdd a oedd yn hwyluso:

- **Tystiolaeth** i gael ei chreu ar 'beth sy'n gweithio, i bwy, ym mha amgylchiadau, a pham'
- **Dysgu** a gwybodaeth i gael eu trosglwyddo rhwng partneriaid darparu ar sut i wneud y ddarpariaeth gwasanaeth yn fwy effeithiol mewn sicrhau'r allbynnau a'r canlyniadau a ddymunir
- **Gweithredu** i wella gallu a pherfformiad partneriaid mewn cynllunio a darparu eu hymyriadau - nid yn unig creu tystiolaeth ar 'beth sy'n gweithio' ond hefyd sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio.

2.3 Cytunwyd ar gasgliad o faterion gwerthuso allweddol gyda Grŵp Llywio'r astudiaeth ar gam cwmpasu'r gwaith. Datblygwyd y rhain o amcanion yr astudiaeth a ddisgrifiwyd yng nghylch gorchwyl Cynulliad Cymru ar gyfer y gwerthusiad. Fe'u ffurfiwyd fel cyfres o gwestiynau gwerthuso a chynlluniwyd llinynnau gwaith y gwerthusiad i sicrhau y rhoddwyd sylw i'r holl gwestiynau. Mae Tabl 0-1 yn mapio gweithgareddau'r ymchwil yn erbyn y cwestiynau.

2.4 Cynlluniwyd y gwerthusiad i fynd i'r afael â'r cwestiynau hyn. Fodd bynnag, cytunwyd gyda'r Grŵp Ymgynghorol a Llywodraeth y Cynulliad y dylid rhesymoli'r ystod eang o gwestiynau ar gyfer y gwerthusiad i dri mater eang canlynol:

- Pa mor effeithiol fu'r rhaglen mewn sefydlu'r amodau strwythurol a phroses sy'n angenrheidiol i sicrhau bod cefnogaeth ar gyfer plant difreintiedig yn cael ei darparu'n effeithiol
- Pa mor effeithiol ydyw mewn dwyn y newidiadau mewn agwedd ac ymddygiad plant a'u rhieni sy'n gyson gyda gwelliannau diweddarach yn eu rhagolygon ar gyfer datblygiad cymdeithasol ac addysgol
- A yw hyn wedi ei gyflawni mewn ffyrdd sy'n rhoi gwerth da am arian?

2.5 Cydnabu hyn bod y cwestiynau ymchwil wedi eu cyfeirio at werthusiad Cronfa Cymorth yn ogystal â Dechrau'n Deg ac roeddent, yn rhannol am y rheswm yma, rywfaint yn ailadroddus a gellid ond mynd i'r afael â rhai o'r cwestiynau drwy arolwg cartrefi oedd nawr ddim i'w gwblhau hyd ddiwedd 2010/dechrau 2011.

## Dulliau gwerthuso

2.6 Roedd y dulliau gwerthuso a ddefnyddiwyd i gasglu gwybodaeth yn ymwneud â chwestiynau'r arolwg yn cynnwys y chwe llinyn ymchwil canlynol:

- **Adolygu Data a Pholisi**: Roedd y llinyn hwn yn cynnwys pedair tasg: Sefydlu'r diffiniadau daearyddol oedd yn ffitio orau ar gyfer ardaloedd darparu Dechrau'n Deg ym mhob un o'r 22 ardal; adolygu a monitro'r data a ddynodwyd ac a gasglwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o'r 22 Partneriaeth Dechrau'n Deg; datblygu, poblogi a diweddaru gwaelodlin o ddangosyddion eilaidd yn ymwneud â'r rhaglen, y wybodaeth gyd-destunol a gasglwyd yn y cyfrifiad a strwythur, gweithgareddau a chynnydd y rhaglen.
- **Cyfrifiad Rhaglen o Bartneriaethau Dechrau'n Deg**: Cynhaliwyd arolwg electronig o'r holl Bartneriaethau yn nwy flynedd gyntaf y gwerthusiad a chasglwyd gwybodaeth am y rhaglen a oedd yn

ychwanegol i'r hyn oedd ar gael o gynlluniau'r rhaglen a'r ddogfennaeth gysylltiedig. Casglodd y cyfrifiad, a gynhaliwyd gan y Cydlynydd Dechrau'n Deg ym mhob ardal ar ran y Bartneriaeth, wybodaeth gyd-destunol am y strwythur a'r gweithgareddau a chynnydd y rhaglen.

- **Astudiaethau Achos Ardal Blynyddol**: Ymwelwyd â bob Partneriaeth Dechrau'n Deg ddwywaith er mwyn cynnal astudiaethau achos manwl a oedd yn nodi ac yn archwilio'r cyd-destun, gweithgareddau darparu, canlyniadau ac effeithiau Dechrau'n Deg[5] o fewn cymdogaeth unigol. Roedd yr astudiaethau achos yn ymgorffori: adolygiad o wybodaeth gefndir leol; ymgynghoriadau gyda rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys Cadeirydd y CYPP, cydlynydd y CYPP, cynrychiolwyr o'r Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Iechyd (Ymweliadau Iechyd, Blynyddoedd Cynnar, Cefnogi Teuluoedd), cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol (chwarae, blynyddoedd cynnar, gofal plant, gwasanaethau cymdeithasol); ymgynghoriadau gyda chydlynwyr a thimau darparu Dechrau'n Deg, ymgynghoriadau gyda chydlynwyr a thimau darparu Cymorth; ac ymgynghoriadau/grwpiau ffocws bach gyda buddiolwyr y ddwy raglen. Ym mlwyddyn gyntaf y gwerthusiad cynhaliwyd yr astudiaethau achos lleol mewn 10 cymdogaeth, ym mlwyddyn 2 ymwelwyd â'r 12 cymdogaeth oedd yn weddill ac ym mlwyddyn tri ailymwelwyd â phob un o'r 22 cymdogaeth.[6]
- **Astudiaethau Achos Thematig**: Caniataodd yr astudiaethau achos thematig y tîm gwerthuso i archwilio materion neu feysydd gweithgaredd penodol a oedd yn ymddangos o'r gweithgareddau gwerthuso ac fe'u nodwyd fel rhai teilwng o sylw arbennig. Roeddent yn cynnwys adolygiadau o faterion yn ymwneud â:

[5] Ym mlynyddoedd 1 a 2 cwmpasodd yr astudiaethau achos ardal ddatblygiad a gweithgareddau CYPP, rhaglen Cymorth a rhaglen Dechrau'n Deg. Ym mlwyddyn 3 penderfynwyd y byddai ffocws yr astudiaethau achos ardal ar raglen Dechrau'n Deg yn unig.
[6] Ardaloedd astudiaeth ardal blwyddyn 1: Ynys Môn, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir y Fflint, Casnewydd, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg.
Ardaloedd astudiaeth ardal blwyddyn 2: Blaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Conwy, Sir Dinbych, Gwynedd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot, Powys, Abertawe a Wrecsam.

- yr hawliau unigol (darparu'r cynigion ymweliadau iechyd a rhianta, datblygu darpariaeth gofal plant o ansawdd a datblygu'r cymorth datblygu iaith a gynigir)
- profiad defnyddiwr o ran y ddarpariaeth gofal plant, rhianta ac Iaith a Chwarae (a gynhaliwyd gan Ipsos MORI)[7]
- datblygiad y rhaglen ehangach (gweithio integredig a gweithio gydag ysgolion)
- bodloni disgwyliadau ehangach y rhaglenni (mesuriad perfformiad a bodloni'r her prif ffrwd)

- **Arolwg Arhydol o Deuluoedd gyda phlant 0-3 oed**: Er mwyn dal effaith rhaglen Dechrau'n Deg ar deuluoedd a phlant dros amser, roedd y gwerthusiad i gynnwys arolwg rhaglen gyfan o deuluoedd gyda phlant 0-3 oed yn yr ardaloedd darparu Dechrau'n Deg ac mewn ardaloedd rheoli a ddewiswyd am eu tebygrwydd o ran nodweddion amddifadedd i ardaloedd darparu Dechrau'n Deg. Fodd bynnag, mae'r arolwg wedi gweld cryn oedi o ganlyniad i broblemau mewn cyrchu'r ffrâm sampl o ddata Cofnodion Budd-daliadau Plant gan HMRC a oedd y tu hwnt i reolaeth y tîm gwerthuso a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae ton gyntaf yr arolwg yn y maes ar hyn o bryd ac adroddir arni yn 2011. O ganlyniad nid yw canfyddiadau'r arolwg wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad hwn.

## Crynodeb ac arsylwadau cloi

2.7 Gall unrhyw werthusiad o gyfraniad ymyrraeth blynyddoedd cynnar ar gyfer gwella cyfleoedd bywyd plant ond cael ei brofi'n iawn ar y mannau trosglwyddo yn eu datblygiad o blentyndod i fod yn oedolyn. Er y gellir asesu gwelliannau mewn datblygiad meddwl ac iaith yn deillio o'r ymyrraeth, gall yr effeithiau hyn ddirywio mewn blynyddoedd diweddarach heb gefnogaeth atgyfnerthol.

2.8 Fodd bynnag, mae'n dal yn bosibl asesu pa mor effeithiol y bu'r rhaglenni mewn sefydlu'r amodau y mae theori a thystiolaeth empirig gyfyngedig yn

[7] O ganlyniad i gyfyngiadau ar adnoddau. Ni chynhwyswyd hawl a gweithgareddau ehangach ymweliadau iechyd Dechrau'n Deg yn yr astudiaeth.

awgrymu sy'n angenrheidiol ar gyfer gwelliannau diweddarach mewn cyfleodd bywyd. Mae'r amodau hyn yn ymwneud â'r:

- ffactorau strwythurol a phroses sy'n hollbwysig mewn sicrhau darparu cefnogaeth yn effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc difreintiedig
- newidiadau mewn agwedd ac ymddygiad plant, pobl ifanc a'u teuluoedd sy'n gyson gyda gwelliannau diweddarach yn eu rhagolygon ar gyfer datblygiad cymdeithasol ac addysgiadol

2.9 Roedd y gwerthusiad wedi canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r materion hyn ac roedd y dystiolaeth yr oedd yn ei defnyddio yn ansoddol yn bennaf. Bydd yr arolwg o gartrefi, yn ddiweddarach, yn galluogi i ganlyniadau mwy ansoddol i gael eu tynnu ar gasgliadau'r rhaglen o ran gwell datblygiad iaith, datblygiad meddwl, datblygiad cymdeithasol ac emosiynol ac iechyd corfforol ymhlith y plant sy'n cyfranogi yn y rhaglen.

Tabl 0-1: Gweithgareddau ymchwil gwerthusiad

| **Cwestiynau'r gwerthusiad** | **Gweithgareddau ymchwil gwerthusiad** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Diffiniadau ardal Dechrau'n Deg | Adolygiad polisi a thystiolaeth | Adolygiad data eilaidd | Adolygiad data monitro | Cyfrifiad o Bartneriaetha u | Astudiaethau achos ardal | Astudiaethau achos ardal | Arolwg o deuluoedd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd rheoli[8] |
| | Coladu a glanhau data'n ymwneud â chodau post Dechrau'n Deg a LSOA ar gyfer y 22 Partneriaeth | Adolygu polisi a thystiolaeth berthnasol yn ymwneud â Dechrau'n Deg | Archwilio'r data eilaidd sydd ar gael, creu gwaelodlin a sefydlu ardaloedd rheoli Dechrau'n Deg | Hwyluso casglu data monitro a glanhau a dadansoddi'r data o'r 22 Partneriaeth | Cynnal a dadansoddi arolwg seiliedig ar y we o'r holl Gydlynwyr Dechrau'n Deg a CYPP ym Mlynyddoedd 1 a 2 | Cynnal astudiaethau achos mewn 22 ardal ac ymweld â phob un ddwywaith dros dair blynedd | Cynnal naw astudiaeth achos thematig a ddewisir gan y tîm gwerthuso, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Phartneriaeth au | Cynllunio a chyflenwi arolwg cartrefi arhydol mewn 2 don mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd rheoli |
| C1: A yw'r rhaglen wedi bodloni'n effeithiol yr anghenion a nodwyd drwy ddarpariaeth gwasanaethau? | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | |

[8] Yn cynnwys arolwg Ipsos MORI o brofiad defnyddwyr 0'r tri hawl Dechrau'n Deg

| | Gweithgareddau ymchwil gwerthusiad | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Diffiniadau ardal Dechrau'n Deg | Adolygiad polisi a thystiolaeth | Adolygiad data eilaidd | Adolygiad data monitro | Cyfrifiad o Bartneriaethau | Astudiaethau achos ardal | Astudiaethau achos ardal | Arolwg o deuluoedd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd rheoli[8] |
| C2: Pa gyfuniad o ddarpariaeth sy'n gweithio o ran cyflawni effaith? | | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| C3: A yw'r gwasanaethau a ddarparwyd wedi cael effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth? | | | ✓ | | | ✓ | | ✓ |
| C4: Sut mae'r rhaglen wedi ei haddasu i fodloni angen lleol? A yw hyblygrwydd wedi gweithio? | | ✓ | | | | ✓ | ✓ | |
| C5: Pa mor effeithiol fu partneriaethau lleol mewn asesu a dadansoddi angen lleol ac archwilio darpariaeth? | | | | | ✓ | ✓ | ✓ | |

| | Gweithgareddau ymchwil gwerthusiad | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Diffiniadau ardal Dechrau'n Deg | Adolygiad polisi a thystiolaeth | Adolygiad data eilaidd | Adolygiad data monitro | Cyfrifiad o Bartneriaetha u | Astudiaethau achos ardal | Astudiaethau achos ardal | Arolwg o deuluoedd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd rheoli[8] |
| C6: Pa mor effeithiol fu partneriaethau lleol mewn datblygu rhaglenni, comisiynu, dyrannu arian a monitro a gwerthuso cynnydd? | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| C7: Pa mor llwyddiannus fu partneriaethau mewn cyfatebu angen i brosiectau lleol? | | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | |
| C8: Pa mor effeithiol fu'r rhaglen mewn cyflawni ei nodau cyffredinol? | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| C9: A yw'r rhaglen wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau unigolion? | | | | | | ✓ | | ✓ |

| | Gweithgareddau ymchwil gwerthusiad | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Diffiniadau ardal Dechrau'n Deg | Adolygiad polisi a thystiolaeth | Adolygiad data eilaidd | Adolygiad data monitro | Cyfrifiad o Bartneriaetha u | Astudiaethau achos ardal | Astudiaethau achos ardal | Arolwg o deuluoedd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd rheoli[8] |
| C10: Pa effeithiau gafodd y rhaglen yn unigol a phan gyfunwyd hi ag ymyriadau eraill? | | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| C11: Pa wersi sydd i'w gweld o'r rhaglen a beth yw'r materion ar gyfer y dyfodol? | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| C12: Pa ymyriadau sydd eu hangen yn y dyfodol i gefnogi datblygiad y blynyddoedd cynnar? | | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ |

# 3: Sail resymegol y rhaglen

## Cyflwyniad

3.1 Y rhesymeg ar gyfer Dechrau'n Deg oedd rhoi hawliau i rieni mewn ardaloedd difreintiedig i gefnogi eu plant ifanc a fyddai'n meithrin eu datblygiad, yn cynorthwyo i leihau'r angen am weithredu argyfwng neu gamau unioni yn ddiweddarach, cynyddu eu cyrhaeddiad addysgol ac yn y pen draw lleihau'r gyfran o bobl gyda sgiliau isel iawn. Cynlluniwyd y rhaglen fel peilot i gydnabod yr angen am ragor o dystiolaeth am yr hyn a weithiodd fel ymyriadau blynyddoedd cynnar yn y cyd-destun Cymreig. Felly, roedd effeithiolrwydd a chost effeithiolrwydd y rhaglen i gael eu hasesu o ran y rhieni a'r plant hynny a oedd yn gymwys ar gyfer yr hawliau (ac yn eu defnyddio) yn hytrach na'r boblogaeth o blant difreintiedig yn gyffredinol.

3.2 Mae'r bennod hon o'r adroddiad yn adolygu'n fyr y rheswm pam fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei hystyried yn angenrheidiol i sefydlu'r rhaglen, y dystiolaeth sydd ar gael ar effeithiolrwydd ymyriadau blynyddoedd cynnar, y nodweddion a awgrymir sy'n gysylltiedig ag ymyriadau effeithiol a'u costau a'u budd cyffredinol. Yn olaf, rydym yn cyflwyno sail resymegol trosfwaol a model rhesymeg ar gyfer rhaglen Dechrau'n Deg.

## Yr angen am ymyrraeth

3.3 Seiliwyd y cyfiawnhad dros ymyrraeth i gefnogi datblygiad plentyn mewn ardaloedd difreintiedig ar bryderon am y rhagolygon ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru (ac yn enwedig yn ei hardaloedd mwyaf difreintiedig) fel y datgelir gan y data sydd ar gael. Er enghraifft:

- Roedd y cyfraddau marw-anedig yn debyg iawn i rai Lloegr yn ystod 2000-2004 ond yn amrywio'n sylweddol iawn ar draws awdurdodau - roedd 6.0% neu ragor (o gymharu â'r cyfartaledd o 5.1%) yn Ynys Môn, Sir Ddinbych, Powys, Merthyr Tudful, Blaenau Gwent a Chasnewydd.
- Yn yr un modd, er bod cyfran y babanod gyda phwysau geni isel ychydig bach yn is yng Nghymru nac yn Lloegr, roedd yr amrywiad ar draws

Cymru yn sylweddol - 7% neu uwch yng Nghasnewydd, Merthyr Tudful a Blaenau Gwent o gymharu â chyfartaledd Cymru o 5.9% dros 2002-2004, ar gyfer babanod pwysau geni isel (<2500g) unigol a anwyd yn fyw.

- Roedd y gyfradd feichiogi yn yr arddegau (menywod o dan 16 oed) yn 8.0 yng Nghymru (fesul 1000 o fenywod 13-15 oed) yn 2002-04 o gymharu â 7.8 yn Lloegr ond gyda'r gyfradd dros 10.0 yn Nhorfaen, Blaenau Gwent, Rhondda Cynon Taf a Wrecsam.
- Rhwng canol a diwedd y 1990au roedd 37% o blant yng Nghymru yn byw mewn cartrefi o dlodi incwm cymharol[9] o gymharu â 34% yn Lloegr a 33% yn yr Alban. Roedd cyfran y plant (0-15 oed) yn byw mewn teuluoedd yn hawlio budd-dal diweithdra yn 25% ar gyfartaledd yng Nghymru yn 2005 ond roedd y gyfran yn uwch na 30% yng Nghastell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili a Blaenau Gwent.
- Roedd cyfran y plant dibynnol yn byw mewn teuluoedd unig riant yn 25% yng Nghymru yn 2001 o gymharu â 23% yn Lloegr a 25% yn yr Alban, gyda'r ffigur hwnnw'n cyrraedd tua 30% yng Nghasnewydd, Merthyr Tudful a Blaenau Gwent.
- Yn 2001 roedd gan Gymru gyfran uwch o bobl ifanc heb unrhyw gymwysterau (20%) na Lloegr (17%) a'r Alban (12%) ac mewn rhai rhannau o Gymru roedd y gyfran yn agos i 30% (Merthyr Tudful a Blaenau Gwent).
- Dangosodd cymariaethau a wnaed gan Wasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru[10] bod gan Gymru, yn 2001/02, gyfran uwch (15% merched a 25% bechgyn) nac yn Lloegr a'r Alban o bobl ifanc 13 oed a oedd yn gyn-ordew a chyfran uwch o bobl ifanc 15 oed (54% merched a 58% bechgyn) oedd yn yfed unrhyw ddiod alcoholaidd yn wythnosol.

## Tystiolaeth o'r achos am ymyriadau blynyddoedd cynnar

3.3 Mae corff cynyddol o dystiolaeth[11] sy'n cefnogi rôl gadarnhaol ymyriadau yn y blynyddoedd cynnar mewn gwella datblygiad plant a phobl ifanc a'u

[9] Diffinnir fel cartrefi gyda llai na 60 y cant o 1996/7 incwm canolrifol a ddelir yn gyson mewn termau gwirioneddol (wedi costau taiincome held constant in real terms (after housing costs)
[10] Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, *Asesiad Anghenion Iechyd* (2006)
[11] Crynhoir y llenyddiaeth a adolygwyd ar gyfer y gwerthusiad yn y tabl ar ddiwedd y bennod.

rhagolygon mewn bywyd fel oedolyn. Mae'r dystiolaeth yn dynodi - ac mae wedi cael ei dybio'n gyffredin - bod ymyriadau o'r fath yn dod â manteision sydd y tu hwnt i'w costau oherwydd eu bod yn gwella cyraeddiadau addysgol ac yn lleihau costau camau unioni yn ddiweddarach (e.e. drwy'r system cyfiawnder troseddol).

3.4 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu tri chynnig wedi eu cysylltu:

- Mae ymyriadau yn y blynyddoedd cynnar yn rhoi manteision i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, y cymunedau y maent wedi eu lleoli ynddynt a chymdeithas yn gyffredinol - yn y byr dymor a hefyd yn y cyfnod hwy drwy, er enghraifft, gynnydd mewn cyrhaeddiad addysgol a lleihad mewn troseddu.
- Mae manteision ymyriadau blynyddoedd cynnar yn amlycach ar gyfer plant a theuluoedd sydd yn dioddef o amddifadedd ac/neu'n byw mewn ardaloedd mwy amddifad.
- Mae ymyriadau blynyddoedd cynnar yn cyflawni'r manteision hyn am gostau sy'n gymharol fychan o gymharu ag ymyriadau diweddarach drytach megis 'gofal allan o'r cartref', amddiffyn plant a charchar.

3.5 Rhaid pwysleisio bod y cynigion uchod, hyd yma, wedi eu seilio ar dystiolaeth empirig ac mae llawer ohono wedi ei seilio ar brofiad mewn rhannau o'r Unol Daleithiau. Er hynny, fel y dywedodd Cook a Wong[12] yn 2007, "*nid ydym eto'n siŵr y gellir gwau'r gwahanol frwyn tenau ynghyd i greu llong cyn-feithrin sy'n wirioneddol gryf*" a daeth adolygiad EPPI-Centre[13] i'r casgliad bod "*er y gallai fod canlyniadau tymor hir o ymyriadau plentyndod cynnar, nid yw'r astudiaethau hyn yn dweud fawr ddim am y broses ac maent wedi eu deilio ar ragfynegiadau cost a rhagamcaniadau sydd ddim yn ymddangos eu bod yn gymwys yn uniongyrchol y tu allan i gyd-destun u yr UDA*" (Statham & Smith, 2010).

[12] Cook TD a Wong V C, Commentary on Ludwig J and Phillips D (2007)
[13] EPPI-Centre (2006)

## Cynllunio a darparu ymyriadau

3.6 Mewn perygl o or-symleiddio'r hyn sy'n faes polisi hynod gymhleth, gellid darllen y dystiolaeth hyd yma i awgrymu y gall nodweddion ymyriadau cefnogaeth mwy effeithiol yn y blynyddoedd cynnar gael eu grwpio i dri chategori penodol fel y nodir yn Ffigur 0-1.[14]

Ffigur 0-1: Ffactorau llwyddiant critigol mewn cefnogi datblygiad blynyddoedd cynnar

**Ymyriadau Unigol**

- Bod â nodau clir sy'n cynnwys yr angen posibl am elfennau polisi lluosog a bod y gwasanaeth yn bwriadu eu cyrraedd.
- Darparu yn unol â'r cynllunio ymyrraeth ond gyda'r cyfleuster i ymgysylltu â darparwyr gwasanaeth eraill er mwyn addasu i anghenion lleol ac anghenion teuluoedd.
- Darparu cyfleoedd aml, cyfnod hir a chefnogaeth ddwys - gyda dechrau cynharach yn cael ei gysylltu i ddatblygiad cryfach.
- Defnyddio staff gyda chymwysterau uwch mewn lleoliadau integredig - yn arbennig lle bo tystiolaeth o angen difrifol neu angen posibl.

**Systemau gwasanaeth**

- Darparu cymysgedd o ymyriadau cyffredinol a rhai wedi'u targedu wedi eu hadeiladu ar bartneriaethau a chydweithredu rhwng asiantaethau a mathau o wasanaeth.
- Cymysgu datblygiad addysgol a chymdeithasol fel nodweddion ategol ac o'r un pwysigrwydd
- Darparu canolfannau integredig ac ysgolion meithrin.
- Ategu cefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc gyda chefnogaeth ar gyfer rhianta a datblygiad teuluol a chymunedol ehangach.
- Cyfuno arweinyddiaeth o'r brig i lawr a dyraniad adnoddau ymhlith darparwyr gwasanaeth gydag arbenigedd o'r gwaelod i fyny a gwybodaeth leol.
- Bod â'r adnoddau a'r disgresiwn i fod yn hyblyg ac yn alluog i newid mewn ymateb i ddealltwriaeth well o anghenion plant a phobl ifanc a'r teuluoedd a'r cymunedau y maent wedi eu lleoli ynddynt.

**Buddiolwyr targed**

- Darparu gwasanaeth cyffredinol sydd, yn ogystal â chanolbwyntio ar y plant hynny a'u teuluoedd a chymunedau sy'n ddifreintiedig yn fiolegol, cymdeithasol a/neu economaidd ac/neu sy'n byw mewn cymdogaethau o amddifad mawr
- Cydnabod y gallai ymyriadau blynyddoedd cynnar fod yn llai effeithiol ar gyfer y rheini sydd ar ymylon difreintedd a'r rheiny difrifol ddifreintiedig (er bod y dystiolaeth ar hyn yn llai clir).

*Ffynhonnell: SQW Consulting*

[14] Mae'r crynodeb hwn yn pwyso'n drwm ar Valentine a Katz (2007) a Watson a Tully (2008)

3.7 Mae'r canlyniadau hyn am ffactorau llwyddiant critigol yn awgrymu mai gwasanaethau effeithiol yw'r rheiny sydd wedi eu gwreiddio'n dda o ran partneriaeth rhwng darparwyr gwasanaethau ac ansawdd uchel y gwasanaethau dwys y maent yn eu darparu i blant difreintiedig, eu teuluoedd a chymunedau lleol. Rhaid cymhwyso'r rhybudd a fynegwyd am ganfyddiadau cyffredinol ymchwil ar effeithiolrwydd ymyriadau blynyddoedd cynnar hyd yn oed yn fwy cryf pan ddaw i ystyried y ffactorau sy'n gwneud ymyriadau o'r fath yn fwy neu'n llai effeithiol. Mae hyn oherwydd mai cyfyngedig yw'r dystiolaeth o ran canlyniadau gwahaniaethol y nodweddion hyn ar ganlyniadau. Er hynny, mae'r canlyniadau a grynhoir uchod yn gyffredinol yn unol â'r adroddiad mwyaf diweddar gan werthusiad cenedlaethol Cychwyn Cadarn (NESS (2008))[15].

3.8 Daeth astudiaeth NESS i'r casgliad bod Rhaglenni Lleol Cychwyn Cadarn (SSLP) wedi rhoi dylanwad cadarnhaol ar ddefnydd gwasanaeth, ar rianta ac ar gefnogaeth teuluol a datblygiad plentyn - yn arbennig o ran eu hiechyd corfforol a'u datblygiad cymdeithasol. Roedd y canfyddiad hwn yn wrthwyneb i ganlyniadau cynharach a oedd yn fwy amwys am natur gadarnhaol yr effeithiau. Disgrifiodd y gwerthuswyr y gwahaniaeth yn y modd canlynol:

- **Gwasanaethau lleol mwy effeithiol:** Roedd y rhaglenni lleol (SSLP) wedi esblygu dros amser ac wedi dod yn ganolfannau plant gyda mwy o ffocws ar wasanaeth a chydlynu a rhagor o arweiniad ar fynd i'r afael ag anghenion teuluoedd difreintiedig. Gall yr SSLP hefyd fod wedi gwella wrth i staff rhaglen lleol gaffael a datblygu sgiliau a gwybodaeth briodol ac wrth i brinder a throsiant staff gael eu lleihau.
- **Cyfleoedd hwy i wasanaethau wedi eu gwreiddio:** Roedd gan blant a theuluoedd oedd yn rhan yn y cam mwyaf diweddar o werthusiad NASS gyflwyniad llawer hwy i'r gwasanaethau SSLP ar draws cyfran uwch o'u bywydau nag oedd gan blant tair blwydd oed a astudiwyd yn y cam cynharach. Ar y pryd hynny roedd yr SSLP wedi bod ar waith fan hwyaf am dair blynedd ac, felly, efallai na fyddai'r plant a'u teuluoedd wedi cael eu cyflwyno i wasanaethau wedi eu gwreiddio'n

[15] NES *The Impact of Sure Start Local Programmes on Three Year Olds and Their Families* (2008)

dda. Mae hyn yn gyson gyda chanfyddiadau blaenorol o'r gwerthusiad cenedlaethol sef na ddaeth yr SSLP yn agos at fod yn llwyr weithredol tan wedi trydedd flwyddyn ei weithrediad

3.9 Pwynt pwysig iawn i'w nodi o waith NESS ac astudiaethau eraill yw bod ymyriadau blynyddoedd cynnar angen amser i gael eu gwreiddio ac na ellid disgwyl cyflawni eu manteision dros gyfnod gweithredu byr.

## Canlyniadau a chymarebau cost a budd yr ymyriadau

3.10 Awgrymodd yr adolygiad gan Ludwig a Phillips (2007) bod Headstart yn yr UDA wedi cynyddu'r tebygolrwydd y byddai cyfranogwyr yn cwblhau ysgol uwchradd, yn cyflawni cyraeddiadau addysgol, ac yn mynychu coleg ac yn lleihau'r tebygolrwydd o ordewdra ymhlith plant, lleoliadau addysg arbennig, ac yn cael eu harestio a'u cyhuddo am drosedd.

3.11 Dim ond ychydig o astudiaethau sy'n asesu costau a budd ymyriadau i gefnogi datblygiad plentyn. Maent yn dangos cymarebau cost a budd cadarnhaol o feintiau amrywiol fel y dangosir gan y dystiolaeth a adolygwyd gan Valentine a Katz (2007) - Tabl 0-1.

Tabl 0-1: Cymarebau cost a budd ymyriadau blynyddoedd cynnar

| **Categori astudiaeth / ymyrraeth** | **Ffynhonnell** | **Cymarebau cost : budd** |
|---|---|---|
| Cost a budd atal cam-drin plant (Michigan) | Caldwell 1992 | 19.0 : 1 |
| Meta-ddadansoddiad o ymyriadau cynnar | Aos et al, 2004 ac Isaacs, 2007 | 2.4 :1 |
| Rhaglen ymweliadau cartref – Partneriaethau Nyrsys Teulu | Karoly et al, 2005 | 2.9 : 1 |
| Cyn-ysgol a chefnogi teulu – Abecedarian | Karoly et al, 2005 | 3.2 : 1 |
| Cyn-ysgol a chefnogi teulu – Perry Preschool | Karoly et al, 2005 | 17.1 : 1 |
| Addysg cyn-ysgol ac ysgol a chefnogi teulu – Canolfannau Plant-Rhiant Chicago | Karoly et al, 2005 | 7.1 : 1 |
| Effeithiau cyllidol ehangu rhaglenni cyn ysgol – 3 talaith yn yr UDA | Belfield, 2006 | 1.2 – 1.6 : 1 |
| Lleihad mewn maint dosbarthiadau mewn ysgol feithrin ymlaen i'r ail flwyddyn - UDA | Aos et al, 2007 | Cyfradd adenillion gwirioneddol blynyddol 6- |

| Categori astudiaeth / ymyrraeth | Ffynhonnell | Cymarebau cost : budd |
|---|---|---|
| | | 11% |

**Manteision**

Caiff manteision yr astudiaethau uchod eu rhagamcanu fel costau gafodd eu hosgogi ac enillion ychwanegol - a gyfrifwyd drwy gymhariaeth gyda grwpiau rheoli a/neu fodelu economaidd. Mae costau gafodd eu hosgoi yn cyfeirio ar y costau diweddarach a gysylltir gyda chyfiawnder troseddol, iechyd adferol a gwasanaethau cefnogi, bywydau a gollwyd neu a ddioddefodd amhariad a gwariant uwch ar les / lleihad mewn cyfraniadau treth a geir oherwydd esgeulustod a cham-drin plant a gwasanaethau annigonol i gefnogi plant gydag anableddau neu i fynd i'r afael â phroblemau ymddygiad mewn ysgolion.

Mae'r mathau hyn o fanteision yn amlwg yn hwy dymor yn eu digwyddiad – fel ag y mae enillion cynyddol y mae rhai astudiaethau yn amcangyfrif sy'n codi (neu sy'n bosibl) o gefnogaeth blynyddoedd cynnar ac sydd i'w gweld yn amlwg yn y cyfrifiad manteision cyffredinol. Mae'r dystiolaeth yn llawer teneuach o ran y manteision tymor byr y gellir rhoi gwerth arnynt at ddiben dadansoddiad cost a budd.

**Costau**

Mae'r astudiaethau hefyd yn dangos y gall rhaglenni ymyrraeth gynnar gostio rhagor na'r 'gwrthfeithiol' - h.y. beth a fyddai wedi cael ei ddarparu beth bynnag fel y mae, ac yn yr UDA (lle nad oes unrhyw wasanaethau gofal cymunedol/sylfaenol yn cael eu cynnig yn gyffredinol) byddai mwy na thebyg yn dod i gyfanswm o ddim, yn arbennig ym mlynyddoedd cynnar y rhaglenni.

Derbyniodd plant a oedd yn elwa gan Raglen Perry Preschool yn Texas 2.5 awr o wasanaeth gan y rhaglen bob dydd, 180 diwrnod y flwyddyn am 2 flynedd ar gyfer plant tair i bedair oed. Mae hyn yn gyffredinol gymharol gyda chynnig cyffredinol Cymru a Lloegr.[16] Fodd bynnag, derbyniodd blant Abecedarian hyd at 10 awr y dydd, 250 diwrnod y flwyddyn gan ddechrau'n gynnar ym mlwyddyn gyntaf eu bywyd nes iddynt ddechrau ysgol feithrin –ar gost cyfartedd blynyddol o $13,900 y plentyn (ar brisiau 2002). Dyfynwyd cost Headstart yn ddiweddar fel $9,000 y plentyn.[17]

Awgrymodd astudiaeth ddiweddar o raglenni rhianta yn y DU[18] eu bod yn eithaf rhad - y lleiaf drud oedd grŵp darpariaeth yn y gymuned yn costio rhwng £600 a £900 am bob teulu a'r drytaf oedd hyfforddiant yn y cartref yn costio tua £3,800 y teulu. Fodd bynnag, serch hynny, daeth i'r casgliad bod asesiad o'r newid mewn costau gwasanaeth dros y tymor byr (gorwel blwyddyn neu lai) yn awgrymu nad oedd rhaglen hyfforddi rhieni yn debygol o dalu amdano'i hun.[19] Cadarnhawyd hyn gan y dadansoddiad cost-effeithiolrwydd a gynhaliwyd ar raglen rhianta penodol yng Nghymru[20] lle mai'r cynnydd net mewn costau oedd tua £2,000 y plentyn (o gymharu â chynnydd o tua £50 yn y grŵp rheoli). Fodd bynnag, dylid pwysleisio bod y rhaglen yn cynnwys gwelliant graddol ym mynegai ymddygiad plant Eyberg (27.3 o gymharu â 0 yn y grŵp rheoli).

Table A-1: At ddibenion cymharol, targedwyd y dyraniad cyllideb ar gyfer Dechrau'n Deg ar £2000 y plentyn y flwyddyn a godwyd yn ddiweddarach i £2,100.

*Ffynhonnell: Valentine and Kraz (2007)*

---

[16] Yn y DU yn gyffredinol, mae plant yn derbyn darpariaeth cyn ysgol am ddim o dair blwydd oed a gallant gyrchu 12.5 yr wythnos dros 5 diwrnod yn Lloegr a 10 awr dros 5 diwrnod yng Nghymru am ddim. Mae darpariaeth cyn-ysgol am ddim wedi ei gyfyngu i astudiaethau peilot megis Dechrau'n Deg a Pathfinder i blant dwyflwydd yn

[17] Ludwig J and Phillips D, *The benefits and costs of Headstart* in Social Policy Report Volume XXI, Number 3, 2007

[18] London Economics for DCSF, *Cost benefit analysis of interventions with parents,* 2007

[19] Noder: Seiliwyd y dadansoddiad cost a budd ar fanteision tymor byr ar ffurf arbedion o'r defnydd gwasanaeth cyhoeddus is o ganlyniad i welliannau mewn ymddygiad plant.

[20] Edwards et al, *Parenting programme for parents of children at risk of developing conduct disorder: Cost effectiveness analysis,* 2007

3.12 Mae'r dystiolaeth cost a budd hyd hon yn pwyntio i "*gyfeiriad cyffredinol o fanteision parhaus y rhaglen sydd ar yr ymylon yn uwch na chostau'r rhaglen?*", er efallai nad yw'r cymarebau cost a budd yn gadarnhaol yn y tymor byr iawn (llai na blwyddyn). Yr hyn sy'n parhau'n aneglur yw ar ba ffurf yn union y dylai'r ymyriadau blynyddoedd cynnar fod. "*Efallai mai'r defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau ychwanegol ar y pwynt hwn ddylai fod i fuddsoddi mwy yn yr Ymchwil a Datblygiad sydd ei angen i lunio barn ddeallus am y ffordd orau i ehangu gwahanol raglenni blynyddoedd cynnar a chydlynu'r ehangiadau hyn o fewn y rhaglenni presennol a chwricwlwm yr ysgol elfennol*".[21]

## Sail resymegol a model rhesymegol ar gyfer ymyriadau blynyddoedd cynnar

3.13 Y sail resymegol ar gyfer cefnogaeth ychwanegol ar gyfer ymyrraeth blynyddoedd cynnar gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei darparu drwy bartneriaeth yw na fyddai'r budd fel arall yn cael ei gynhyrchu o gwbl neu i'r raddfa, yr hyd a/neu'r ansawdd a ddymunir. Mae hyn oherwydd y rhesymau canlynol:

- Nid yw'r dystiolaeth ynglŷn â manteision hir dymor a briodolir i'r ymyriadau – a sut y byddant yn cael eu gwireddu – wedi eu datblygu'n dda hyd yma ac maent yn parhau'n ansicr.
- Mae costau gwasanaethau blynyddoedd cynnar mwy dwys ac am gyfnod hirach yn fyr dymor, tryloyw ac uwch tra bo'r manteision yn hir dymor, ansicr ac anniriaethol.
- Mae costau darparu ymyriadau blynyddoedd cynnar yn dod ar ysgwyddau'r darparwyr hynny (megis Ymddiriedolaethau GIG) nad sydd o reidrwydd yn elwa yn yr hir dymor nac ychwaith yn y tymor byr.

3.14 Felly, y sail resymegol ar gyfer yr ymyriadau yw eu bod yn cynorthwyo i oresgyn unrhyw ddiffyg cymhelliant a allai fod gan ddarparwyr gwasanaeth o ran buddsoddi mewn cefnogaeth blynyddoedd cynnar, hwyluso gweithio

[21] Ludwig and Phillips, 2007

mewn partneriaeth lle gall costau ac arfer gael eu rhannu er mwyn galluogi gwasanaethau blynyddoedd cynnar effeithiol i ddod yn hysbys ac yna gwreiddio mewn blaenoriaethau prif ffrwd ac yn narpariaeth gwasanaethau prif ffrwd.

3.15 Fodd bynnag, daw un peth yn glir o'r dystiolaeth sydd ar gael. Hynny yw, bod cysylltu ymyriadau blynyddoedd cynnar gydag effeithiau diweddarach megis gwell cyraeddiadau addysgol a llai o ymyriadau unioni yn dal i olygu 'theori newid' lle mae rhai cysylltiadau yn y newid achosol â gwell sail tystiolaeth nac eraill.

3.16 Mae hyn wedi arwain at ddatblygiad a defnydd o fodelau rhesymeg ar gyfer cynllunio ac asesu ymyriadau polisi. Mae polisi model rhesymeg "*yn ceisio datgan canlyniad [polisi a ddymunir] yn glir a "mapio tuag at yn ôl" y cysylltiadau cysyniadol rhwng y canlyniad a ddymunir a'r dewisiadau polisi penodol y mae eu heffeithiau cronnus yn cynhyrchu'r canlyniad hwn* ".[22] Mae angen mireinio modelau rhesymeg o'r fath wrth i ragor o dystiolaeth ddod ar gael drwy ymchwil a gwerthusiad. Felly, mae rôl gwerthusiad yn y cyd-destun hwn yn ymwneud yn bennaf â dysgu. Mae'n asesu a wnaeth ymyrraeth roi'r canlyniadau canolradd a oedd yn gyson gyda chyflawniad y manteision tymor hwy bwriedig ac yn awgrymu unrhyw fireinio sydd ei angen yn y polisi a'r model rhesymeg gwaelodol.

3.17 Rhagamcanodd dyheadau polisi Dechrau'n Deg effeithiau lefel uwch o'r rhaglen dros y tymor hwy yn ogystal â'i ganlyniadau canolradd a thymor byr. Mae canllawiau'r rhaglen yn cyfeirio at ei nod, yn yr hir dymor, i leihau'r gyfran o bobl gyda sgiliau gwael a dros y tymor canolig, i wneud arbedion sylweddol mewn gwasanaethau unioni drwy adnabod anghenion yn gynharach. Mae'r nodau hyn yn gofyn bod y rhaglen yn cyflawni canlyniadau diriaethol ar gyfer y plentyn yn y tymor byr:

- Datblygiad iaith

[22] Kagan S L and Rigby E, *Improving the readiness of children for school: Recommendations for state policy*, (2003) – papur trafod ar gyfer prosiect Policy Matters sy'n fenter gan y Centre for the Study of Social Policy (Washington DC) mewn cydweithrediad â'r National Center for Children in Poverty (NCCP) and Child Trends.

- Datblygiad meddwl
- Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol
- Iechyd corfforol
- Clustnodi'n fuan y rheini sydd ag anghenion mawr

3.18 Mae Ffigur 0-2 yn dangos y fframwaith rhesymeg canlyniadol ar gyfer y rhaglen. Mae’r lliwio yn narluniad y fframwaith yn dynodi ei fod yn cynnwys: Data cyd-destunol lefel uchel yn ymwneud â’r amodau y mae disgwyl iddo gael effeithiau cadarnhaol dros y tymor hwy arnynt (y rhannau sydd wedi eu lliwio’n las tywyll); Nodau ac amcanion lefel rhaglen y disgwylir iddynt gael eu cyflawni ar ffurf canlyniadau tymor canolig (y rhannau sydd wedi eu lliwio’n las golau); a gweithgareddau ac allbynnau tymor byrrach y rhaglen i balmantu’r ffordd ar gyfer canlyniadau ac effeithiau diweddarach.


## Crynodeb a sylwadau cloi

3.19 Yr angen ar gyfer ymyriadau blynyddoedd cynnar yn y cyd-destun Cymreig oedd i fynd i’r afael â phroblemau mewn ardaloedd difreintiedig i gynyddu cyfleoedd bywyd plant nawr ac yn eu bywyd diweddarach. Cynlluniwyd Dechrau’n Deg fel cynllun peilot mewn cydnabyddiaeth o’r angen am ragor o dystiolaeth ynglŷn â beth oedd yn gweithio o ran ymyriadau blynyddoedd cynnar.

3.20 Mae hyd a lled y dystiolaeth ar ba un y caiff y sail resymegol ar gyfer ymyriadau blynyddoedd cynnar ei seilio yn parhau’n gyfyngedig iawn ond mae’n gyson mewn dangos canlyniadau cadarnhaol a chymarebau cost a budd - yn arbennig ar gyfer plant difreintiedig ac o ddarpariaeth gwasanaethau integredig. Mae’r sail resymegol ar gyfer ariannu arbennig i gefnogi ymyriadau blynyddoedd cynnar wedi ei seilio ar ddelio â’r sefyllfa lle mae costau’r ymyrraeth yn rhai tymor byr a diriaethol, y manteision yn rhai hir dymor ac ansicr, a lle mae’r costau yn cael eu rhoi ar yr asiantaethau hynny nad sydd o reidrwydd yn manteisio o gyflawni allbynnau targed na chostau is. Gallant felly fod â diffyg cymhelliant i fuddsoddi mewn ymyriadau blynyddoedd cynnar.

3.23 Ceisiodd Dechrau'n Deg fynd i'r afael â'r broblem hon drwy ddarparu ariannu arbennig ar gyfer gwasanaethau cefnogi a'i gwneud hi'n ofynnol y dylai gael ei ddefnyddio drwy bartneriaeth ymhlith y darparwyr gwasanaeth perthnasol a thrwy integreiddio gwasanaethau a, lle bo hynny'n bosibl, lleoliadau. Roedd cyfiawnhad i sail resymegol y rhaglen drwy'r dystiolaeth sy'n bodoli'n barod ac mae'n parhau'n gadarn. Fodd bynnag, golyga natur peilot y rhaglen bod yn rhaid i'w effeithiolrwydd a'i chost-effeithiolrwydd gael eu gwerthuso o ran y plant hynny a'u rhieni sy'n gymwys am hawliau Dechrau'n Deg ac a'u defnyddiodd - yn hytrach nag o ran ei effaith ar wella siawns bywyd plant difreintiedig yng Nghymru yn gyffredinol. Hefyd ni ellir ei gwerthuso fel petai'n ateb cyflym. Mae'r holl dystiolaeth yn dynodi bod angen i ymyriadau blynyddoedd cynnar gael eu gwreiddio'n weithredol, yn ddiwylliannol ac yn gyson cyn y gallant gael effaith sy'n ddymunol.

Ffigur 0-2: Model Rhesymeg ar gyfer Dechrau'n Deg




*Fynhonnell: SQW Consulting*

Ffigur 0-3: Llenyddiaeth a adolygwyd ar gyfer Gwethusiad Cenedlaethol Dechrau'n Deg

**Gwerthusiadau ac adolygiadau**

- Sylva K et al, *The effective provision of pre-school education project: Final report* (2004)
- Feinstein L and Duckworth K, *Development in the early years: Its importance for school performance and adult outcomes* (2006)
- EPPI-Centre, Institute of Education, University of London, *Early Years: What is known about the long-term impact of centre-based early childhood interventions?* (2006)
- Pugh G a Duffy P, *Contemporary Issues in the Early Years,* 4th Edition (2007)
- Edwards, RT et al, *Parenting programme for parents of children at the risk of developing conduct disorder: Cost effectiveness analysis* (2007)
- London Economics of DCSF, *Cost Benefit Analysis of Interventions with Parents* (2007)
- Valentine K and Katz I for the Queensland Council of Social Service Inc, *Cost effectiveness of early intervention programs for Queensland* (2007)
- Belsky J, Barnes J a Melhuish E (ed), National evaluation of Sure Start: *Does area based early intervention work?* (2007)
- Watson J a Tully L for the New South Wales Government, *Prevention and early intervention update – trends in recent research – Literature review* (2008)
- Scottish Government, *Early years and early intervention* (2008) – ar gael ar-lein yn http://www.scotland.gov.uk/Publications/2008/06/evidence.
- Institute for the Study of Children, Families and Social Issues, Birkbeck, University of London (The National Evaluation of Sure Start), *The Impact of Sure Start Local Programmes and Three Olds and Their* Families (2008)
- Statham, J & Smith, M, *Issues in Earlier Intervention: Identifying and Supporting Children with Additional Needs*, Thomas Coram Research Unit, Institute of Education, University of London for the Department for Children, Schools and Families (DCSF) (March 2010)

**Mae tystiolaeth o'r UDA** yn sylweddol, a chafodd ei adolygu ar gyfer y gwerthusiad yn cynnwys y canlynol:

- Mathematica Policy Research, *Making a Difference in the Lives of Infants and Toddlers: The Impacts of Early Head Start* (2002)
- Kagan S L a Rigby E, *Improving the readiness of children for school: Recommendations for state policy*, (2003)
- Barnett W S a Belfield C R, *Early Childhood Development and Social Mobility* (2006)
- Barnett W S a Masse L N, *Comparative benefit-cost analysis of the Abecedarian program and its policy implications*, Economics of Education Review (2007)
- Ludwig J a Phillips D A, *The Benefits and Costs of Head Start,* National Bureau of Economic Research (2007)

# 4: Rhoi'r rhaglen ar waith – dyrannu adnoddau

## Dyrannu a defnyddio adnoddau

4.1 Nodwyd ardaloedd darparu Dechrau'n Deg gan yr Awdurdodau Lleol a thargedwyd hwy ar ddalgylchoedd ysgolion a ddewiswyd gan y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc lleol. Nodwyd dalgylchoedd ysgol fel y ddaearyddiaeth briodol gan Ganllawiau Cynulliad Cymru[23] gan y byddent yn:

- cael eu deall gan rieni
- darparu ar gyfer diffiniadau union o'r ardaloedd targed
- galluogi cysylltiadau i gael eu sefydlu rhwng y rhaglen hon a gwasanaethau cefnogi teulu eraill
- hwyluso mesur effaith y rhaglen, oherwydd bydd nifer o'r plant sy'n elwa o Dechrau'n Deg yn symud i fyny i'r ysgol gymdogaeth
- gall fod yn gatalydd i ysgolion i ganolbwyntio ar y gymuned.


4.2 Roedd y canllawiau'n cydnabod y gallai fod nifer o achosion lle nad yw dalgylchoedd ysgol yn ffitio'n berffaith gyda daearyddiaeth leol o amddifadedd a chynigwyd y cyfle i'r Partneriaethau gynnig addasiadau i ddalgylchoedd ysgolion targed i'w cytuno gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd y canllawiau'n nodi y dylai'r ardaloedd cael eu diffinio yn ôl codau post a/neu Uwch Ardaloedd Allbwn Is (LSOA).

4.3 Pennwyd ymhellach y dewis dalgylchoedd targed mewn ardaloedd o amddifadedd gan yr angen i Bartneriaethau gyfyngu ar nifer y plant cymwys (0-3 oed) mewn dalgylchoedd Dechrau'n Deg i'r cap, neu'r uchafswm, a amlinellir yn y canllawiau gwreiddiol sy'n cyfyngu ar nifer y plant sy'n gymwys ledled Cymru i 16,000.

4.4 Fel y dengys Ffigur 0-1, mae'r ardaloedd Dechrau'n Deg yn agos iawn at ei gilydd ond yn cwmpasu cyfran fechan iawn o'r Awdurdod Lleol perthnasol.

[23] Canllawiau Dechrau'n Deg 2006-7 a 2007-8, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Ffigur 0-1: LSOA Dechrau'n Deg o fewn ffiniau Awdurdodau Lleol Cymru



*Ffynhonnell: SQW Consulting*

4.5 Mae defnydd o'r Mynegai Amddifadedd yn dangos bod ardaloedd Dechrau'n Deg yn llawer mwy amddifad na'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob maes ac eithrio mynediad at wasanaethau (Ffigur 0-2). Mae'r amrywiant yn arbennig o fawr ym meysydd incwm, cyflogaeth ac addysg.

4.6 Mesur arall amddifadedd, sy'n amlygu mater pwysig tlodi plant, yw cyfran y plant sy'n gymwys am ginio ysgol am ddim. Roedd y gyfran hon yn 31% mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn 2006 - sylweddol uwch na'r ffigur

cenedlaethol ar gyfer Cymru, sef 16%, ac uwch nag yn yr ardal rheoli gwaelodlin[24] (ychydig dros 25%).


4.7 Mae'r dystiolaeth yn glir bod detholiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o ardaloedd Dechrau'n Deg yn llwyr gyson gyda'i sail resymegol ar gyfer y rhaglen o ran ei chanolbwynt ar ardaloedd o amddifadedd.

4.8 Dangoswyd hyn hefyd drwy ddyraniad cyllidebau ar draws ardaloedd Dechrau'n Deg. Cynhaliwyd hyn ar gyfer y rhaglen, fel ag yr oedd ar gyfer dyraniad Cymorth, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar sail Fformiwla Gwasanaethau Cymdeithasol Personol Plant yn yr Asesiad o Wariant Safonol. Cafodd y fethodoleg sy'n sail i'r fformiwla ei hargymell gan Brifysgol Caerefrog ar gyfer ei defnyddio i ddyrannu adnoddau ym maes gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n tynnu ar bedwar dangosydd yn ymwneud â phlant mewn teuluoedd allan o waith, plant mewn rhanbarthau etholiadol lle mae dwyseddau yn uwch na'r cyfartaledd, plant mewn tai cymdeithasol ar rent a phlant mewn tai sydd wedi eu gorboblogi. Nid yw'r drydedd siart yn Ffigur 0-2 yn defnyddio mynegai mor soffistigedig ond mae'n dal i ddangos i ba raddau y cafodd dyraniadau cyllideb Dechrau'n Deg yn ôl y pen o'r boblogaeth gymwys eu cydberthyn gyda sgoriau'r ardaloedd ar Mynegai Amddifadedd Cymru (2005) h.y. mae gwariant y pen yn uwch mewn ardaloedd mwy amddifad.


[24] Sefydlwyd ardal rheoli ar gyfer rhaglen Dechrau'n Deg at ddiben asesu data eilaidd cymharol ac i ddarparu grŵp gwrth-ffeithiol ar gyfer asesiad drwy'r arolwg arhydol. Rod dyr ardal rheoli yn cynnwys SOA a glustnodwyd gan ddefnyddio proses gyfatebu a roddodd ystyriaeth i bob LSOA, sgôr Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a'r boblogaeth 0-3 oed. Fodd bynnag, o gofion bod rhaglen Dechrau'n Deg wedi targedu'n llwyddiannus nifer o ardaloedd mwyaf amddifad Cymru (gyda 40% o LSOA Dechrau'n Deg o fewn 10% o ardaloedd mwyaf amddifad Cymru), mae nifer o'r LSOA rheoli a gyfatebwyd yn llai amddifad (17% o fewn 10% o ardaloedd mwyaf amddifad Cymru).

Ffigur 0-2: Ardaloedd Dechrau'n Deg, dyraniadau cyllideb a lefelau amddifadedd


**gai Amddifadedd Lluosog Cymru 2005**




**Cyfran y disgyblion mewn ardaloedd Dechrau'n Deg sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim (FSMM), 2006**



**Dyraniadau cyllideb Dechrau'n Deg yn ôl y pen ar draws ardaloedd Dechrau'n Deg a'u sgôr ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2005)**




*Ffynhonnell: WIMD 2005 a Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cronfa Ddata*

*Genedlaethol Disgyblion*


Newid cyd-destun – newid sail resymegol?

4.9 Roedd dewis yr ardaloedd a dyraniad ariannu ar gyfer Dechrau'n Deg yn gyson â bwriad y rhaglen i ganolbwyntio ar faterion sy'n wynebu plant a'u teuluoedd yn ardaloedd mwyaf amddifad Cymru. Felly a oes unrhyw beth wedi newid i newid y casgliad hwn?

***Tueddiadau poblogaeth***

4.10 Mae'n amlwg o Ffigur 0-3 bod cyfanswm twf poblogaeth mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn cyfateb i gyfanswm twf poblogaeth Cymru rhwng 2001 - 2008, gyda'r ddau yn gweld twf poblogaeth o 2.9%.

Ffigur 0-3 Tueddiadau poblogaeth 2001-2008





*Ffynhonnell: Rhagamcaniadau poblogaeth canol blwyddyn ONS*

4.11 Mae data 2008 yn dangos amrywiant bychan ond nodedig yn nosbarthiad oedran y boblogaeth. O gymharu â Chymru yn gyfan (4.5%), mae cyfran y plant 0-3 oed yn ardaloedd Dechrau'n Deg ychydig yn fwy (5.4%), er y caiff y twf hwn ei nodweddu gan begynau mewn rhai LSOA.[25]

4.12 Hefyd, fel y dangosir yn Ffigur 0-4, er yr adroddodd y waelodlin wreiddiol ostyngiad yn nifer y plant 0-3 oed yng Nghymru gan tua 1.5% rhwng 2001-06, mae twf diweddar rhwng 2006-2008 yn nifer y rhai 0-3 oed (o 5.1%) wedi golygu mai'r newid cyffredinol o ran canran yn y boblogaeth 0-3 oed ar draws yr holl gyfnod (2001-2008) yw 3.5%. Gwelodd ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardal rheoli (yn y bôn yr LSOA mwyaf amddifad yng Nghymru) dwf arbennig o uchel mewn plant 0-3 oed rhwng 2003-04[26].

Ffigur 0-4 Cyfraddau twf poblogaeth plant 0-3 oed, 2001-2008




*Ffynhonnell: Rhagamcaniadau poblogaeth canol blwyddyn ONS*

4.13 Canlyniad y cynnydd yn y gyfradd twf poblogaeth 0-3 oed yn ardaloedd Dechrau'n Deg o gymharu â Chymru gyfan (2006/07 - 2007/08) yw bod y

[25] Archwiliwyd hyn gyda demograffwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru, a deimlai bod yr amrywiadau hyn i'w disgwyl wrth edrych ar grwpiau odran mor fach ac ardaloedd daearyddol cymharol fychan.
[26] Nododd demograffwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru mai rhan o'r rheswm am yr amrywiad hwn yw y gall y garfan o rai 3 oed yn 2003 (yn symud o'r grŵp oedran 0-3 erbyn 2004) fod yn sylweddol lai na'r garfan newydd-anedig mewn blwyddyn benodol.

boblogaeth darged y cafodd y rhaglen ei chynllunio i ganolbwyntio arni wedi cynyddu. Golyga hyn bod yna'n awr fwy o blant a allai fod yn gymwys ar gyfer hawliau Dechrau'n Deg yn ôl y meini prawf cymhwyster a ddefnyddiwyd ar ddechrau'r rhaglen.

4.14 Mae'r mater demograffig hwn wedi peri anawsterau ar gyfer Partneriaethau Dechrau'n Deg i fodloni anghenion lleol, yn arbennig gyda phwrs y sector cyhoeddus yn tynhau. Mae'r broblem yn ymwneud â 'chapiau' Dechrau'n Deg - nifer y plant a nodwyd ar y dechrau fel rhai yn gymwys ar gyfer hawliau ym mhob ardal ac ar ba un y caiff dyraniadau cyllideb eu pennu. Mewn tua thraean o'r ardaloedd Dechrau'n Deg cafwyd anawsterau gan fod nifer y plant sy'n gymwys wedi mynd ymhell y tu hwnt i'r rhagamcaniadau gwreiddiol. Nid yw'r rhesymau am hyn yn arbennig o glir, ond maent yn ymddangos eu bod yn ymwneud â:

- than-ragamcaniadau o niferoedd gwirioneddol a rhagamcanedig plant mewn ardaloedd Dechau'n Deg, a ddefnyddiwyd i ddiffinio'r cap yn y man cyntaf
- anghywirdebau yn y ffordd y cafodd ardaloedd Dechrau'n Deg eu diffinio - ac felly'r ffigurau capio yn is nag oeddent ar gyfer yr ardal mewn gwirionedd
- cynnydd ym mhoblogaeth ardaloedd Dechrau'n Deg - mae'r dadansoddiad gwaelodlin a gynhaliwyd ar gyfer y Gwerthusiad Cenedlaethol yn awgrymu cynnydd anghymesur yn y boblogaeth mewn ardaloedd Dechrau'n Deg y gellir ei briodoli o bosibl i ddatblygiadau tai newydd.

4.15 Beth bynnag fo'r rheswm, mae'r ffaith yn parhau bod rhai ardaloedd yn cael anhawster i ddarparu gwasanaethau Dechrau'n Deg i'r holl blant cymwys o fewn yr ariannu a gytunwyd yn wreiddiol, a oedd yn seiliedig ar y rhagamcaniad gwreiddiol nifer y plant (cap). Er enghraifft, mae rhai ardaloedd wedi gorfod ystyried gwneud yr hawl ymweliadau iechyd uwch dim ond ar gael i'r teuluoedd hynny sy'n dangos y lefelau uchaf o angen. Mae pryderon, os oes gofyn i ardaloedd gadw o fewn eu ffigurau cap cytunedig y bydd

anawsterau parhaus mewn darparu hawliau i deuluoedd cymwys. Mewn rhai ardaloedd lleisiwyd y pwynt hwn gan Gynghorwyr lleol, ac mae hyn wedi rhoi mwy o bwyslais gwleidyddol iddo, wedi ei waethygu yn aml gan gefndir dirwasgiad economaidd a'r angen i gefnogi'r rheiny yr effeithir fwyaf arnynt ganddo. Yn ogystal, gyda thoriadau mewn cyllidebau sector cyhoeddus ar y gorwel, mae'r angen canfyddedig i ddiogelu darpariaeth ar gyfer y cymunedau mwyaf difreintiedig wedi cael blaenoriaeth wleidyddol yn lleol.

4.16 Mae gwahanol drafodaethau yn cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatrys y materion hyn - er enghraifft, y defnydd o leoedd gwag mewn lleoliadau gofal plant, o ganlyniad i rieni ddim yn defnyddio eu sesiwn 2.5 awr y mae ganddynt hawl iddi am bob un o'r pum diwrnod, i ddarparu lleoedd ar gyfer plant eraill.

***Caledi economaidd***

4.17 Mae'r dirwasgiad economaidd wedi cael effaith sylweddol ar economi Cymru. Dangosodd yr Arolwg Gweithlu ar gyfer y 3 mis hyd at fis Medi 2009 bod cyfradd diweithdra'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) yng Nghymru yn 8.7 y cant o'r rheiny sy'n economaidd weithgar, i fyny o 6.5 y cant yn yr un cyfnod flwyddyn yn gynharach ac o gymharu â ffigur is ar gyfer y DU gyfan o 7.8 y cant[27].

4.18 Fel y trafodwyd, roedd rhaglen Dechrau'n Deg eisoes wedi'i thargedu ar y cymunedau gyda mwyaf o amddifaded yng Nghymru ac er bod tueddiadau diweddar hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith wedi bod yn debyg ar draws ardaloedd Dechrau'n Deg, ardal Gwaelodlin Rheoli a ledled Cymru, mae'r ardaloedd Dechrau'n Deg yn gyson wedi cael cyfran uwch o hawlwyr na Chymru neu'r ardal Rheoli[28]. Mae hyn yn awgrymu bod ardaloedd Dechrau'n Deg, ar y cyfan, yn dal i wynebu heriau sylweddol o ran cyflogaeth. Yn wir, mae gan 9 o'r 22 ardal Dechrau'n Deg gyfran uwch o'u cyfran yn hawlio

---

[27] Bwletin Ystadegol, SB/67/2009, Llywodraeth Cynulliad Cymru
http://wales.gov.uk/docs/statistics/2009/091113sb672009en.pdf?lang=en

[28] Gydag Ceredigion, Sir Benfro a Sir Fynwy yn eithriadau nodedig - Yn 2008 roedd gan Geredigion (1.4%), Sir Benfro (2.1%) a Sir Fynwy (2.0%) cyfrannau isel o'u poblogaeth oed gweithio yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith , o gymharu â 2.5% ar draws Cymru a 4.0% yn yr ardaloedd Dechrau'n Deg

Lwfans Ceisio Gwaith yn 2008 nac yn 2001, er mewn rhai achosion mai bychan iawn yw'r gwahaniaeth.


4.19 Ar yr un pryd, mae'r ymateb i'r wasgfa gredyd a'r dirwasgiad wedi rhoi pwysau ar arian cyhoeddus ac wedi codi pryderon gwirioneddol a chyfredol ynglŷn â breuder gwasanaethau sy'n anstatudol yn bennaf, megis Dechrau'n Deg, yn wyneb galwadau am doriadau mewn gwariant cyhoeddus. Ar y cyfan, mae'r 12-18 mis diwethaf wedi bod yn gyfnod anodd i'r rheiny sy'n ymwneud â'r rhaglen wrth iddynt fynd i'r afael â darparu'r rhaglen o fewn y cyd-destun o gynnydd tebygol mewn angen a rhagor o bwysau i leihau costau.

**Dyraniadau a gwariant Dechrau'n Deg**

4.20 Cyfanswm dyraniad cyllideb Dechrau'n Deg yn 2006/07 oedd £13.2 miliwn ac roedd i fod i godi i tua £31 miliwn ym mhob un o'r ddwy flynedd ganlynol ac yna £32 miliwn a £42 miliwn yn 2009/10 a 2010/11. Elfen cyfalaf y dyraniad oedd tua thraean o'r cyfanswm (h.y. £4.9 miliwn) yn 2006/07 gan ostwng dros y pedair blynedd mewn termau absoliwt ac fel cyfran o'r cyfanswm - gan adlewyrchu'r lleihad yn y pwyslais a ddisgwylid ar gaffael a/neu ailwampio asedau a chyfleusterau ffisegol.


4.21 Caiff cyfanswm gwariant Rhaglen Dechrau'n Deg rhwng 2006/07 a 2009/10 ei ddangos yn Ffigur 0-5 yn erbyn y dyraniad a'r gwariant gan Bartneriaeth Dechrau'n Deg dros yr un cyfnod fel cyfran o'r dyraniad a ddangosir yn Ffigur 0-6. Dengys hyn bod rhai Partneriaethau wedi gallu gwario hyd at eu dyraniad lle'r oedd eraill wedi gweld hyn yn anoddach. Roedd peth cysylltiadau rhwng anawsterau mewn gwario'r dyraniad a maint y dyraniad cyfalaf neu'r gyfran o gyfanswm y dyraniad a gynrychiolir gan y gydran cyfalaf. Gall hyn fod oherwydd yr oediadau anochel sy'n digwydd o ran defnyddio cyllidebau cyfalaf neu oherwydd bod dyraniadau wedi eu cadw ar gyfer gwariant cyfalaf mewn blynyddoedd diweddarach (heb iddo, yn ôl y sôn, gael ei egluro y gallai hyn olygu colli'r tanwariant). Gallai hefyd fod wedi ei achosi gan sylw'n cael ei dynnu gan yr angen i reoli buddsoddiadau cyfalaf - y aml gan staff â fawr ddim profiad o wneud hynny.

Ffigur 0-5: Dyraniad Cyllideb a'r swm Gwirioneddol a Hawliwyd a Thanwariant yn ôl Blwyddyn Ariannol




*Ffynhonnell: Darparwyd Data gan Lywodraeth Cynulliad Cymru*

Ffigur 0-6: Gwariant Dechrau'n Deg yn erbyn dyraniad (2006/07 – 2009/10)




1) Ynys Mon , 2) Blaenau Gwent, 3) Pen-y-bont ar Oqwr, 4) Caerffili, 5) Caerdydd, 6) Casnewydd, 7) Ceridigion, 8) Conwy, 9) Sir Ddinbych, 10) Sir y Fflint , 11) Gwynedd , 12) Merthyr, 13) Sir Fnynw, 14) C-Nedd Port Talbort, 15) Casneywydd, 16) Sir Benfro, 17) Powys, 18) RhCT, 19) Abertawe , 20) Bro Morgannwg ,

*Ffynhonnell: Gwerthusiad Cenedlaethol o ddata monitro Llywodraeth Cynulliad Cymru*

## Crynodeb a sylwadau cloi

4.22 eiliwyd cynllun rhaglen Dechrau'n Deg yn gadarn ar fwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ganolbwyntio ar ardaloedd o amddifadedd a dargedwyd - o ran dynodi ardaloedd Dechrau'n Deg a'r dyraniadau cyllideb (y pen o'r boblogaeth gymwys) rhyngddynt. Ni fu unrhyw ddatblygiadau yn y sail tystiolaeth na newidiadau mewn amodau cyd-destunol sydd wedi gwneud y rhesymeg ar gyfer y rhaglen yn llai cadarn o ran ei hamcanion, ei thargedu ar ardaloedd o amddifadedd neu'r ffordd y cafodd hyn ei wneud. Yr unig cafeat sydd angen ei nodi i'r casgliad hwn yw bod poblogaeth plant dan bedair oed mewn ardaloedd Dechrau'n Deg nawr yn uwch nag a ragamcanwyd pan gyflwynwyd y rhaglen. Mae hyn, felly, wedi cael effaith ar ddyraniad cyllideb y pen o'r boblogaeth gymwys neu ar faint y boblogaeth honno.

4.23 Mae dyraniadau cyllideb ar gyfer Partneriaethau Dechrau'n Deg wedi codi'n gyffredinol yn unol â'r rheiny a nodwyd yn y canllawiau gwreiddiol. Fodd bynnag, ni lwyddodd y rhan fwyaf o'r Partneriaethau i wario eu dyraniad llawn ar unrhyw adeg dros gyfnod bywyd y rhaglen ac mae rhai ardaloedd wedi cael anawsterau cyson yn hyn o beth. Canlyniad hyn yw tanwariant cyffredinol ar draws y rhaglen (2006/07 - 2009/10) o £11 miliwn neu 10%. Efallai y gellir priodoli hyn i'r oedi anochel a'r problemau cychwynnol mewn sefydlu'r rhaglen a chyflawni ei gwariant cyfalaf ar adeiladau a'u hailwampio. O gofio bod y rhaglen nawr yn agos i weithrediad cyflwr sefydlog, mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru gadw llygad agos ar unrhyw danwariant a'r rhesymau drosto.

# 5: Strwythurau a phrosesau rheoli partneriaeth

5.1 Mae'r adran hon yn ystyried y strwythurau a'r prosesau ar gyfer llywodraethu a rheoli rhaglen Dechrau'n Deg. Mae'n tynnu'n bennaf ar ganfyddiadau o'r astudiaethau achos ardal a gynhaliwyd dros gyfnod y gwerthusiad a'r Cyfrifiad a wnaed yn ei ddwy flynedd gyntaf.

## Atebolrwydd partneriaeth

5.2 Mae rhaglen Dechrau'n Deg, fel y nodir yng Nghanllawiau Cynulliad Cymru, wedi ei llywodraethu ar lefelau strategol lleol gan y CYPP (y Partneriaethau) a'i rheoli'n weithredol gan Fyrddau Rheoli neu Grwpiau Llywio Dechrau'n Deg.

5.3 Dros y tair blynedd diwethaf mae'r CYPP wedi bod yn destun adolygiad a chyfnerthiad sylweddol, yn bennaf mewn ymateb i Ddeddf Plant 2004. Caiff gofyniad y Ddeddf i ddatblygu a chytuno ar Gynllun Sengl ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ganmoliaeth am hyrwyddo a chefnogi:

- ymgysylltu cryfach â phartneriaid ar draws gweithgareddau prif ffrwd a rhai a ariannir drwy grant
- y gofyniad i asesu angen yn fwy cadarn
- datblygiad ymagwedd comisiynu strategol tuag at ddarparu.

5.4 Mae strwythurau a chyfrifoldebau y CYPP yn amrywio ar draws y 22 ardal ond yn y mwyafrif o achosion ceir bwrdd gweithredol a nifer o is-grwpiau. Mae is-grwpiau yn atebol i Fwrdd y CYPP ond mae ganddynt ddisgresiwn gweithredol ar gyfer prosiectau a rhaglenni o fewn eu hardal ffocws. Yn fwy diweddar mae nifer o ardaloedd wedi alinio eu his-grwpiau gyda saith Nod Craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn gyffredinol mae Partneriaeth Dechrau'n Deg yn atebol i un o is-grwpiau'r CYPP er mewn rhai ardaloedd mae'r atebolrwydd yn uniongyrchol i Fwrdd y CYPP.

5.5 Roedd strwythurau'r CYPP, ar eu gwedd bresennol, yn eu lle erbyn 2008 yn barod am weithrediad Cynlluniau Sengl Plant a Phobl Ifanc a gwblhawyd yn

nhymor yr hydref y flwyddyn honno. Mae datblygiad CYPP a Gwasanaethau Integredig Plant (ICS) wedi ei weld gan fwyafrif llethol y partneriaid yn gadarnhaol o ran rôl Dechrau'n Deg. Mae hyn oherwydd, yn y mwyafrif o achosion, bod y strwythurau yn cydnabod bod y rhaglen yn rhan o'r cynnig gwasanaeth ICS yn cynnig ac yn darparu llwybr strategol clir i'r CYPP

5.6 Caiff y gwell cysylltiad strategol rhwng Dechrau'n Deg a CYPP hefyd ei adlewyrchu yng nghydnabyddiaeth y Cynllun Sengl o weithgareddau Dechrau'n Deg. Er efallai nad yn syndod, mae pob ardal yn adrodd bod Dechrau'n Deg yn cael ei gydnabod yn glir fel rhaglen sy'n cyfrannu at y cyntaf o'r saith nod craidd - i ddarparu 'dechrau teg ym mlynyddoedd cynnar bywyd plentyn *a'r sail orau bosibl ar gyfer twf a datblygiad yn y dyfodol'*. Ond, yn hollbwysig, adroddir hefyd yr ystyrir y rhaglen yn ffurfiol fel un â chanddi rôl bwysig i'w chwarae yn y nodau craidd eraill - mewn geiriau eraill, dod yn rhan o wasanaeth cefnogi teulu integredig.

## Rheolaeth Dechrau'n Deg

5.7 Mae gan y rhan fwyaf o'r Partneriaethau Fwrdd Prosiect/Grŵp Llywio Dechrau'n Deg wedi ei sefydlu gyda chynrychiolwyr strategol o'r gwasanaethau allweddol, wedi ei gefnogi yn y rhan fwyaf o'r Partneriaethau gan 'Grŵp Rheoli' gyda chynrychiolwyr o reolwyr sy'n gyfrifol am ddarparu gweithgareddau Dechrau'n Deg. Bydd y Grwpiau Rheoli ar y cyfan yn cyfarfod yn amlach na'r Byrddau Prosiect. Ar ddechrau'r rhaglen roedd y mwyafrif o'r Partneriaethau (tri chwarter, 73%, yn 2007)[29] wedi sefydlu is-grwpiau neu grwpiau gorchwyl a gorffen yn canolbwyntio ar elfennau arbennig o'r rhaglen Dechrau'n Deg. Dros y 12-18 mis diwethaf mae'r trefniadau rheoli hyn ar y cyfan wedi eu rhesymoli a'u hatgyfnerthu wrth i'r Partneriaethau Dechrau'n Deg symud o'r camau datblygu a rhoi ar waith cynnar i ddarpariaeth cyflwr sefydlog a mireiniad.

[29] Seiliedig ar ymatebion 22 Partneriaeth i Gyfrifiad Partneriaethau 2007

5.8 O ddechrau'r rhaglen Dechrau'n Deg mae'r trefniadau llywodraethu a rheoli a sefydlwyd wedi cael eu nodi'n gyson fel effeithiol, cynhyrchiol ac yn hwyluso datblygiad a darpariaeth gwasanaeth.

5.9 Ar draws y mwyafrif o ardaloedd teimlir y gall y rhaglen nawr symud ffocws oddi wrth sefydlu a darparu cam cynnar i adolygu a mireinio'r darparu ac archwilio cyfleoedd ar gyfer datblygu. O ganlyniad, adroddodd rhai Partneriaethau y bu, dros y flwyddyn ddiwethaf (2009/10), leihad yn lefel hynafedd mewn cynrychiolaeth yn y cyfarfodydd Bwrdd Prosiect. Er na adroddodd y Partneriaethau effaith ar unwaith, gallai'r lleihad hwn mewn cynrychiolaeth olygu anghydbwysedd yn y trefniadau partneriaeth.

5.10 Mae'r newid strwythurol mwyaf arwyddocaol sy'n berthnasol i'r Rhaglen wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf yn y gwasanaeth iechyd: *"mae ad-drefnu GIG Cymru, a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2009, wedi creu sefydliadau iechyd lleol sengl. Mae'r rhain yn gyfrifol am ddarparu'r holl wasanaethau gofal iechyd o fewn ardal ddaearyddol, yn hytrach na'r system Ymddiriedolaeth a Bwrdd Iechyd Lleol oedd yn bod cyn hyn"*[30].

5.11 Ar y cyfan caiff yr ail-strwythuro ei weld fel datblygiad cadarnhaol ar gyfer CYPP drwy ddarparu un corff mwy cydlynol gyda chyfrifoldeb am ddarpariaeth iechyd. Fodd bynnag, gyda Byrddau Iechyd newydd yn gyfrifol am wasanaethau ar draws dwy/tair ardal awdurdod lleol, canfyddir risg gan rhai partneriaid Dechrau'n Deg efallai na fydd penderfyniadau yn ymwneud â darpariaeth gwasanaeth wedi ei theilwra i ddiwallu anghenion a heriau ardaloedd awdurdod lleol unigol.

5.12 Rheolir y rhaglen o ddydd i ddydd gan gydlynydd/rheolwr Dechrau'n Deg sydd fel arfer wedi ei gyflogi yn llawn amser. Mae'r cydlynwyr/rheolwyr yn gweithio gyda thimau o staff proffesiynol, wedi eu clustnodi i'r pedwar hawl Dechrau'n Deg gyda'u cyrff proffesiynol perthnasol yn rheolwyr llinell iddynt. Adroddwyd drwy gydol y cyfnod gwerthuso bod yr arweiniad a'r rheolaeth a ddarperir gan

[30] GIG yng Nghymru, Pam ein bod yn newid y strwythur, GIG, Hydref 2009

y cydlynwyr/rheolwyr ar y cyfan yn gryf ac effeithiol. Yn gyffredinol, mae ymatebion i'r Cyfrifiad wedi dangos bod dwy ran o bump o'r Partneriaethau yn arbennig o falch o'r strwythurau llywodraethu a rheoli a sefydlwyd, gan eu graddio'n 'ardderchog'.

## Nodau ac amcanion

5.13 Mae prif nodau ac amcanion y Partneriaethau Dechrau'n Deg wedi eu rhagnodi gan ganllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru - i fod â ffocws ar ymyrraeth a nodi angen yn gynnar, er mwyn osgoi'r angen am gamau unioni yn ddiweddarach, ac yn y pen draw lleihau nifer y bobl sydd â sgiliau gwael iawn drwy sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, fel ag y manylir yn adran 2.

5.14 Mae tystiolaeth o'r astudiaethau achos ardal wedi dangos yn gyson bod y 22 Partneriaeth leol wedi datblygu eu rhaglenni Dechrau'n Deg wedi eu halinio'n gyffredinol â'r canllawiau cenedlaethol gan ddefnyddio'r nodau ac amcanion cenedlaethol fel sylfaen ar gyfer y rhaglen sydd wedyn yn cael ei chreu o gwmpas anghenion lleol penodol. Nid oes amheuaeth bod yna raglen Dechrau'n Deg a ddeallir yn glir ac yn gyson, er bod amrywiad lleol yn y modd y caiff ei darparu.

5.15 Y prif newid a welwyd dros 12-18 mis diwethaf y rhaglen fu aliniad y nodau ac amcanion Dechrau'n Deg hyn gyda nodau ac amcanion Cynlluniau Sengl Plant a Phobl Ifanc. Mae'n werth pwysleisio bod y rheiny yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod yr astudiaethau achos ar y cyfan yn glir iawn ei bod, oherwydd bod Dechrau'n Deg wedi ei thargedu ar ardaloedd cymharol fychan, yn debygol i fod ar raddfa rhy fach o ran ei effeithiau i ddisgwyl iddi, ar ei phen ei hun, i wneud cyfraniad sylweddol i gyflawniad blaenoriaethau'r Cynllun Sengl. Oherwydd hyn ni ddylid anghofio ei natur peilot. Mae angen i'r Partneriaethau a'r darparwyr gwasanaeth prif ffrwd roi ystyriaeth o ddifrif i unrhyw wersi a ddysgir o ran ffyrdd newydd o weithio neu weithgareddau newydd sy'n cyfrannu at amcanion y Cynllun Sengl.

## Crynodeb a sylwadau cloi

5.16 Dros y tair blynedd ers ei lansio, mae rhaglen Dechrau'n Deg a adnabyddir wedi datblygu sy'n adeiladu ar allu ac arbenigedd lleol i fynd i'r afael â materion lleol o fewn fframwaith darpariaeth cenedlaethol.

5.17 Diffinnir rhaglen Dechrau'n Deg yn lleol o ran y strwythurau a'r ymagwedd tuag at ddarparu hawliau. Er gwaethaf yr amrywiad lleol a'r hyblygrwydd hwn ar draws 22 ardal, caiff ei hadnabod fel 'rhaglen'. Mae integreiddiad cynyddol a chyson y rhaglen gyda'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc (CYPP) a'i rôl glir a chanfyddadwy o fewn y Cynlluniau Sengl (sy'n ofynnol yn ôl Deddf Plant 2004) i gyd yn arwyddion cadarnhaol o'r parch ar ystyriaeth sydd i'r rhaglen. Ar y cyfan mae Partneriaeth Dechrau'n Deg yn atebol i un o is-grwpiau'r CYPP er mewn rhai ardaloedd mae atebolrwydd yn uniongyrchol i fwrdd y CYPP. Felly mae llwybr uniongyrchol drwy ba un y gall dysgu o Dechrau'n Deg gael ei fwydo yn ôl i'r darparwyr gwasanaeth prif ffrwd. Mae'n bwysig bod y gwersi o'r rhaglen yn cael eu harchwilio'n gyson ac y manteisir ar y cyfleoedd ar gyfer unrhyw welliannau i wasanaethau prif ffrwd y gallai eu hawgrymu.

# 6: Cynllunio a darparu gwasanaethau

## Cyflwyniad

6.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno ffurf a maint darpariaeth Dechrau'n Deg ar draws y 22 Partneriaeth. Mae'n tynnu ar dystiolaeth o'r astudiaethau achos ardal, adroddiadau monitro Dechrau'n Deg[31] ac adroddiadau blynyddol a gyflwynwyd gan y Partneriaethau i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ystyrir yr amrywiol ddulliau darparu, heriau a chyflawniadau ar gyfer pob un o'r prif hawliau.

6.2 Ar y cyfan, gellir dweud bod y rhaglen bellach, wedi tair blynedd, yn darparu'r cynnig Dechrau'n Deg fel y nodwyd yn y brîff. Er y gellir dweud bod 22 Partneriaeth Dechrau'n Deg yn darparu yn unol â chanllawiau rhaglen Dechrau'n Deg Cynulliad Cymru mae cryn heterogenedd o ran maint a ffurf y ddarpariaeth. Gellir priodoli llawer o'r amrywiaeth hwn o ran ffurf y ddarpariaeth i natur y gwasanaethau presennol yn yr ardaloedd sy'n adlewyrchu'r gwahanol anghenion lleol. Mewn nifer o achosion mae cynnig Dechrau'n Deg wedi'i ddatblygu ar sail y gwasanaethau Cychwyn Cadarn a ddatblygwyd gan Cymorth

6.3 Mae materion mwy cymhleth yn tanategu'r amrywiaeth o ran maint y ddarpariaeth. O fewn yr hawliau gofal plant ac ymweliadau iechyd gellir priodoli hyn i raddau helaeth i faterion capasiti – a yw'r lleoliadau gofal plant yn bodoli ai peidio neu'r materion yn ymwneud â recriwtio ymwelwyr iechyd a rheoli absenoldeb oherwydd salwch ac absenoldeb mamolaeth. O ran y ddarpariaeth Iaith a Chwarae a rhianta mae capasiti yn dal yn ffactor sy'n sbarduno amrywiaeth ond mae'r lefel o flaenoriaeth a roddir i ddatblygu a darparu'r hawliau hyn hefyd yn amrywio yn fwy sylweddol.

6.4 Mae gweddill yr adran hon yn rhoi ystyriaeth fanylach i'r dull o ddarparu a datblygu pob hawl.

[31] Rhaid pwysleisio bod data monitro ond ar gael ar gyfer tri chwarter 2009/10.

Darparu gwasanaeth gofal plant

> **Mae canllawiau Dechrau'n Deg yn nodi:**
> Darparu gofal plant o ansawdd da ar gyfer plant 2-3 oed yw canolbwynt y gwasanaethau sydd i'w darparu dan fenter Dechrau'n Deg. Bydd y ddarpariaeth gofal plant o safon yn canolbwyntio ar blant o gefndiroedd difreintiedig, mewn ardaloedd targed, a'i nod yw gwella eu canlyniadau yn barod ar gyfer yr ysgol ac yn yr hirdymor gall plant ifanc gael y ddarpariaeth hon o ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn ddwy oed hyd at ddiwedd y tymor pan fyddant yn dathlu eu pen-blwydd yn dair oed. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr amser mae plant ifanc yn ei dreulio yn y lleoliadau, ac fel y gallant hwy fanteisio i'r eithaf ar y profiadau a gynigir, dylai darparwyr gynnig 2.5 awr y dydd, 12.5 awr yr wythnos. Dylai'r ddarpariaeth hon fod ar gael i rieni a'u plant am 42 wythnos y flwyddyn, a dylai hynny gynnwys rhan o'r gwyliau haf hir a ddarperir ar gyfer plant mewn addysg orfodol (Gorffennaf /Awst).

***Datblygu'r cynnig***

6.5 Disgwyliad Llywodraeth Cynulliad Cymru yw bod Partneriaethau Dechrau'n Deg yn datblygu cynnig o ofal plant o safon yn rhad ac am ddim am 12.5 awr yr wythnos ar gyfer pob plentyn 2-3 blwydd oed mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Hyd yn oed pan eu bod wedi gallu tynnu ar adnoddau o'r tu allan i'r ardal, mae sefydlu'r cynnig hwn wedi peri heriau sylweddol i'r Partneriaethau fel a ganlyn:

- **Datblygu lleoedd newydd** – mae sefydlu cynnig o le am ddim ar gyfer pob plentyn cymwys wedi golygu datblygu'r cynnig o ofal plant yn sylweddol. Ardaloedd Dechrau'n Deg yw'r cymunedau gyda'r mwyaf o amddifadedd yng Nghymru gyda lefelau uchel o ddiweithdra a galw prin am ddarpariaeth gofal plant ffurfiol. Roedd hyn yn aml yn gysylltiedig â chronfa gyfyngedig o ddarpariaeth gofal plant preifat a gyda darpariaeth sesiynol anghofrestredig y sector gwirfoddol a chymunedol mewn lleoliadau anaddas at y diben o ddarparu 'cynnig safon uchel Dechrau'n Deg'. O ganlyniad buddsoddwyd cryn adnoddau ac amser gan Bartneriaethau Dechrau'n Deg i ddatblygu a sbarduno'r farchnad, gan gefnogi darparwyr presennol i wella a datblygu eu cynnig yn ogystal â buddsoddi cyfalaf sylweddol mewn safleoedd.

- Mae adroddiad yn 2009 ar ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru[32] ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru yn canfod mai "*un o fanteision ychwanegol Dechrau'n Deg fu sicrhau a chynnal darpariaeth gofal plant (gofal plant sesiynol gan amlaf) mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru lle mai dyma'r unig ofal plant sydd ar gael yn aml i deuluoedd lleol*." Canfu'r adroddiad bod cyfanswm y llefydd gofal dydd sesiynol, rhwng 2008 and 2009, wedi cynyddu ychydig o bwyntiau canran. Mae'n debyg bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith sylweddol ar gynnal y ddarpariaeth a chynyddu gwasanaethau mewn rhai ardaloedd.
- **Diffyg safleoedd addas –** wrth geisio datblygu lleoliadau gofal plant sy'n bod yn barod neu leoliadau newydd un o'r heriau mwyaf sylfaenol oedd dod o hyd i safleoedd addas o fewn dalgylchoedd Dechrau'n Deg neu ddelio â deunydd ffisegol gwael yr adeiladau neu'r safleoedd presennol. O'i chyfuno â lleoliadau prin ac anaddas, roedd yr her o ddatblygu'r ddarpariaeth bresennol neu ddarpariaeth newydd i ateb anghenion y rhaglen yn fwy difrifol fyth gan olygu bod oedi sylweddol wedi bod yng ngallu'r Partneriaethau i ddarparu'r hawl.
- **Diffyg staff/darparwyr gofal plant sydd wedi'u cymhwyso'n briodol –** un o'r asedau sydd i'w cynllunio i mewn i raglen Dechrau'n Deg yw darpariaeth o ansawdd uchel. Ond, ar gyfer rhai ardaloedd, roedd prinder staff/darparwyr oedd wedi'u cymhwyso'n briodol ac arweiniodd hyn yn anorfod at oedi o ran darparu'r cynnig nes bod staff wedi'u hyfforddi neu wedi'u recriwtio.
- **Oedi yn Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) -** rhaid i bob darpariaeth gofal plant fod wedi'i chofrestru gyda'r AGGCC yn nwy - tair blynedd gyntaf y rhaglen. Bu'r amser a gymerwyd gan y broses o sicrhau cofrestru (hyd at 18 mis mewn rhai ardaloedd) yn achos oedi sylweddol ar gyfer nifer o ardaloedd. Heb gofrestru, ni all darparwyr ddarparu mwy nag un awr a 59 munud y dydd, gan gyfyngu'n sylweddol ar ddarparu'r hawl.

[32] Melyn Consulting, Darpariaeth Gofal Plant yng |Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009

6.6 Er gwaethaf y materion a'r oediadau hyn datblygodd y Partneriaethau Dechrau'n Deg gynnig gofal plant trawiadol ac mae pob un o'r 22 ardal yn cynnig gofal plant Dechrau'n Deg. Yng ngoleuni patrwm amrywiol y ddarpariaeth gofal plant bresennol ar draws Cymru, mae'r model darparu gofal plant a fabwysiedir gan ardal yn amrywio'n sylweddol ac mae wedi'i ddylanwadu i raddau helaeth gan ffurf a maint y farchnad gofal plant bresennol cyn i Dechrau'n Deg gael ei sefydlu. Er mwyn darparu digon o leoedd gofal plant Dechrau'n Deg ar gyfer plant dwyflwydd oed bu rhaid i bob un o 22 Partneriaeth Dechrau'n Deg sbarduno a datblygu'r ddarpariaeth gofal plant oedd ar gael. Mewn rhai achosion mae hyn wedi bod yn uniongyrchol - trwy sefydlu darpariaeth newydd - ac mewn achosion eraill bu'n anuniongyrchol trwy annog lleoliadau i gynyddu nifer y lleoedd y maent wedi eu cofrestru a'u staffio ar eu cyfer gan y bydd Dechrau'n Deg yn ariannu'r lleoedd. Mae Ffigur 0-1 yn manylu ar rai o'r gwahanol ymagweddau y mae Partneriaethau Dechrau'n Deg wedi'u mabwysiadu er mwyn datblygu eu cynnig o ofal plant.

Ffigur 0-1: Datblygu gofal plant

Mae gallu Partneriaethau Dechrau'n Deg i sefydlu digon o leoedd gofal plant Dechrau'n Deg wedi bod yn ddibynnol iawn ar gryfder y gronfa bresennol o ddarparwyr. Mae gallu'r gronfa bresennol o ddarparwyr i ymateb i ofynion Dechrau'n Deg wedi siapio'r ddarpariaeth a grëwyd.

**Datblygu'r ddarpariaeth bresennol**

Yng ***Nghaerdydd*** roedd y ddarpariaeth bresennol yn brin ac roedd safon y ddarpariaeth oedd ar gael ar y cyfan yn llawer is na'r safonau sy'n ofynnol gan Dechrau'n Deg. Aeth Caerdydd ati drwy fuddsoddi adnoddau ac ymdrech sylweddol i ddatblygu'r lleoliadau presennol trwy ailwampio a hyfforddi ac ychwanegu at hyn trwy gefnogi datblygiad lleoliadau newydd wedi'u darparu gan ysgolion a grwpiau cymunedol. Mae'r ymagwedd hon yn ddiamau wedi effeithio ar ba mor sydyn mae'r Bartneriaeth wedi gallu sefydlu y nifer priodol o leoedd.

Darperir lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg ym ***Mhowys*** mewn lleoliadau sy'n cynnig lleoedd i blant Dechrau'n Deg ac i blant nad ydynt yn blant Dechrau'n Deg.

**Comisiynu darpariaeth newydd**

Mae ***Pen-y-bont ar Ogwr*** wedi comisiynu Gweithredu dros Blant i sefydlu pedwar lleoliad gofal plant newydd lle gellir darparu lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg.

I ddechrau ceisiodd ***Caerffili*** gomisiynu un darparwr (ar draws nifer o leoliadau) i ddarparu'r holl ofal plant arfaethedig Dechrau'n Deg. Ni dderbyniodd y tîm ddigon o ymatebion safonol i'r alwad am dendrau ac mae felly wedi sefydlu lleoliadau a weithredir ac a reolir gan yr awdurdod lleol. Yr

unig eithriad i hyn yw dau leoliad a gynhelir gan Fudiad Ysgolion Meithrin, mudiad gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau a phrofiadau ar gyfer y blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Cyfuno darpariaeth bresennol a darpariaeth newydd**


Mae ***Sir Benfro*** yn darparu ei gofal plant o ystod o leoliadau gan gynnwys gwarchodwyr plant, cylchoedd chwarae gofal plant sydd newydd eu datblygu mewn lleoliadau ysgol, lleoliadau meithrin a meithrinfeydd dydd preifat.

Ym ***Mlaenau Gwent*** sefydlwyd dau o'r chwe lleoliad sy'n darparu lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg yn benodol ar gyfer darparu lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg ac maent yn cael eu rheoli a'u gweithredu gan yr awdurdod lleol. Bydd trydydd lleoliad sydd i gael ei reoli a'i weithredu gan yr awdurdod lleol yn agor yn gynnar yn 2010. Mae gweddill y lleoliadau yn cael eu rheoli gan naill ai'r sector preifat neu'r sector gwirfoddol.

*Ffynhonnell: SQW Consulting*

6.7 Mae Ffigur 0-2 yn dangos yr amrywiaeth o ran y mathau o leoliad gofal plant a ddefnyddir I ddarparu cynnig Dechrau'n Deg o ofal plant ar draws y Partneriaethau. Yn ôl data □onitor Partneriaethau, mae'r darparwyr sesiynol yn cyfrif am 57% o leoliadau, mae lleoliadau gofal dydd llawn yn cyfrif am 23% a gwarchodwyr plant 19%. Yn sir Fynwy mae un □onito yn darparu gofal plant Dechrau'n Deg (0.4%).


Ffigur 0-2: Dosbarthiad y mathau o leoliadau gofal plant




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddata □onitor Dechrau'n Deg n=22*

6.8 Mae cynnig gofal plant Dechrau'n Deg yn amrywio fwy fyth o ran sector y darparwyr sy'n darparu lleoedd. (Ffigur 0-3). Gweithredir dau allan o bump (39%) lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg gan y sector preifat, gweithredir 29% gan y sector gwirfoddol a chymunedol, mae 15% yn cael eu cyfrif yn Annibynnol/darparwyr eraill, gweithredir 15% gan ddarpariaeth a gynhelir gan awdurdodau lleol a gweithredir 2% gan ysgolion gwladol.

Ffigur 0-3: Dosbarthiad y mathau o leoliadau gofal plant yn ôl sector




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddata monitro Dechrau'n Deg n=22*

6.9 Canfu adroddiadau o'r astudiaethau achos ardal a gynhaliwyd ar ddiwedd 2009 nad yw'r cynnig llawn o leoedd gofal plant Dechrau'n Deg wedi'i gyflawni eto mewn nifer o ardaloedd. Nid yw hynny'n syndod o reidrwydd o gofio'r angen am ddatblygu darpariaeth newydd yn y rhan fwyaf o ardaloedd ac mae hynny'n gallu cymryd cryn amser – adeiladu tîm llywodraethu a rheoli, sicrhau safleoedd, ailwampio a chyfarparu'r lleoliadau, a recriwtio staff. Yn ogystal, adroddodd sawl Partneriaeth bod agor lleoliadau newydd gofal plant Dechrau'n Deg wedi'i lesteirio yn sylweddol oherwydd y broses gofrestru oedd yn ofynnol gan AGGCC. Roedd yr oedi hyn yn golygu bod rhaid cyfyngu sesiynau Dechrau'n Deg i 1 awr a 59 munud (h.y. llai na'r ddarpariaeth oedd yn cael ei hariannu sef 2.5 awr y dydd) nes bod cofrestru wedi'i gwblhau.


***Ymwybyddiaeth o'r cynnig gofal plant a nifer y bobl sy'n ei hawlio***

6.10 Cadarnhaodd yr astudiaethau achos ardal ganfyddiad yr astudiaeth ansoddol o brofiad defnyddwyr a gynhaliwyd gan Ipsos MORI yn 2009, bod ymwybyddiaeth o gynnig gofal plant Dechrau'n Deg yn uchel, gyda'r gair llafar ymysg rhieni yn gwneud cyfraniad sylweddol. Ar y cyfan, mae nifer y defnyddwyr yn uchel gyda'r mwyafrif o rieni yn awyddus i dderbyn y ddarpariaeth am ddim. Mae canfyddiadau ar draws yr astudiaethau achos yn awgrymu bod nifer y defnyddwyr yn 85-100% pan fo cynnig o le wedi'i wneud.

6.11 Ond nododd sawl Partneriaeth nad yw ymrwymo i dderbyn pob un o'r pum sesiwn bob amser yn ddeniadol neu'n ymarferol i deuluoedd sydd o bosib ag ymrwymiadau eraill ac sydd efallai yn teimlo bod pum diwrnod yr wythnos efallai yn 'ormod' neu yn 'fwy nag sydd ei angen' ar gyfer plant mor ifanc. Nodwyd mewn nifer o Bartneriaethau bod rhieni yn aml yn dewis dechrau gyda 2-3 diwrnod ac yna cynyddu presenoldeb i 4-5 diwrnod yn ystod y flwyddyn wrth i hyder plant a rhieni yn y ddarpariaeth dyfu.


6.12 Yng ngoleuni hyn, efallai nad yw'n syndod nad yw'r defnydd o sesiynau unigol gofal plant Dechrau'n Deg wedi bod 100 y cant yn enwedig pan nad oes unrhyw gosb am beidio â mynychu sesiwn a archebwyd ymlaen llaw. Pe bai rhiant yn defnyddio eu lle gofal plant Dechrau'n Deg, byddent er enghraifft yn gallu mynychu tua 50 sesiwn y chwarter (gan dybio o fewn chwarter o 12 wythnos bod y lleoliad ar gau am bythefnos o wyliau). Pe baent yn dewis peidio â defnyddio sesiwn dydd Gwener oherwydd bod y plentyn yn treulio'r diwrnod gyda Mam-gu, er enghraifft, yna byddent yn colli 10 sesiwn neu un rhan o bump o'r sesiynau. Dylid dehongli'r data yn Ffigur 0-4 a Ffigur 0-5 gyda pheth gofal ond, er hynny, mae rhai o'r cyfraddau 'tanddefnyddio' a ddangosir yn y canlyniadau monitro yn ymddangos yn uchel.

## Ffigur 0-4: Nifer y sesiynau a ddarparwyd ac a fynychwyd




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddata monitro Dechrau'n Deg   n=22*

## Ffigur 0-5: Sesiynau na fynychwyd fel % o'r holl sesiynau a ariannwyd




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddata monitro Dechrau'n Deg   n=21*


6.13 Mae materion eraill yn ymwneud â defnydd wedi'u cofnodi yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae Canllawiau Dechrau'n Deg yn nodi bod rhaid i ddarpariaeth gofal plant fod ar gael am 42 wythnos y flwyddyn gan gynnwys rhan o wyliau haf hir yr ysgol ym mis Gorffennaf a mis Awst. Nid yw'r canlyniadau monitro yn dangos gostyngiad sylweddol o ran presenoldeb mewn sesiynau gofal plant Dechrau'n Deg yn ystod chwarter 2 a oedd yn cyd-daro â'r gwyliau haf yn 2009. Fodd bynnag, cofnododd sawl Partneriaeth fod y galw am leoedd a'r defnydd ohonynt yn ystod gwyliau'r haf yn isel iawn. Mae'n bosib bod hyn oherwydd ei bod yn well gan rieni, pan fo ganddynt blant hŷn gartref dros wyliau'r haf, i beidio â mynd â phlant iau i leoliad gofal plant bryd hynny

***Ansawdd y ddarpariaeth***

6.14 Mae'r canllawiau yn nodi bod yr ansawdd uchel a ddisgwylir gan ddarpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg yn ymwneud â: lefelau staffio a chymwysterau ac ymrwymiad i ddatblygu'r gweithlu; yr arferion o fewn y ddarpariaeth trwy gydymffurfio â deg o 'egwyddorion darparu'; Fframwaith Dysgu Dechrau'n Deg; ymrwymiad i gefnogi cynhwysiant a monitro a chofnodi cynnydd; ac ansawdd yr amgylchedd y cyflwynir y cynnig ynddo.

6.15 Mae cymhwyster Lefel 3 yn ofyniad sylfaenol ar gyfer darparwyr gofal dydd llawn a darparwyr gofal sesiynol sy'n darparu gofal plant o unrhyw fath yng Nghymru. Felly, gallwn dybio y bydd pob un o'r rhai hynny sy'n darparu gofal plant Dechrau'n Deg yn darparu i'r disgwyliad hwn. Mae Ffigur 0-6 yn dangos bod arweinyddion gofal plant Dechrau'n Deg ym mhob un o ardaloedd Partneriaeth Dechrau'n Deg sydd wedi eu hyfforddi hyd at gymhwyster Lefel 4 neu'n gweithio tuag at y cymhwyster hwnnw. Yn haeddu sylw arbennig mae Caerffili, Gwynedd, Merthyr Tudful, Sir Benfro, Powys ac Abertawe, lle mae data yn awgrymu bod 100% o arweinyddion y lleoliadau naill ai yn meddu ar gymhwyster Lefel 4 perthnasol neu yn hyfforddi tuag ato. I'r gwrthwyneb mae'r data yn awgrymu bod gan rai ardaloedd (Ceredigion, Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Blaenau Gwent a Rhondda Cynon Taf) gryn ffordd i fynd i godi safon y cymwysterau yn uwch nag isafswm y disgwyliadau.

Ffigur 0-6: Cyfran yr arweinyddion cymwysedig neu sy'n gweithio tuag at NVQ Lefel 4 ym mhob lleoliad




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddata monitro Dechrau'n Deg            n=22*

6.16 Nid yw'r ymrwymiad hwn i ddatblygiad a hyfforddiant pellach wedi'i gyfyngu i aelodau uwch o'r staff o fewn y lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg. Dangosodd yr astudiaethau achos ardal weithgareddau datblygu gweithlu eang ar draws pob un o'r Partneriaethau a phob lefel o staff o fewn y lleoliadau gofal plant. Y ddau brif ddull ar gyfer datblygu ansawdd y ddarpariaeth oedd darparu hyfforddiant a chyfarfodydd a rhwydweithio darparwyr.

6.17 Mae'r ddau ddull hyn gan amlaf yn cael eu rheoli a'u darparu gan Athrawon Ymgynghorol Dechrau'n Deg. Roedd yr hyfforddiant a gynigiwyd i ddarparwyr gofal plant Dechrau'n Deg yn cynnwys pum modiwl craidd hyfforddiant gofal plant Cynulliad Cymru a hefyd ystod eang o ddarpariaeth hyfforddi arall wedi'i gyflwyno gyda gweithwyr proffesiynol arbenigol eraill o fewn y timau Dechrau'n Deg. Roedd cyfleoedd hyfforddiant o'r fath yn cynnwys:

- hyfforddiant ymwybyddiaeth/datblygiad iaith a chyfathrebu mewn partneriaeth â therapyddion lleferydd ac iaith.
- hyfforddiant bwyta'n iach wedi'i gyflwyno mewn partneriaeth â dietegwyr Dechrau'n Deg
- hyfforddiant cyflwyno Iaith a Chwarae mewn partneriaeth â chydgysylltwyr Iaith a Chwarae

Ffigur 0-7: Hyfforddi darparwyr gofal plant

Yn ***Abertawe*** mae Athro Cyswllt (Athro Ymgynghorol) Dechrau'n Deg wedi cydweithio â Therapydd Lleferydd ac Iaith Dechrau'n Deg i gyflwyno hyfforddiant Elklan[33] i roi cymorth i'r darparwyr gofal plant i ddeall pwysigrwydd cyfathrebu, sut i adnabod problemau a strategaethau a thechnegau i ddatblygu a hybu cyfathrebu effeithiol a sbarduno datblygiad iaith.

Mae Athrawon Ymgynghorol ***Caerdydd*** yn gweithio ochr yn ochr â Therapydd Lleferydd ac Iaith Dechrau'n Deg i gyflwyno cyrsiau hyfforddi 'Learning Language and Loving It' Hannen[34] i ymarferwyr gofal plant Dechrau'n Deg i hybu datblygiad cymdeithasol, iaith a llythrennedd plant o fewn gweithgareddau a sgyrsiau bob dydd mewn amrywiaeth o leoliadau plentyndod cynnar gan gynnwys gofal plant, cylchoedd chwarae cyn oed ysgol, a rhaglenni ysgolion meithrin

Mae hyfforddiant a ddarparwyd i leoliadau gofal plant ***Sir Gaerfyrddin*** yn cynnwys: Adrodd Stori, Top Tots, Amddiffyn Plant ac Iaith a Chwarae.

Mae hyfforddiant a ddarparwyd ar gyfer ymarferwyr gofal plant yn ***Sir Ddinbych*** wedi cynnwys PEAL[35] sy'n cefnogi ymarferwyr i annog a datblygu cynnwys rhieni yn nysgu cynnar plant.

Mae hyfforddiant ychwanegol a ddarparwyd yng ***Nghastell-nedd Port Talbot*** wedi cynnwys cymorth cyntaf, hylendid bwyd a chodi a chario.

Ym ***Mhowys*** mae ymarferwyr mewn un lleoliad sydd â chyfran arbennig o uchel o blant gydag anghenion arbennig wedi derbyn hyfforddiant anghenion arbennig ychwanegol mewn ymateb i gais gan staff a oedd yn ymwybodol bod dulliau mwy effeithlon o bosib y gellid eu defnyddio gyda'r grŵp hwn o blant.

*FFynhonnell: SQW Consulting*

6.18 Mae'r gweithgareddau datblygu gweithlu, yn ôl tystiolaeth partneriaid a rhanddeiliaid, yn cael y clod am:

- greu mwy o ymwybyddiaeth o nodau ac amcanion gofal plant o ansawdd da ac o ddyheadau Dechrau'n Deg
- gwella hyder a chymhelliant staff gofal plant i gefnogi datblygiad plant

[33] http://www.elklan.co.uk/
[34] http://www.hanen.org/web/Home/tabid/36/Default.aspx
[35] http://www.peal.org.uk/

- rhoi hyder i staff i nodi materion a'u hatgyfeirio'n briodol i'r tîm ehangach gan gynnwys ymwelwyr iechyd a therapyddion lleferydd ac iaith.

6.19 Roedd sefydlu cyfarfodydd darparwyr a chyfleoedd rhwydweithio wedi gweithredu fel mecanwaith hyfforddi ond hefyd fel fforwm lle gallai lleoliadau rannu pryderon ac arferion da a lle gallai gwasanaethau eraill gyrchu'r lleoliadau. Er enghraifft, gall gweithiwr Dechrau Da wneud cyflwyniad mewn cyfarfod Rhwydweithio Gofal Plant yn hyrwyddo Bag Llyfrau Dechrau'n Deg a gweithgareddau sy'n gallu cysylltu'r gofal plant a'r llyfrgelloedd neu gall y Therapydd Lleferydd ac Iaith gyflwyno sesiwn flasu cwrs hyfforddi y gall staff gofal plant ei fynychu.

6.20 Mae rôl Athrawon Ymgynghorol Dechrau'n Deg a'u rhan yn y ddarpariaeth yn amrywio ond fel rheol mae'n canolbwyntio ar adolygu arfer, adnabod anghenion hyfforddi a chefnogi rhwydweithio a rhannu arfer da ymysg lleoliadau.

***Cysylltiadau â hawliau ac ysgolion eraill***

6.21 Mae'n ddisgwyliad clir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, fel y nodir yn y canllawiau, y bydd darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg yn cael ei hintegreiddio gydag ysgolion a hawliau ehangach Dechrau'n Deg. Dros y 12-18 mis diwethaf mae'n amlwg bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar draws y Partneriaethau o ran hyn. Mae natur a maint y cysylltiadau yn amrywio rhwng y Partneriaethau yn dibynnu ar lefelau staffio, yr amser mae gwasanaethau wedi bod yn gweithredu a phrofiad blaenorol o integreiddio gweithgareddau a gwasanaethau.

6.22 Mae ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg yn amlwg yn chwarae rôl ganolog mewn hyrwyddo darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg i rieni ond mewn rhai ardaloedd mae integreiddio pellach wedi digwydd.

- ***Sir y Fflint***: Mae Athrawon Ymgynghorol Dechrau'n Deg yn cydweithio ag ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg i rannu canfyddiadau o'r

asesiadau Amserlen o Sgiliau Tyfu (SoGS) a gynhaliwyd i gefnogi asesu datblygiad ac adnabod anghenion

- ***Castell-nedd Port Talbot***: Mae ymwelwyr iechyd a seicolegwyr addysg wedi mynychu grwpiau chwarae Dechrau'n Deg cyn dyrannu lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg i blant gan hwyluso'r gwaith o nodi plant ag anghenion ychwanegol yn gynnar a lleoli plant mewn lleoliadau priodol sy'n gallu rhoi cefnogaeth iddynt.
- ***Bro Morgannwg***: Pa bryd bynnag mae ymwelydd iechyd yn cynnal asesiad SoGS ar blentyn dwy flwydd oed ac yn tynnu sylw at faterion yn ymwneud â datblygiad, bydd yr ymwelydd iechyd yn cysylltu ag Athro Ymgynghorol Dechrau'n Deg er mwyn sicrhau bod cynllun gofal plant priodol yn ei le. Pan gynhelir yr asesiad SoGS nesaf yn dair blwydd oed, bydd yr ymwelydd iechyd ac athro ymgynghorol Dechrau'n Deg yn mynychu er mwyn sicrhau bod y plentyn yn parhau i dderbyn y cymorth angenrheidiol.

6.23 Cofnododd nifer o Bartneriaethau Dechrau'n Deg gysylltiadau rhwng darpariaeth Gofal Plant Dechrau'n Deg a gweithgarwch LAP Dechrau'n Deg. Mewn rhai achosion bydd staff LAP yn darparu hyfforddiant ac adnoddau at ddefnydd lleoliadau gofal plant ac mewn achosion eraill byddant yn cyflwyno sesiynau LAP yn y lleoliad gofal plant fel bo rhieni a phlant yn gallu eu mynychu.

6.24 Roedd Partneriaethau yn fwy tebygol o gofnodi cysylltiadau cryfach ag ysgolion cynradd pan oedd darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg wedi'i lleoli o fewn ysgol neu ar safle ysgol. Hyd yn oed pan nad yw'r lleoliadau â chysylltiad uniongyrchol ag ysgol, mae'r Partneriaethau wedi archwilio cyfleoedd i sefydlu gwell cysylltiadau gan gynnwys:

- gwahodd athrawon meithrin i'r lleoliadau gofal plant i gwrdd â phlant cyn iddynt symud i'r feithrin
- datblygu offer/dogfennau pontio y gellir eu defnyddio i gofnodi anghenion unigol plentyn a'r camau a gymerwyd i gefnogi'r plentyn i ddarparu gwybodaeth ar gyfer athrawon meithrin ac felly hwyluso parhad cefnogaeth.

***Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol***

6.25 Fel y nodwyd yn gynharach, mae canllawiau Dechrau'n Deg yn nodi disgwyliad y bydd lleoliadau Dechrau'n Deg yn ceisio diwallu anghenion plant ag anghenion ychwanegol/anableddau trwy sgrinio anghenion a darparu cefnogaeth briodol i ganiatáu mynediad ac ymgysylltu.

6.26 Mae model darparu Dechrau'n Deg wedi galluogi Partneriaethau i fynd i'r afael a gofynion plant/teuluoedd sydd ag anghenion ychwanegol mewn tair ffordd allweddol.

- Yn gyntaf, mae'r gallu i ddarparu gofal plant i blant dan ddwyflwydd oed ar gyfer gofal seibiant wedi profi'n werthfawr i gefnogi teuluoedd sydd dan straen sylweddol.
- Yn ail, mae'r ymagwedd amlasiantaeth yn golygu bod lleoliadau gofal plant yn gallu tynnu ar gymorth ac arbenigedd ychwanegol tîm ehangach Dechrau'n Deg i gefnogi neu hyfforddi staff gofal plant er mwyn diwallu anghenion plentyn neu trwy ddarparu cymorth uniongyrchol ar gyfer y plentyn. Er enghraifft gall gweithiwr cefnogi teuluoedd fynd i leoliad gofal plant yn gwmni i blentyn sydd ag anghenion ychwanegol am gyfnod cychwynnol er mwyn cefnogi staff, y rhieni a'r plentyn.
- Yn drydydd, sefydlodd nifer o Bartneriaethau Dechrau'n Deg gronfa i gefnogi plant a theuluoedd sydd ag anghenion ychwanegol i ymgysylltu â chynnig Dechrau'n Deg ac oherwydd hynny maent yn gallu ariannu staff, cyfarpar a hyfforddiant sy'n briodol ar gyfer anghenion.

6.27 Mae Ffigur 0-8 yn rhoi enghreifftiau o ffyrdd mae plant a theuluoedd ag anghenion ychwanegol yn cael eu cefnogi gan gynnig gofal plant Dechrau'n Deg.

Ffigur 0-8: Enghreifftiau o ffyrdd y mae gofal plant Dechrau'n Deg yn cefnogi plant ag anghenion ychwanegol

| |
|---|
| Mae ***Sir Gaerfyrddin*** yn asesu anghenion pob lleoliad yn rheolaidd ac yn addasu'r ddarpariaeth yn sgil hynny, er enghraifft mae un lleoliad wedi cyflogi gweithiwr chwarae sy'n siarad Pwyleg ac sydd â chymhwyster mewn datblygiad iaith i gefnogi'r lefel uchel o blant y mae Saesneg yn ail iaith iddynt.<br>Yn ***Sir Benfro*** mae darpariaeth seibiant ar gyfer plant dan 2 oed yn cael ei ystyried yn rhan hyblyg bwysig o'r rhaglen na fu'n bosibl cyn Dechrau'n Deg. Mae'r ddarpariaeth yn gweithio'n dda yn cefnogi teuluoedd sy'n dioddef straen, Iselder Ôl-enedigol, rhieni ag anghenion addysgol arbennig neu sy'n gweld eu teuluoedd yn chwalu.<br>Mae panel rhyngasiantaethol, dan gadeiryddiaeth rheolwr Dechrau'n Deg, yn cyfarfod yn ***Abertawe*** i sicrhau bod llwybr gofal wedi'i ddarparu'n integredig mewn lle ar gyfer plant a nodwyd ag anghenion ychwanegol |

*Ffynhonnell: SQW Consulting*

***Crynodeb o gyflenwi darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg***

6.28 Mae cyflenwi'r hawl i ofal plant wedi gosod heriau sylweddol i'r Partneriaethau Dechrau'n Deg, a'u hymgysylltu â datblygu a sbarduno'r farchnad yn ogystal â hybu a chefnogi gwelliant yn ansawdd y cynnig.

6.29 Mae nodweddion y ddarpariaeth o ran math a sector yn adlewyrchu amrywiaeth y farchnad gofal plant ar draws Cymru. Mae ymwybyddiaeth a nifer y defnyddwyr yn uchel er ei bod yn ymddangos bod llai o alw am y pum diwrnod llawn o sesiynau sydd ar gynnig.

6.30 Yn amlwg mae galw cryf am ddatblygiad proffesiynol parhaus o fewn gofal plant Dechrau'n Deg gyda llawer o arweinyddion wedi cymhwyso hyd at Lefel 4 neu'n hyfforddi tuag at y lefel honno ac ystod eang o hyfforddiant datblygu ar gynnig i staff gofal plant.

6.31 Mae'r Partneriaethau yn cysylltu darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg a chefnogaeth a hawliau eraill er bod hyn yn amrywio o atgyfeirio ac arwyddbostio i ddarparu ar y cyd a hyfforddiant ar draws yr hawliau.

6.32 Mae Partneriaethau hefyd yn dangos cynnydd o ran cefnogi anghenion plant ag anghenion ychwanegol/anableddau ac yn cysylltu â darpariaeth asesu a

chymorth prif ffrwd gyda'r bwriad o gefnogi plant i fynychu lleoliadau cynhwysol.

Ymweliadau iechyd

**Mae canllawiau Dechrau'n Deg yn nodi bod:**
Ymwelwyr iechyd a bydwragedd, yn gweithio mewn dull partneriaeth amlddisgyblaethol, i fod yn rhan greiddiol o hawl Dechrau'n Deg.
Gall y gefnogaeth ar gynnig gynnwys:- cefnogaeth gynenedigol dda yn cynnwys magu plant, iaith a chwarae; hybu sgiliau rhianta cadarnhaol er enghraifft trwy ddefnyddio'r rhaglen "Blynyddoedd Rhyfeddol"; asesu datblygiad plant, ymyrryd yn ôl y galw i ddiwallu angen; cyffyrddiad therapiwtig e.e. tylino babanod; gweithgarwch Iechyd y Cyhoedd e.e. maeth babanod, iechyd meddwl mamau, imiwneiddio, iechyd deintyddol.
Gellir cynnig y gefnogaeth i deulu unigol neu i grŵp o deuluoedd. Bydd yn arbennig o bwysig bod ymwelwyr iechyd yn hybu'r elfennau eraill o fewn y rhaglen i deuluoedd ac yn eu hatgyfeirio i asiantaethau eraill lle bo hynny'n briodol. Dylai ymwelwyr iechyd gadw mewn cysylltiad ag arweinyddion y lleoliadau gofal plant, neu'r gwarchodwyr plant, sy'n rhan o Dechrau'n Deg.
Fel canllaw dylai fod un ymwelydd iechyd ar gyfer pob 110 o blant rhwng 0-3 oed yn yr ardaloedd targed, ynghyd â chymorth rheoli a gweinyddu, uwchlaw'r gwasanaeth craidd presennol.
Am y rheswm hwn mae ymwelwyr iechyd a bydwragedd, yn gweithio mewn dull partneriaeth amlddisgyblaethol, i fod yn rhan greiddiol o gynnig Dechrau'n Deg.

*Ffynhonnell: Canllawiau Dechrau'n Deg*

6.33 Bu gweithredu hawl ymweliadau iechyd Dechrau'n Deg yn her i'r Partneriaethau mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys:

- recriwtio a chadw ymwelwyr iechyd
- rheoli absenoldeb oherwydd salwch a chyfnodau mamolaeth
- newid diwylliant
- rhannu gwybodaeth a safleoedd

6.34 Er gwaethaf yr heriau hyn (a archwilir yn fwy manwl isod) mae tystiolaeth ar draws yr astudiaethau achos ardal yn dangos bod y mwyafrif o Bartneriaethau bellach wedi sicrhau cyflenwad llawn o ymwelwyr iechyd. Maent yn darparu rhaglen ymweliadau iechyd wedi'i chyfoethogi sy'n cynnwys nifer o staff amlddisgyblaethol sy'n cyflwyno ystod o wasanaethau cefnogi, integredig i

raddau helaeth, i deuluoedd. Fodd bynnag, mae gofid o hyd mewn nifer o ardaloedd ynglŷn ag i ba raddau mae hawl lawn Dechrau'n Deg i ymweliadau iechyd yn cael ei chynnig – fel y trafodir isod.

***Sefydlu'r cynnig***

6.35 Mae canllawiau Dechrau'n Deg yn nodi y dylai hawl i ymweliadau iechyd Dechrau'n Deg gael ei ddarparu gan 'un ymwelydd iechyd ar gyfer pob 110 o blant rhwng 0-3 oed yn yr ardaloedd targed, ynghyd â chymorth rheoli a gweinyddu, uwchlaw'r gwasanaeth craidd presennol.'[36]. Cytunir yn gyffredinol bod hyn yn lleihad sylweddol o gymharu â chyfartaledd y llwyth achosion a brofir gan ymwelwyr iechyd. Mae taflen ffeithiau a gynhyrchwyd gan Undeb Unite/ Cymdeithas Ymarferwyr Cymunedol ac Ymwelwyr Iechyd (CPHVA) yn 2007 ar sail arolwg o ymwelwyr iechyd ac Ymddiriedolaethau yn Lloegr, yr Alban a Chymru yn canfod bod y mwyafrif (92%) o ymwelwyr iechyd llawn amser yn cynnal llwyth achosion o 2-300 o deuluoedd, gyda 26 y cant yn gyfrifol am dros 400 o deuluoedd.[37]

6.36 Mae tystiolaeth o'r astudiaethau achos ardal a gynhaliwyd ar ddiwedd 2009 a chanlyniadau monitro chwarter 3 yn dangos bod 12 ardal bellach yn darparu cymhareb ymwelydd iechyd o 1:110 neu lai. Mae sicrhau staff addas er mwyn cyrraedd y targed o ran llwyth achosion wedi cymryd cryn amser gyda Phartneriaethau yn wynebu anawsterau o ran recriwtio a chadw staff oherwydd prinder cenedlaethol o ymwelwyr iechyd. Yn ogystal â materion recriwtio a staffio mae rhai ardaloedd wedi nodi bod adroddiadau am lwythi achos o bosib yn cynnwys llwyth achosion ychwanegol plant 4-5 mlwydd oed ac mewn ardaloedd lle nad oes gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion mae'n bosib bod hyn hefyd yn cynnwys plant pump oed neu hŷn.

6.37 Mae'r rhesymau am anawsterau recriwtio yn canolbwyntio ar brinder gwreiddiol o ymwelwyr iechyd sydd â hyfforddiant a phrofiad i lenwi'r swyddi; lefelau uchel dilynol o salwch a throsiant staff wrth i lefelau straen yn y

[36] Canllawiau Dechrau'n Deg 2006-7 a 2007-8
[37] http://www.unitetheunion.com/docs/RD674%20Fact%20Sheet%20-%20Determining%20optimum%20caseload%20sizes.doc

gwasanaeth oedd yn brin o staff (Dechrau'n Deg a'r gwasanaeth generig fel ei gilydd) wneud eu niwed a heriau oedd yn dod yn sgil y ffaith bod nifer y plant oedd yn gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg yn uwch na'r cap, fel y trafodwyd yn Adran 4.

6.38 Mewn ymateb i'r prinder cychwynnol o ymwelwyr iechyd cymwys i lenwi'r swydd neu'r swydd a ddaeth yn wag o ganlyniad i recriwtio i swyddi Dechrau'n Deg, ariannwyd lleoedd hyfforddi ychwanegol ar gyfer ymwelwyr iechyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Er bod yr ymagwedd hon yn glodwiw, roedd oedi anochel rhwng ariannu lleoedd hyfforddi ac ymwelwyr iechyd newydd yn cael eu rhyddhau i'r gronfa lafur. Nid yw lefelau uchel o salwch staff o fewn y proffesiwn ymwelwyr iechyd yn unigryw i Dechrau'n Deg ond mae'n parhau yn fater sy'n anodd ei reoli er y deallir ei fod wedi gwella mewn ardaloedd Dechrau'n Deg sydd wedi llwyddo i recriwtio eu cyflenwad llawn o ymwelwyr iechyd.

6.39 Mae'r Partneriaethau bellach wedi goresgyn yr heriau cychwynnol hyn yn fras ac mae gweddill y rhesymau a gyflwynwyd am gymarebau llwythi achosi uchel parhaus yn ymwneud â chynnydd yn y boblogaeth o fewn dalgylchoedd Dechrau'n Deg a'r her barhaus o reoli absenoldeb mamolaeth/tadolaeth a salwch staff.


6.40 Mae'n werth nodi, hyd yn oed mewn ardaloedd lle nad yw'r gymhareb 1:110 wedi'i sicrhau, bod y llwyth achosion o fewn Dechrau'n Deg yn gyffredinol, yn ôl yr adroddiadau, gryn dipyn yn is na'r llwyth achosion generig. Mae hyd yn oed y rheini sy'n nodi eu bod erbyn hyn yn darparu hyd at y targed o ran llwyth achosion yn nodi bod hyn yn gallu amrywio'n sylweddol os yw staff yn absennol oherwydd salwch neu ar absenoldeb mamolaeth/tadolaeth neu os bydd ardal yn derbyn mewnlifiad o drigolion newydd.

6.41 Dylid nodi hefyd bod dadlau mewn rhai o'r Partneriaethau ynglŷn â'r pwyslais y dylid ei osod ar gyrraedd cymhareb llwyth achosion ymwelydd iechyd o 1:110. Maent yn tynnu sylw at werth tîm iechyd gyda chymysgedd o sgiliau yn cynnwys ystod o weithwyr iechyd proffesiynol eraill sy'n gallu cefnogi'r

ymwelydd iechyd, yn arbennig gweithwyr cefnogi teuluoedd/gweithwyr datblygu iechyd neu nyrsys meithrin sy'n gallu dilyn ymweliadau a chynlluniau gweithredu ymwelwyr iechyd o dan eu goruchwyliaeth hwy.

6.42 Fel y nodwyd yn y canllawiau, ni ragwelir y byddai ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg yn darparu cefnogaeth iechyd i deuluoedd heb gefnogaeth. Fe'u cefnogir yn y mwyafrif o ardaloedd gan dîm o sawl proffesiwn gan gynnwys: bydwragedd, therapyddion lleferydd ac iaith, dietegwyr ac eraill megis gweithwyr cefnogi teuluoedd. Mae Ffigur 0-9 yn dangos dadansoddiad yn ôl proffesiwn o'r timau sy'n darparu cefnogaeth iechyd ar gyfer Partneriaethau Dechrau'n Deg.

Ffigur 0-9: Cyfran yr FTE a gyflogir i ddarparu'r hawl iechyd yn ôl math




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddata monitro Dechrau'n Deg*

### *Cynnig gwasanaeth gwell*

6.43 Yng Nghymru nid oes rhaglen graidd benodol o ymweliadau iechyd ar gyfer Cymru gyfan, oherwydd hynny bydd i ba raddau mae Partneriaeth unigol Dechrau'n Deg yn darparu gwasanaethau ymweliadau iechyd sy'n 'well', o gymharu â'r gwasanaeth generig, yn amrywio o ardal i ardal yn dibynnu ar fanylion lleol y gwasanaeth ymweliadau iechyd. Yng ngoleuni hyn mae'r drafodaeth isod yn ymwneud â'r gwasanaeth gwell a hwylusir gan lwyth

achosion llai ynghyd â'r gwelliannau penodol a nodwyd gan Bartneriaethau lleol. Mae'r llwyth achosion llai a buddsoddiad Dechrau'n Deg wedi cael cryn effaith ar allu ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg i gynnig gwell gwasanaeth i deuluoedd. Nodweddir y gwasanaeth gwell gan dair agwedd ar ddarparu:

- mwy o amser i'w dreulio gyda theuluoedd, gan gynnwys ymweliadau amlach , mwy o amser ar bob ymweliad a mwy o amser i gynnal neu ymgysylltu â grwpiau a gweithgareddau
- mynediad at gyfleoedd hyfforddi a datblygu i wella arfer
- y gallu i wneud defnydd o 'flwch offer' o wasanaethau a chymorth ychwanegol wedi'u darparu gan Dechrau'n Deg

6.44 Mae'r heriau a wynebwyd wrth leihau'r llwyth achosion yn amlwg wedi effeithio i ba raddau y gellir darparu'r cynnig gwell. Ond ym mhob ardal mae'n amlwg bod ymweliadau iechyd Dechrau'n Deg yn well gwasanaeth o gymharu â'r gwasanaethau generig.

6.45 Un o ganlyniadau cael mwy o amser a rhyddid o fewn Dechrau'n Deg yw bod ymwelwyr iechyd yn dechrau nodi materion allweddol o fewn cymunedau Dechrau'n Deg a datblygu strategaethau i fynd i'r afael â hwy. Er enghraifft:

- ***Ynys Môn:*** Mae'r ymwelwyr iechyd wedi nodi datblygiad iaith gwael a chyfraddau isel o fwydo ar y fron fel problemau allweddol mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac wedi defnyddio adnoddau ychwanegol i deilwra'r ddarpariaeth i ddiwallu'r anghenion hynny.
- ***Caerdydd***: Nodwyd cyfraddau imiwneiddio fel blaenoriaeth ac mae tîm Dechrau'n Deg yn treialu ymateb sy'n cysylltu tîm iechyd a hawliau eraill Dechrau'n Deg er mwyn hybu'r nifer sy'n dewis imiwneiddio.

6.46 Yn ddieithriad bydd ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg yn derbyn cefnogaeth gan dîm iechyd ehangach. Mae hwn yn cynnwys o leiaf gweithwyr cefnogi teuluoedd/gweithwyr iechyd i deuluoedd neu weinyddesau meithrin ond yn aml mae'n cynnwys bydwragedd, dietegwyr, gweithwyr cludo a therapyddion lleferydd ac iaith. Mae presenoldeb y staff iechyd arbenigol hyn yn rhoi adnodd gwerthfawr y gall ymwelwyr iechyd a'r rhaglen ehangach ei

ddefnyddio. Mae'r ystod o wasanaethau a gynigir ganddynt a'r cymorth a roddir ganddynt i deuluoedd yn awgrymu y byddai'n fwy priodol cyfeirio at y ddarpariaeth o gymorth iechyd o fewn Dechrau'n Deg yn fwy cyffredinol na dim ond ymweliadau iechyd er mwyn adlewyrchu'r proffesiynau a'r gwasanaethau cymorth ehangach hyn.

6.47 Mae'r gwasanaeth gwell yn aml yn wasanaeth mwy dwys. Nid yw llwyth achosion llai o anghenraid yn golygu llwyth achosion llai heriol. Po fwyaf difreintiedig yw'r ardal po fwyaf yw'r achosion o deuluoedd sydd ag anghenion uwch sy'n gallu golygu cryn dipyn o waith ychwanegol. Mae hyn wedi bod yn achos pryder mewn rhai Partneriaethau ar y sail bod cymysgedd o achosion llai ac achosion mwy heriol yn haws i'w gynnal nag un sy'n cynnwys achosion heriol yn bennaf. Mae'r olaf yn gallu cael effaith andwyol ar recriwtio a chadw.

***Newid diwylliant***

6.48 Profodd sefydlu 'diwylliant Dechrau'n Deg' o fewn timau iechyd gan gynnwys cyd-hyfforddi a thraws-sgilio ymwelwyr iechyd gyda ac ar draws gwasanaethau eraill megis rhianta, yn broses hir ac nid oedd heb ei phroblemau. Mae ymagwedd Dechrau'n Deg yn gofyn am newidiadau i rai agweddau ar rôl ymweliadau iechyd sydd wedi herio ffyrdd sefydledig o weithio. Mae'r newidiadau hyn wedi cynnwys rheoli o ddydd i ddydd gan arweinydd Dechrau'n Deg yn hytrach na'u harweinydd proffesiynol. Mae'r rhai sydd wedi croesawu'r newid yn ystyried ei fod yn eu galluogi i ddarparu'r gwasanaeth ymweliadau iechyd 'fel y dylai gael ei ddarparu'. Fodd bynnag, nid yw bod yn atebol i raglen a arweinir gan yr Awdurdod Lleol yn 'sefyllfa gyfforddus' i rai gwasanaethau ymweliadau iechyd. Mae staff ar y ddaear a rheolwyr, mewn rhai ardaloedd, wedi brwydro â chyd-leoliad ac wedi'i chael hi'n anodd i gael rheolwr llinell sydd ddim yn rheolwr iechyd. Mae ymdeimlad o fewn rhai timau rheoli a darparu ymweliadau iechyd bod angen gwerthfawrogi'r elfen ymweliadau iechyd yn fwy o fewn Dechrau'n Deg er mwyn cydnabod rôl ganolog/broffesiynol yr ymwelydd iechyd.

6.49 Mae'r gwasanaeth ymweliadau iechyd a rôl ymwelwyr iechyd yn gyffredinol wedi newid yn sylweddol dros y degawd diwethaf. Mae rôl ymweliadau iechyd

bob amser wedi canolbwyntio ar ymwybyddiaeth o iechyd a hybu iechyd ond mae pryder cyhoeddus ynglŷn â cham-drin plant a chyfyngiadau cyllideb wedi golygu bod y rôl yn canolbwyntio mwy ar nodi ac asesu anghenion.[38] Yn y cyd-destun hwn mae rôl ymweliadau iechyd o fewn Dechrau'n Deg yn dal yn bwysig iawn oherwydd bod ymwelwyr iechyd mewn cysylltiad rheolaidd â theuluoedd ac fel rheol yn cael eu derbyn ganddynt fel ffynhonnell y gallant ymddiried ynddi am gyngor ac atgyfeiriad. Mae hyn yn achosi mwy o bryder pan gofnodir, fel sydd wedi digwydd mewn rhai Partneriaethau, bod ymwelwyr iechyd yn anfodlon cydweithio mewn partneriaeth gyda'r gwasanaethau eraill (rhianta, gweithwyr cefnogi teuluoedd, Iaith a Chwarae, gofal plant ac ati). Mae amryw o resymau ond, ar y cyfan, mae'n debyg bod hyn yn ymwneud â'r ffaith eu bod yn ystyried bod eu harferion traddodiadol yn cael eu gwyrdroi. O fewn y gwasanaeth generig, mae ymwelwyr iechyd yn aml yn gweithio i raddau helaeth ar eu pen eu hunain ac yn gyfrifol am ddiwallu y rhan fwyaf o anghenion y teulu. Ond, mewn ardaloedd Dechrau'n Deg disgwylir iddynt 'ollwng gafael' ar rai o'r cyfrifoldebau hynny ac i ymgysylltu ag ystod o gymorth a gwasanaethau eraill er mwyn diwallu anghenion y teulu. Mae tystiolaeth o rai astudiaethau achos ardal yn awgrymu bod 'gollwng gafael' fel hyn wedi bod yn anodd ei dderbyn ymysg rhai ymwelwyr iechyd.

6.50 Mae'n bwysig nodi nad yw'r heriau a ddisgrifiwyd uchod yn digwydd i'r un graddau ym mhob Partneriaeth a bod integreiddio ymweliadau iechyd, mewn rhai ardaloedd, yn mynd rhagddo yn gyflym a gyda chryn lwyddiant: gan alluogi a chefnogi gwell rhannu gwybodaeth; darparu ymdeimlad o gyd-gefnogaeth; a chynnig ystod o adnoddau a chyngor y gellir ei ddefnyddio i gefnogi teuluoedd.

***Crynodeb o gyflenwi darpariaeth ymweliadau iechyd Dechrau'n Deg***

6.51 Er bod y Partneriaethau yn wynebu nifer o heriau wrth recriwtio staff i gyflawni'r hawl ymweliadau iechyd, mae pob ardal bellach yn darparu gwell gwasanaeth gyda llwyth achosion sydd wedi gostwng yn sylweddol ac o leiaf hanner yr ardaloedd yn darparu hyd at y gymhareb llwyth achosion 1:110 – yn

[38] Hall, D & Hall, S, (2007) The "Family – Nurse Partnership": developing an instrument for identification, assessment and recruitment of clients. Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd

amodol ar y problemau anochel o gadw at y llwyth achosion oherwydd salwch staff, absenoldeb mamolaeth a throsiant.

6.52 Nid yw ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg yn gweithio ar eu pen eu hunain ac fe'u cefnogir gan ystod o weithwyr iechyd proffesiynol eraill gan gynnwys bydwragedd, therapyddion lleferydd ac iaith, dietegwyr, ffisiotherapyddion, gweithwyr cefnogi teuluoedd ac eraill. O dan yr amgylchiadau hyn efallai ei bod yn gamarweiniol i gyfeirio at yr hawl fel yr hawl ymweliadau iechyd oherwydd, er mai ymwelwyr iechyd yw mwyafrif y staff o fewn timau iechyd Dechrau'n Deg, mae'r tîm ehangach yn darparu llawer o'r 'blwch offer' o gefnogaeth ychwanegol y gallant ei ddefnyddio.

6.53 Bu troi at weithio amlbroffesiwn ac amlasiantaeth yn heriol i'r timau iechyd mewn nifer o ardaloedd Partneriaeth, gyda'r ymwelwyr iechyd eu hunain yn teimlo'r ansicrwydd a'r anawsterau hyn waethaf. Er bod llawer o'r problemau hyn yn cael eu datrys wrth i bobl gyfarwyddo â'r ffyrdd newydd o weithio, maent yn parhau i greu rhwystrau i ddarparu'r hawl mewn rhai ardaloedd.

## Iaith a Chwarae

6.54 Mae canllawiau Dechrau'n Deg yn nodi disgwyliad bod 'pob teulu mewn ardal Dechrau'n Deg yn cael mynediad at raglen Iaith a Chwarae os nad yw eisoes yn ei le'. Cafodd Iaith a Chwarae (LAP) a Rhif a Chwarae (NAP) eu cyflwyno ar draws Cymru drwy arian a roddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i bob Awdurdod Lleol i gyflogi Swyddog LAP yn gweithio i Grŵp Llywio LAP.

Ffigur 0-10: Beth yw LAP?

> Rhaglen chwe wythnos yw LAP ar gyfer rhieni/gofalwyr a'u plant o 0-3 blwydd oed. Y brif nodwedd sy'n sail i lwyddiant LAP yw bod rhieni a phlant yn dysgu gyda'i gilydd trwy chwarae a gweithgareddau hwyl Mae rhieni'n teimlo eu bod yn cael eu croesawu, eu gwerthfawrogi a'u bod yn bwysig. Mae'r effaith ar hyder, ymdeimlad o les a gallu rhieni i ymdopi gryfaf mewn lleoliadau sy'n darparu cefnogaeth ar gyfer rhieni sydd â phroblemau cymdeithasol/emosiynol a phroblemau iechyd meddwl – lle mae cefnogaeth rhianta/iechyd a sgiliau sylfaenol yn cael eu cynnig gyda sensitifrwydd a phwrpas.

*Ffynhonnell: Canllawiau Dechrau'n Deg2006-7 a 2007-8*

*Sefydlu'r hawl*

6.55 Mae'n deg dweud nad oedd sefydlu hawl LAP Dechrau'n Deg yn flaenoriaeth gyntaf ar gyfer mwyafrif yr ardaloedd Dechrau'n Deg, lle roedd yr heriau mwy sylweddol o sefydlu darpariaeth gofal plant a recriwtio'r cyflenwad o ymwelwyr iechyd yn cael y flaenoriaeth. Fodd bynnag, wrth i'r drydedd flwyddyn o ddarparu Dechrau'n Deg dynnu at ei therfyn, mae darpariaeth cefnogaeth sgiliau sylfaenol ar gyfer plant Dechrau'n Deg trwy gyfrwng sesiynau LAP yn amlwg wedi gwella ac ar gael yn fwy eang yn y mwyafrif o ardaloedd Dechrau'n Deg.

6.56 Mae strwythurau cyflenwi darpariaeth LAP yn amrywio ar draws y Partneriaethau. Datblygodd rhai ardaloedd weithgareddau LAP Dechrau'n Deg ochr yn ochr â'r gwasanaethau LAP (generig) yr Awdurdod Lleol gan ddefnyddio'r un staff. Penododd ardaloedd eraill staff ychwanegol (neu ymestyn oriau y staff presennol) i ddarparu rhaglen fwy dwys. Roedd cynnig cyffredinol LAP yn debyg mwy neu lai o ran y gweithgareddau a chefnogaeth a gynigid fel rhan o ddarpariaeth prif ffrwd LAP ar draws yr Awdurdod. Fodd bynnag, o fewn ardaloedd Dechrau'n Deg mae staff LAP yn tueddu i fod yn gyfrifol am gynnal ac arwain y mwyafrif o sesiynau LAP yn uniongyrchol (yn hytrach na hyfforddi eraill i ddarparu LAP) ac wedi eu hintegreiddio'n llawnach â gweithgareddau ehangach y Bartneriaeth Dechrau'n Deg.

6.57 Mae cyrsiau LAP fel rheol yn rhedeg am tua chwe wythnos gyda sesiynau yn para am tua awr a hanner i ddwy awr yr wythnos. Darperir cyrsiau mewn ystod o leoliadau cymunedol o fewn dalgylchoedd Dechrau'n Deg gan gynnwys Canolfannau Blant Integredig, llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, ysgolion a chylchoedd chwarae. Nododd nifer o ardaloedd yn ogystal eu bod yn darparu LAP yn y lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg a hefyd mewn clinigau babanod a arweinir gan ymwelwyr iechyd.

6.58 Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd yn cynnig rhaglen dreigl o gyrsiau ac fel rheol bydd rhieni yn cael eu hannog i ail-fynychu er mwyn dysgu technegau newydd wrth i'w plentyn dyfu a datblygu. Mewn rhai ardaloedd mae'r timau LAP wedi addasu darpariaeth ar gyfer ardaloedd Dechrau'n Deg gan ganolbwyntio ar

ddarparu rhaglen fwy parhaus o weithgarwch a chefnogaeth yn hytrach na chael eu cyfyngu i'r cwrs 6 wythnos. Teimlwyd fod hyn yn angenrheidiol oherwydd ystyrid bod 6 wythnos yn amser annigonol i ymgysylltu â rhieni a phlant sydd â lefelau anghenion uchel a lefelau isel o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd rôl rhieni yn natblygiad plant.

6.59 Yn ogystal â rhedeg cyrsiau LAP mae cydgysylltwyr LAP a staff cefnogi LAP, mewn llawer o ardaloedd, wedi darparu hyfforddiant LAP i Athrawon Blynyddoedd Cynnar, staff gofal plant ac aelodau o dîm Dechrau'n Deg gan gynnwys gweithwyr cefnogi teuluoedd ac ymwelwyr iechyd.

6.60 Mae'r timau LAP hefyd ar gael (i raddau amrywiol) i gynnal gwasanaethau ymweliadau cartref ar gyfer rhieni sydd ddim eto'n barod i fynychu'r cyrsiau LAP. Fel rheol ceir mynediad at y gwasanaethau hyn wedi atgyfeiriad gan ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg neu staff eraill sydd mewn cysylltiad â'r teulu.

***Integreiddio***

6.61 Mae darpariaeth LAP fel rheol wedi'i chysylltu â hawliau eraill Dechrau'n Deg trwy ddarparu hyfforddiant i staff; darparu sesiynau LAP mewn grwpiau a gweithgareddau eraill ac atgyfeiriadau at ac oddi wrth wasanaethau cefnogi eraill. Mae'r timau LAP hefyd yn cysylltu â rhaglen Dechrau Da, a reolir fel rheol gan y gwasanaeth llyfrgell. Mae'r rhaglen hon yn cwmpasu darparu sesiynau stori a rhigwm mewn llyfrgelloedd plant, hybu llyfrgelloedd trwy gyfrwng sesiynau LAP rheolaidd a darparu Bag Llyfr Dechrau Da Dechrau'n Deg sy'n ychwanegol at y Bagiau Llyfr Dechrau Da cyffredinol sydd ar gael i bob plentyn.

6.62 Dangosodd astudiaethau achos ardal 2009 nifer o agweddau o arfer da o ran cyflenwi darpariaeth LAP Dechrau'n Deg gan gynnwys:

- **Ymgysylltu â thîm a gwasanaethau ehangach Dechrau'n Deg** - trwy gysylltu'r ddarpariaeth LAP â gwasanaethau eraill a ddarperir gan Dechrau'n Deg, megis gofal plant a chlinigau babanod, mae gwasanaethau yn gallu cyrraedd ystod ehangach o rieni oherwydd

mae'n bosib y bydd rhai rhieni yn fwy tueddol o ymgysylltu â rhaglen LAP os yw'r rhaglen yn cael ei chyflwyno gan eu hymwelydd iechyd ac os yw'n cael ei chyflwyno ochr yn ochr â chlinig neu efallai y gellir eu denu i fynychu clinig babanod os cynigir gweithgareddau eraill ar yr un pryd. Mae manteision eraill gweithio integredig yn cynnwys darparu neges gyson ar draws gwasanaethau a'r gallu i bennu anghenion a phryderon i'r gweithiwr proffesiynol priodol.

- **Gwasanaeth mynediad agored heb stigma** – mae sesiynau LAP ar agor i bob rhiant ac felly yn creu amgylchedd gallu cymysg sy'n darparu cyfleoedd i rieni mwy hyderus fodelu ymddygiad mewn modd anffurfiol a gofod lle gall timau LAP hybu arferion cadarnhaol i ddatblygu iaith mewn amgylchedd cadarnhaol.
- **Cysylltu darparu LAP â darparu a chefnogi sgiliau sylfaenol i oedolion** – yng ***Nghasnewydd*** mae'r tîm LAP hefyd wedi'u hyfforddi mewn sgiliau sylfaenol ac mae rhieni yn cael cynnig dilyn cymhwyster lefel mynediad fel rhan o'r cwrs LAP a chynigir cymwysterau Rhwydwaith y Coleg Agored (RhyCA)[39] gan ddefnyddio arian cyfatebol i wella sgiliau sylfaenol rhieni.
- **Cysylltu â rhaglenni a chymorth Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL)** – yn ***Sir Benfro*** mae'r tîm LAP yn darparu rhaglen LAP mewn partneriaeth â'r tîm ESOL ar gyfer teuluoedd y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt: mae hyn yn rhoi cyfle gwerthfawr i ymgysylltu'r teuluoedd hyn sy'n aml wedi eu hynysu.

***Crynodeb o gyflenwi darpariaeth Iaith a Chwarae Dechrau'n Deg***

6.63 Mae darparu'r hawl i iaith a chwarae wedi'i nodi'n fras o fewn canllawiau Dechrau'n Deg sydd wedi arwain at amrywiaeth o fodelau cyflenwi, rhai ohonynt yn defnyddio'r ddarpariaeth LAP generig yn bennaf ac eraill sydd wedi buddsoddi adnoddau mewn staffio er mwyn gwella'r cynnig sydd ar gael o fewn ardaloedd Dechrau'n Deg.

[39] http://www.nocn.org.uk/Homepage/

6.64 Fel rheol mae darpariaeth LAP Dechrau'n Deg yn cael ei darparu yn amlach, yn aml drwy ddefnyddio rhaglenni treigl yn hytrach na'r cwrs safonol 6 wythnos, ac yn fwy integredig â gweithgareddau ymwelwyr iechyd a lleoliadau gofal plant nag o fewn y cynnig LAP generig.

6.65 Mae mwyafrif y Partneriaethau yn cynnal gweithgareddau ehangach datblygu iaith gan gynnwys hyfforddiant staff a rhieni mewn gwasanaethau datblygu, asesu a datblygu iaith a ddarperir gan y therapyddion lleferydd ac iaith a'u timau cefnogi. O ystyried y datblygiad hwn, efallai ei bod yn briodol i adolygu – ac o bosib ehangu – y ffocws presennol ar weithgareddau datblygu iaith o fewn canllawiau Dechrau'n Deg.

Rhianta

**Mae canllawiau Dechrau'n Deg yn rhannu cyrsiau rhianta yn dri grŵp: A, B ac C ac yn nodi bod:**

- Rhaglenni Grŵp A yn gymwys i gael eu hariannu o ffrwd arian Dechrau'n Deg.
- Gall rhaglenni Grŵp B gael eu hariannu os byddent yn llenwi bwlch yn y gwasanaethau a ddarperir eisoes ac os nad oes unrhyw enghreifftiau lleol o raglenni Grŵp A i adeiladu arnynt.
- Ni ddylai Grŵp C, ac eithrio fel y disgrifir isod, fod yn gymwys i gael arian Dechrau'n Deg am y tro. Er eu bod efallai yn rhaglenni effeithiol, nid oes digon o dystiolaeth argyhoeddiadol o astudiaethau ymchwil trylwyr i gadarnhau eu heffeithiolrwydd. Yn ogystal â hynny, nid oes gan y rhan fwyaf o'r rhaglenni hyn system yn ei lle ar gyfer sicrhau ffyddlondeb os yw'r rhaglen yn cael ei chyflwyno.

*Ffynhonnell: Canllawiau Dechrau'n Def*

6.66 Mae canllawiau Dechrau'n Deg yn canolbwyntio darparu'r hawl rhianta ar ddarparu 'rhaglenni sy'n darparu cefnogaeth a hyfforddiant sgiliau i rieni gyda'r nod o hybu lles plant drwy wella ffactorau amddiffynnol a lleihau eu cyswllt â risg[40]'. Fodd bynnag, mae'r canllawiau hefyd yn cydnabod bod ystod o agweddau ar gefnogi rhianta sy'n cael eu darparu trwy ddulliau eraill ar wahân i raglenni rhianta ffurfiol, wedi'u gwerthuso.

[40] Canllawiau Dechrau'n Deg 2006-7 a 2007-8: Canllawiau Dechrau'n Deg Atodiad C Dechrau'n Deg: rosolwg o raglenni rhianta. Adroddiad gan Cymunedau sy'n Gofalu

6.67 Mae dwy stori wedi dod i'r amlwg mewn perthynas â darparu cefnogaeth rhianta Dechrau'n Deg. Mae mwyafrif y Partneriaethau yn darparu cynnig rhianta i rieni Dechrau'n Deg ac maent, i raddau gwahanol, wedi atgyfnerthu, trefnu a mireinio eu cynnig dros y 12 mis diwethaf. Ond mae adroddiad lleiafrifol ac yn ôl hwnnw ymddengys bod rhai ardaloedd yn ei chael hi'n anodd sefydlu rhaglen gydlynol.

***Y cynnig rhianta***


6.68 Mae'r isadran hon o'r adroddiad yn ystyried yr hyn mae Partneriaethau fel rheol yn cyfeirio ato fel eu 'cynnig cefnogaeth rhianta'. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi dechrau datblygu 'continwwm o gefnogaeth' yn hytrach na rhaglenni cefnogi rhianta ar wahân i'r gefnogaeth ehangach sydd ar gael.

6.69 Mae Ffigur 0-11 yn nodi'r mathau o gefnogaeth rhianta a gynigir ar draws y Partneriaethau yn ôl diffiniad canllawiau Dechrau'n Deg. Yn gyffredinol mae 54% o'r cyrsiau a gynigir yng nghategori A, 27% yng nghategori B ac 18% yng nghategori C. Mae mwyafrif y categori olaf wedi'i gynrychioli gan y Rhaglen Cysylltiadau Teuluol: Magu Plant a ddarperir mewn pum Bwrdeistref Sirol yn Ne Cymru fel rhan o hap-dreial rheoli wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Raddfa Asesu Ymddygiad Newydd-anedig (NBAS) sy'n cael ei darparu gan ymwelwyr iechyd yn cynnwys 30% arall o gyrsiau categori C. Dylid nodi bod nifer o Bartneriaethau wedi awgrymu na ddylai'r NBAS mewn gwirionedd gael ei chyfrif yn rhaglen rhianta gan ei bod yn debycach i asesiad a gynhelir gan yr ymwelydd iechyd gyda'r rhieni yn bresennol.[41]

---

[41] Mae gwefan Brazelton yn diffinio NBAS fel *'The NBAS is a neuro-behavioural assessment of the newborn, designed to document the newborn's contribution to the parent-infant system, the competencies and individual differences of the newborn, as well as any difficulties. The main feature of the NBAS is that it is an interactive assessment, which gives a clear profile of the baby's behaviour, and how it must feel to parent the baby. The examiner's role is to facilitate the newborn's best performance.'* http://www.brazelton.co.uk/scale.html

Ffigur 0-11: Dosbarthiad cyrsiau ar draws Partneriaethau yn ôl categori




*Ffynhonne:Dadansoddiad SQW o ddata monitro Dechrau'n Deg*

6.70 At ei gilydd roedd mwyafrif y Partneriaethau yn darparu cyfuniad o gefnogaeth anffurfiol, ffurfiol a dwys. Mae gweithgareddau anffurfiol yn cynnwys sesiynau galw heibio megis tylino babanod, Aros a Chwarae a grwpiau bwydo ar y fron a diddyfnu. Mae darpariaeth ffurfiol yn cynnwys yn bennaf y cyrsiau a ragnodir gan ganllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ac fel rheol mae'r gefnogaeth ddwys yn cael ei darparu trwy ymweliadau cartref 1:1. Ceir manylion pellach ynglŷn â'r gweithgareddau a ddarperir yn Ffigur 0-12.

6.71 Mae'r cyfuniad o gefnogaeth anffurfiol, ffurfiol a dwys yn datblygu fel continwwm o gefnogaeth neu lwybr cymorth. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd disgwylir y bydd rhieni yn ymgysylltu â'r gweithgareddau grŵp mwy ffurfiol ar ôl mynychu'r sesiynau anffurfiol sy'n rhoi cyfle iddynt gyfarfod â rhieni eraill a chael cyngor gan weithwyr proffesiynol mewn amgylchedd ymlaciol, yn ogystal â darparu lefel isel, anffurfiol, o gyfeirio gan weithwyr proffesiynol a chyfle i gyflwyno manteision y cyrsiau rhianta mwy ffurfiol i rieni wrth iddynt dyfu o ran hyder yn y grwpiau.

Ffigur 0-12: Cefnogaeth rhianta anffurfiol, ffurfiol a dwys

**Cefnogaeth anffurfiol**

Yn gyffredinol mae cefnogaeth anffurfiol yn cwmpasu ystod o grwpiau a sesiynau galw heibio. Bydd y sesiynau yn cael eu harwain yn aml gan gymysgedd o weithwyr proffesiynol sy'n golygu y gall fod yn anodd diffinio'r gweithgareddau fel rhai a ddarperir yn unol ag un o hawliau Dechrau'n Deg. Er enghraifft mae grwpiau cynenedigol, grwpiau babanod, grwpiau bwydo ar y fron, grwpiau diddyfnu a sesiynau tylino babanod yn debygol o gynnwys ymwelwyr iechyd a gweithwyr rhianta neu weithwyr cefnogi teuluoedd neu ddietegwyr neu therapyddion lleferydd ac iaith.

**Cefnogaeth ffurfiol**

Mae Partneriaethau Dechrau'n Deg yn cynnig ystod o raglenni rhianta ffurfiol. Mae'r dewis o ba raglen i'w chynnig wedi'i ddylanwadau i raddau helaeth gan brofiad blaenorol o fewn yr ardal leol a phrofiad blaenorol y staff. Mae cyfres o gyrsiau Blynyddoedd Rhyfeddol Webster Stratton[42] yn cael ei gynnig mewn 18 o'r 22 Partneriaeth Dechrau'n Deg. Mae mwyafrif yr ardaloedd wedi mabwysiadu rhaglenni Babanod a Phlant Bach y Blynyddoedd Rhyfeddol gan fod y brif raglen yn targedu rhieni sydd â phlant 0-3 blwydd oed. Mae chwe ardal yn nodi eu bod yn darparu Rhaglen Cysylltiadau Teuluol: Magu Plant (PNP).[43] Mae pedair o'r ardaloedd hyn (Caerdydd, Casnewydd, Torfaen a Bro Morgannwg) wedi ymuno â Rhaglen Meithrin Cysylltiadau Teuluol (FLNP) a Llywodraeth Cynulliad Cymru i gomisiynu hap-dreial wedi'i reoli (RCT) gyda gwerthusiad economaidd, er mwyn cael tystiolaeth glir ynglŷn â chostau ac effeithiau ymyrraeth rhianta yn y gymuned. Mae cymryd rhan yn yr RCT wedi effeithio ar ddefnydd a chyrhaeddiad y rhaglenni rhianta yn yr ardaloedd sy'n cymryd rhan: mae hyn yn cael ei archwilio ymhellach ym mharagraff 6.80 isod.

Mae'r cwrs Ymdrin ag Ymddygiad Plant[44] yn cael ei gynnig mewn pedair ardal ac mae tair o'r ardaloedd yn nodi eu bod yn darparu Llinell Rhieni a Mwy[45]. Mae ardaloedd unigol hefyd yn nodi eu bod yn darparu Rhianta'n Gadarnhaol ac Ymdopi gyda Phlant Ifanc.

Mae'r Raddfa Asesu Ymddygiad Newydd-anedig (NBAS) wedi'i chynnwys yn rhestr Cynulliad Cymru o gyrsiau ffurfiol ac yn wir mae rhai ardaloedd wedi hyfforddi eu hymwelwyr iechyd i gynnal yr asesiad ond nodwyd bod yr NBAS, er ei bod yn cael ei chyfrif yn rhaglen rhianta gan ganllawiau Dechrau'n Deg, mewn gwirionedd yn asesiad o ddatblygiad a gynhelir gan ymwelydd iechyd gyda'r rhieni. Gan anghofio'r dosbarthiad, mae'r ymwelwyr iechyd sydd wedi derbyn yr hyfforddiant dwys ar gyfer NBAS yn nodi ei bod yn offeryn defnyddiol dros ben.

Mae nifer o ardaloedd yn cynnig cyrsiau sydd heb eu cynnwys yn y rhestr gymeradwy gan gynnwys: cwrs Chill Out Barnardos (Ynys Môn), mini MEND[46] (Torfaen) a chwrs 6 wythnos Amser Chwarae (Sir Ddinbych)

**Cefnogaeth ddwys**

Fel rheol mae cefnogaeth ddwys yn cael ei darparu i deuluoedd ar ffurf

42 http://www.incredibleyearswales.co.uk/frame-21.html
43 http://www.familylinks.org.uk/nurturing/index.htm
44 http://www.handlingchildrensbehaviour.com/index.htm
45 http://www.parentlineplus.org.uk/
46 http://staging.mendprogramme.org/mendservices/minimend

cefnogaeth 1:1 wedi'i darparu gan ymwelwyr iechyd, gweithwyr rhianta, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr cefnogi teuluoedd . Mae hyn ar ffurf gweithgareddau adeiladu hyder sy'n gweithio tuag at annog ac weithiau mynd gyda rhieni i fynychu grwpiau cefnogaeth anffurfiol ac yn y pen draw yn symud ymlaen i'r rhaglenni mwy ffurfiol. Yng ***Nghaerdydd*** mae'r rhaglen o gefnogaeth ddwys yn cael ei chynnig trwy gyfrwng y rhaglen Rhieni a Mwy, gwasanaeth seicoleg deuddeg wythnos un-i-un yn y cartref a ddatblygwyd yn lleol sy'n darparu cefnogaeth i deuluoedd plant o dan oed ysgol sy'n arddangos anawsterau ymddygiad a/neu anawsterau datblygiad ac a fydd yn elwa o gymorth mwy pendant dan arweiniad seicolegwyr addysg.
Yn ***Abertawe*** mae rhith-dîm amlddisgyblaethol wedi cael ei sefydlu, gan gynnwys therapyddion lleferydd ac iaith, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, ymwelwyr iechyd, paediatregydd cymunedol a gweithwyr arbenigol ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig, i ddarparu rhaglen rhiant 'Early Bird' yn beanodol ar gyfer rhieni y mae eu plant wedi cael diagnosis o Awtistiaeth[47].
Yn ***Nhorfaen*** mae cwrs chwe wythnos Sunshine Seekers yn cael ei gynnig i famau sy'n dioddef o iselder ar ôl geni. Bwriad y cwrs yw rhannu gwybodaeth a phrofiad, gan osod iselder yn ei gyd-destun. Ymwelydd Iechyd Cychwyn Cadarn sy'n cynnal y grwpiau hyn.
Mae ***Wrecsam*** wedi mabwysiadu 'The Solihul Approach'[48] dan arweiniad tîm amlddisgyblaethol i ddarparu cefnogaeth 1:1 yn y cartref i deuluoedd sydd ag angen cefnogaeth ychwanegol.

*Ffynhonnell: SQW Consulting*

6.72 Pan fo rhieni ag angen cefnogaeth ddwysach, mae ymwelwyr iechyd, gweithwyr rhianta, gweithwyr cefnogi teuluoedd neu seicolegwyr addysg yn gallu darparu cefnogaeth 1:1 i adeiladu eu hyder neu eu gallu i ymgysylltu mewn gweithgarwch grŵp anffurfiol neu ffurfiol. Gellir darparu'r gefnogaeth ddwys hon hefyd ar ôl mynychu cwrs mwy ffurfiol os oes pryderon ynglŷn â datblygiad neu unrhyw bryderon eraill wedi'u nodi. Mewn achosion lle mae teuluoedd yn wynebu anawsterau penodol, gellir datblygu rhaglen o gefnogaeth ddwys lle bydd tîm aml-broffesiwn ar gael i gefnogi'r teulu i ddatblygu sgiliau rhianta ac addasu i heriau.

6.73 Cyflwynwyd enghraifft o'r ymagwedd hon gan bartneriaeth Dechrau'n Deg ***Wrecsam*** mewn digwyddiad rhannu arfer da yn 2009 ac yn ***Rhondda Cynon Taf*** mae'r continwwm hwn wedi'i nodi'n ffurfiol fel amlinelliad o 'Llwybrau

47 http://www.nas.org.uk/earlybird
48 http://www.solihull.nhs.uk/solihullapproach/

Rhieni' sy'n nodi'r mathau o gefnogaeth y gall rhieni eu cael ar wahanol gyfnodau.

***Sefydliadau a staff darparu***

6.74 Mae'r staff sy'n darparu cefnogaeth rhianta Dechrau'n Deg yn amrywio o ardal i ardal. Y dulliau mwyaf cyffredin o weithio yw rhoi'r ddarpariaeth ar gontract i sefydliadau'r sector gwirfoddol gan gynnwys Gweithredu dros Blant, On Track, Barnardo's a Phlant Dewi neu gyflogi cydlynwyr/gweithwyr rhianta dynodedig i gynllunio, rheoli a darparu cefnogaeth rhianta. Yn y ddau achos mae'n gyffredin i ymwelwyr iechyd gydweithio'n agos gyda staff yn cynllunio, rheoli ac yn darparu cefnogaeth rhianta yn ogystal â chefnogi recriwtio ac atgyfeirio rhieni/gofalwyr.

6.75 Ar y cyfan, yn ôl canlyniadau monitro Dechrau'n Deg ar gyfer chwarteri 1-3 2009/10, mae pedwar o bob pum cwrs rhianta (82%) a gynigir yn cael eu darparu gan ddarpariaeth statudol ac mae'r 18% sy'n weddill yn cael eu darparu gan y sector cymunedol a gwirfoddol[49].

6.76 Yn yr ardaloedd hynny lle mae rhaglenni rhianta yn cael eu darparu gan aelodau o dîm Dechrau'n Deg, mae hwn fel rheol yn cael ei arwain gan gydlynydd rhianta ac un neu ddau arweinydd rhianta. Yna mae'r timau hyn yn cael eu cefnogi gan staff sydd wedi'u hyfforddi ar draws y rhaglen gan gynnwys ymwelwyr iechyd, staff LAP, staff gofal plant, gweithwyr cefnogi teuluoedd ac ati. Mae'r model hwn yn gweithio'n dda o ran cefnogi'r gwaith o ddarparu neges gyson ar draws y rhaglen a darparu wynebau cyfarwydd ar y cyrsiau. Mae hefyd wedi peri heriau o ran rhyddhau aelodau o'r tîm i ddarparu rhaglenni gydag ymwelwyr iechyd yn arbennig yn ei chael hi'n anodd ymrwymo'r amser dros gyfnod estynedig y ddarpariaeth.

6.77 Yn ogystal â'r staff sydd ei angen er mwyn darparu'r rhaglen, rhaid darparu cyfleusterau crèche. Golyga hyn bod rhaid darparu rhaglenni rhianta mewn lleoliadau sydd â lle nid yn unig i rieni fynychu'r cwrs ond hefyd sydd â lle

[49] D.S. nid oedd data ar gael ar y math o ddarparwr darpariaeth ar gyfer 34 cwrs (5 cwrs ym Mhowys a 29 yn Abertawe).

priodol ar gyfer darparu crèche. O ganlyniad mae llawer o Bartneriaethau yn ei chael hi'n anodd i ddod o hyd i safleoedd addas sydd o fewn cyrraedd dalgylchoedd Dechrau'n Deg.

***Recriwtio, atgyfeirio a phresenoldeb***

6.78 Mae dau brif lwybr recriwtio ac atgyfeirio i rieni/gofalwyr gael mynediad at gymorth rhianta: cofrestru unigol neu atgyfeirio. Mae cofrestru unigol - neu hunangyfeirio fel y'i gelwir ambell waith - yn fwy tebygol o ddigwydd ar gyfer y gefnogaeth anffurfiol mewn ymateb i hysbysebion a'r gair llafar. Mae gweithwyr proffesiynol sy'n atgyfeirio teuluoedd at y gefnogaeth yn cynnwys: ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymdeithasol, nyrsys, meddygon teulu, staff gofal plant, gweithwyr teulu.

6.79 Nodir at ei gilydd bod recriwtio i gyrsiau rhianta a phresenoldeb yn y cyrsiau hynny yn cynyddu'n gyson wrth i fwy o rieni gael profiadau cadarnhaol ar y cyrsiau ac wrth i'w henw da dyfu trwy'r gair llafar. Fodd bynnag, ar draws bron pob un o'r Partneriaethau, nid yw'r galw eto yn ddigon uchel fel bo'r cyrsiau yn hollol llawn.

6.80 Mae recriwtio yng Nghaerdydd, Torfaen, Caerffili a Chasnewydd wedi'i lesteirio gan eu cyfranogiad yn yr hap-dreial rheoli (RCT) sy'n cael ei ddefnyddio i asesu Rhaglen Cysylltiadau Teuluol: Magu Plant. Mae'r RCT yn ei gwneud yn ofynnol bod 50 y cant o'r holl rieni sydd wedi'u cofnodi i fynychu cwrs yn dod yn grŵp 'triniaeth i ffwrdd' ac felly ni chaniateir iddynt gael mynediad ar y cwrs nes bod y treial wedi'i gwblhau. Roedd hyn yn golygu bod rhaid i'r timau rhianta weithio ddwywaith mor galed i ymgysylltu rhieni. Mae'r RCT i fod i gael ei gwblhau ym mis Ebrill 2010. Mae rhai'n pryderu y bydd y rhieni hynny sydd wedi cael eu gohirio rhag cymryd rhan yn y rhaglen rhianta yn gyndyn i ymgysylltu pan fydd yr astudiaeth wedi'i chwblhau oherwydd erbyn hynny bydd y plant yn cael mynediad at ddarpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg. Mae rhai rhieni yn meddwl mai cyfrifoldeb y darparwr gofal plant (a'r ysgol yn y pen draw) yw materion ymddygiad bryd hynny a gellid colli'r cyfle i'w hymgysylltu â deall eu rôl yn ymddygiad eu plant.

***Crynodeb o gyflenwi darpariaeth rhianta Dechrau'n Deg***

6.81 Sefydlodd y mwyafrif o Bartneriaethau Dechrau'n Deg gynnig cefnogaeth rhianta cydlynol sydd yn:

- ceisio ymgysylltu rhieni mewn ystyried eu rôl yn natblygiad ac ymddygiad eu plant
- eu cefnogi i ystyried y rôl honno ymhellach trwy fynychu cyrsiau rhianta ffurfiol
- darparu cefnogaeth fwy dwys, os oes angen, i fynd i'r afael â materion penodol.

6.82 Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod gan rai ardaloedd gynnig rhianta sydd heb ei ddatblygu lle mai ychydig o gyrsiau sydd yn cael eu darparu a heb y continwwm o gefnogaeth y mae Partneriaethau eraill wedi'i weld yn effeithiol.

6.83 Mae sefydlu cynnig rhianta wedi cymryd amser a buddsoddiad sylweddol mewn hyfforddiant ac mae'n dibynnu ar i aelodau o dîm ehangach Dechrau'n Deg fod ar gael i gynorthwyo cyrsiau. Gall hyn fod yn anodd pan fo gwasanaethau yn gweithio i lefelau staffio tynn ac yn rheoli salwch ac absenoldeb. Mae hyn o bosib yn esbonio'r amrywiaeth mewn perfformiad ar draws y Partneriaethau o ran darparu'r hawl rhianta.

## Crynodeb a sylwadau cloi

6.84 Wedi tair blynedd o ddarparu Dechrau'n Deg mae'r Partneriaethau wedi gwneud cynnydd trawiadol o ran darparu'r hawl i ofal plant ac o ran darparu cymysgedd amrywiol o Iaith a Chwarae ar draws y Partneriaethau. Mae mwy o amrywiaeth yn narpariaeth yr hawliau ymweliadau iechyd a rhianta. Ar y cyfan, mae hanner neu ragor o'r Partneriaethau yn agos at fod wedi sefydlu rhaglen lawn o wasanaethau ar draws y pedwar prif hawl.

6.85 Mae hwn yn gyflawniad sylweddol ag ystyried yr heriau y bu'n rhaid eu hwynebu a phan ystyrir y profiad mewn mannau eraill. Canfu Gwerthusiad Cenedlaethol o raglen Cychwyn Cadarn yn Lloegr bod y dasg o sefydlu ei rhaglen blynyddoedd cynnar '*yn amlwg yn un llawer mwy cymhleth ac yn*

*cymryd mwy o amser nag y tybiwyd yn wreiddiol gan y gwneuthurwyr polisi a luniodd y fenter*[50]. Daeth i'r casgliad ei bod wedi cymryd o leiaf tair blynedd cyn bod y rhaglenni Cychwyn Cadarn mewn 'cyflwr sefydlog' gweithredol ac nid oedd rhaid iddynt wynebu'r heriau a osodwyd ar gyfer y Partneriaethau Dechrau'n Deg (e.e. o ran llwyth achosion ymweliadau iechyd).

6.86 Mae rhai ystyriaethau sy'n weddill mewn perthynas â'r amrywiaeth ar draws Partneriaethau o ran darparu hawliau Dechrau'n Deg a'r tensiwn rhwng yr hawliau a ragnodir yn genedlaethol a'u priodoldeb ar lefel leol. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r materion canlynol yn barhaus a dylid gwneud ymdrech i'w datrys lle bo angen:

- **Gofal plant**: A ddylid adolygu ac os oes angen, mynd i'r afael â'r lleoedd gwag o ran sesiynau gofal plant a ddarperir trwy gynnig hyblygrwydd i Bartneriaethau i addasu natur yr hawl rhagnodedig (h.y. 2.5 awr, 5 diwrnod yr wythnos)?
- **Ymweliadau iechyd**: A yw hi'n angenrheidiol ac yn bosibl i'r hawl rhagnodedig presennol – sydd wedi'i fynegi yn nhermau llwyth achosion ymwelwyr iechyd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg – gael ei ddiwygio i adlewyrchu cynnig ehangach o gymorth iechyd gan gynnwys sgiliau eraill megis gweithwyr cefnogi teuluoedd a therapyddion lleferydd ac iaith?
- **Rhianta**: A ddylai'r amrywiaeth a welwyd ym maint yr hawl rhianta ar draws Partneriaethau gael ei leihau trwy nodi lefelau isaf o ddarpariaeth?
- **LAP**: A oes angen i'r hawl LAP – sy'n boblogaidd ac y mae ymarferwyr yn ei ystyried yn gyflwyniad da i ddatblygiad iaith - gael ei adolygu o ran ei botensial i gyflawni canlyniadau iaith disgwyliedig Dechrau'n Deg?

[50] Allnock, D, McLeod, A, Meadows, P & Tunstill, J, *Sure Start National Evaluation: Early Experiences of Implementing Sure Start,* Gwerthusiad Cenedlaethol Cychwyn Cadarn (NESS), Mehefin 2002.

# 7: Effeithiolrwydd

## Cyflwyniad

7.1 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ystyried effeithiolrwydd y gwasanaethau a'r gefnogaeth a ddisgrifiwyd yn yr adrannau blaenorol.

7.2 Mae ystyriaethau o 'effeithiolrwydd' yn gyffredinol angen asesiad o i ba raddau y mae rhaglen a werthuswyd wedi cyflawni ei dyhead, cerrig milltir a thargedau. Mewn achos rhaglen gydag amcanion hir dymor iawn (fel Dechrau'n Deg), yn aml bydd angen asesu cynnydd yn erbyn allbynnau a chanlyniadau canolraddol yn hytrach na chanlyniadau terfynol. Dyna pam fod y gwerthusiad interim hwn yn ymwneud yn bennaf ag asesu'r cynnydd sydd wedi ei gyflawni gan Dechrau'n Deg wrth sefydlu'r llwybr cywir i sicrhau canlyniadau cadarnhaol tymor hwy ar gyfer y plant sy'n elwa gan y rhaglen.

## Cynnydd

7.3 Dros y tair blynedd y mae'r Partneriaethau wedi bod yn darparu Dechrau'n Deg, maent wedi gwneud cynnydd graddol o ran datblygu'r hawliau a sicrhau bod y boblogaeth gymwys yn ymwybodol ohonynt ac yn eu defnyddio. Mae'r cynnydd wedi ei hamserlennu'n gyffredinol fel a ganlyn:

- **Blwyddyn 1 2007/08** - sefydlu trefniadau rheoli a llywodraethu priodol, buddsoddi mewn lleoliadau, trafod trefniadau cyd-leoli, recriwtio staff i'r rhaglen a sefydlu'r cynnig gofal plant gwreiddiol
- **Blwyddyn 2 2008/09** - gwreiddio arferion gweithio amlasiantaeth drwy weithgareddau rhwydweithio ar y cyd a rhoi ar waith systemau i gefnogi rhannu gwybodaeth, cyflwyno dulliau i asesu ansawdd darpariaeth a bodlonrwydd gyda derbyn gwasanaethau
- **Blwyddyn 3 2009/10** - cynyddu swm y ddarpariaeth gwasanaeth, adolygu a mireinio gwasanaethu a gwella gwybodaeth a dealltwriaeth staff drwy weithgareddau hyfforddiant a datblygu ar gyfer y rhaglen gyfan a chynyddu ymwybyddiaeth o'r angen i fonitro a gwerthuso'r rhaglen

7.4 Nawr mae’r adroddiad yn symud y tu hwnt i ystyriaeth ar gyfer cynnydd y Partneriaethau mewn adeiladu gallu a darparu’r hawliau i asesu eu heffeithiolrwydd gweithredol. Mae’r dystiolaeth am effeithiolrwydd ac arfer da a gynhyrchwyd gan y gwerthusiad yn disgyn i ddau gategori cyffredinol. Mae’r cyntaf yn ymwneud ag arferion sy’n gyffredin ar draws y rhaglen, tra bod yr ail yn ymwneud ag arferion sydd wedi ymddangos o nifer fechan o ardaloedd, neu yn wir ardal unigol.

7.5 Wedi ystyried y ddau gategori hwn, rydym wedyn yn asesu’r hyblygrwydd a ddefnyddiwyd i strwythuro a darparu’r rhaglen; effeithiolrwydd yr ymagwedd amlasiantaeth tuag at ddarpariaeth; a pha gyfuniad o hawliau, ac ymyriadau eraill, sy’n gweithio orau o ran canlyniadau cadarnhaol ar gyfer blynyddoedd cynnar.

7.6 Agweddau cyffredin ar effeithiolrwydd ac arfer da

***Ymgysylltu a chyrraedd drwy weithio amlasiantaeth***

7.7 Un agwedd arbennig o lwyddiannus rhaglen Dechrau’n Deg yw ei bod wedi cynyddu’n sylweddol hygyrchedd gwasanaethau drwy ddarparu hawliau yn lleol ac yn seiliedig ar y gymuned a chyd-leoliad gwasanaethau mewn lleoliadau lleol newydd neu mewn lleoliadau neu ganolfannau cymunedol sy’n bodoli’n barod (megis Canolfannau Plant Integredig). Mae’r ymagwedd hon wedi gweld lefelau cynyddol ac uwch o rai yn defnyddio’r hawliau ac mae iddi hefyd y budd ychwanegol o gynyddu ymgysylltiad mewn gwasanaethau ehangach. Canfu'r astudiaethau achos lleol a gynhaliwyd yn 2008 bod ymagwedd amlasiantaeth Dechrau’n Deg mewn nifer o ardaloedd wedi gwneud cyfraniad mawr i ddatblygiad gwell gweithio amlasiantaethol ar draws gwasanaethau prif ffrwd.

7.8 Mae’r rhaglen hefyd wedi bod yn effeithiol iawn mewn adeiladu perthynas ac ymgysylltu gyda’r teuluoedd hynny sy’n draddodiadol anos eu cyrraedd, neu y mae eu hymgysylltiad â gwasanaethau prif ffrwd yn fychan. Mae’n ymddangos bod llwyddiant Dechrau’n Deg o ran hyn wedi ei gyflawni drwy:

- rôl ymweliadau cartref - yn ***Abertawe*** mae staff hawl gofal plant a rhianta yn cynnal ymweliadau cartref mewn ymdrech i annog ymgysylltiad ac i feithrin perthynas ac ymddiriedaeth gyda'r rhieni
- natur bersonol darpariaeth gwasanaeth, megis yn ***Sir Benfro*** lle mae'r Gweinyddesau Meithrin yn gweithio yn y gymuned, gan feithrin perthynas gyda theuluoedd ac yn aml yn mynd â hwy draw i'r ddarpariaeth.

7.9 Mae natur gyffredinol darpariaeth, er bod hynny mewn dalgylchoedd penodol, hefyd wedi sicrhau manteision ychwanegol o alluogi'r rhaglen i gael ei darparu heb stigma i'r teuluoedd hynny sy'n ymgysylltu ynddi. Nid yw rhieni yn ei hystyried fel ymyrraeth sydd ei hangen oherwydd bod problem gyda'u rhianta.

7.10 Mae ymgysylltiad tymor hir rhieni wedi cynyddu wrth i'r rhaglen ddatblygu ac mae wedi cael ei chynorthwyo'n fawr drwy ddatblygiad rhaglenni cefnogi rhianta aml-lefel sy'n darparu cyrsiau i fodloni anghenion ystod o wahanol rieni mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Roedd hyn yn cynnwys:

- darpariaeth cyrsiau sylfaenol yn canolbwyntio ar gynyddu hunan barch a hyder
- cyrsiau mwy datblygedig i leihau straen, rheoli tymer, delio gydag ymddygiad anodd (megis cwrs Llinell Rhieni a Mwy)
- cyrsiau hirach wedi eu hanelu at wella sgiliau rhianta (megis cwrs y Blynyddoedd Rhyfeddol).

7.11 Nod yr ymagwedd aml-lefel hon oedd adeiladu a datblygu'n raddol hyder rhieni dros gyfnod o amser fel bod cyrsiau sy'n canolbwyntio ar well sgiliau rhianta yn fwy tebygol o ddeillio ar newid ymddygiadol cynaliadwy. Mae nifer o ardaloedd wedi gweld hon yn ymagwedd effeithiol mewn cynnwys tadau sydd yn aml wedi ymddieithrio o'r broses rhianta.

***Mynd i'r afael ag angen***

7.12 Drwy wella mynediad at wasanaethau yn rhai o'r ardaloedd sy'n dioddef fwyaf o amddifadedd yng Nghymru ac ymgysylltu'n llwyddiannus â rhieni a'r rheiny sy'n draddodiadol anos eu cyrraedd, mae'r rhaglen hefyd wedi cael budd

‘dilynol’ o allu gweithio gyda’r teuluoedd hynny sydd â’r lefel uchaf o angen - rhai sy’n dioddef fwyaf o amddifadedd.

7.13 Mae’r ffaith bod y rhaglen yn canolbwyntio ar flynyddoedd cynnar hefyd wedi galluogi iddi fod yn arbennig o effeithiol mewn canfod anghenion yn gynharach yn ogystal â materion neu broblemau ehangach a wynebir gan y teulu. Drwy bob un o’r hawliau, gall rhaglen Dechrau’n Deg ymgysylltu gyda’r plentyn a’r teulu yn fwy dwys ac ar bwynt cynharach yn natblygiad y plentyn nag a fyddai’n bosibl fel arall. Mae’r ystod o weithwyr proffesiynol sy’n gweithio gyda’r un plentyn a theulu hefyd yn cynorthwyo’n fawr gyda’r broses hon. Mae’r cysylltiad amlasiantaeth hwn yn galluogi i faterion gael eu hategu a phroblemau eraill i gael eu canfod megis trais domestig, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, dyled a materion tai.

7.14 Nid dim ond gwneud y broses o ganfod problemau yn haws y mae Dechrau’n Deg, mae hefyd yn cynorthwyo’n fawr i liniaru’r problemau hyn gan ei fod yn rhoi llwybrau atgyfeirio effeithiol naill ai i hawliau Dechrau’n Deg neu i wasanaethau cyffredinol ehangach. Ystyriwyd y cysylltiadau hyn yn hollbwysig i lwyddiant y rhaglen gan eu bod yn galluogi i’r llu o broblemau a wynebir i gael eu taclo gan y cyfuniad mwyaf effeithiol o wasanaethau yn hytrach na gorlwytho un gwasanaeth penodol. Mae hyn, ynghyd â nodi anghenion yn gynharach, hefyd yn cynorthwyo i atal materion rhag cynyddu, ac yn aml yn lleihau’r angen i roi plant ar y gofrestr amddiffyn plant (gweler y bennod nesaf).

***Cefnogaeth o ansawdd gwell***

7.15 Mae Dechrau’n Deg wedi creu a datblygu perthynas waith arbennig o effeithiol gydag ysgolion lleol. Mewn nifer o achosion mae’r berthynas wedi cael ei gwella’n sylweddol drwy gyd-leoli hawliau gofal plant gyda’r ysgol, neu ddefnydd o adeilad yr ysgol ar gyfer darparu hawliau eraill megis cyrsiau rhianta. Mae’n ymddangos bod y cydweithio agos hwn wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol mewn dwy ffordd:

- mae wedi annog rhieni i ymgysylltu mwy gyda’r ysgol ac felly eu gwneud yn fwy tebygol i ddod â’u plentyn i’r ysgol yn fwy rheolaidd

- mae wedi cynorthwyo yn y pontio rhwng meithrin a'r ysgol ar gyfer plant Dechrau'n Deg - nid yn unig y maent wedi eu paratoi'n well yn gymdeithasol ac emosiynol (gweler yr adran nesaf), ond maent hefyd wedi arfer mwy gyda'r drefn ddyddiol o fynd i safle'r ysgol.

7.16 O gofio hyn, mae hi hefyd yn amlwg bod ymagwedd amlasiantaeth Dechrau'n Deg wedi bod yn effeithiol. Tra bod problemau a chymhlethdodau yn parhau o ran cael gwahanol asiantaethau i weithio gyda'i gilydd (megis rhannu gwybodaeth), gwnaed cynnydd sylweddol mewn sefydlu perthynas weithio gydweithredol, gref rhwng asiantaethau perthnasol. Ar draws y rhaglen mae cysylltiadau da wedi eu creu rhwng y gwahanol hawliau sydd nid yn unig wedi deillio ar draws-atgyfeirio rhwng hawliau ond hefyd cyd-ddarparu rhai gweithgareddau.

7.17 Mewn nifer o ardaloedd mae'r timau amlasiantaeth wedi eu hategu hefyd gan recriwtiad grŵp ehangach o staff proffesiynol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, gweinyddesau meithrin, therapyddion lleferydd ac iaith, bydwragedd a dietegwyr. Ar gyfer yr ardaloedd hynny sydd wedi eu recriwtio, mae'r sgiliau ychwanegol y maent wedi ychwanegu i'r rhaglen wedi bod yn werthfawr dros ben.

- ***Pen-y-bont ar Ogwr***: Mae gwaith y gweithiwr cymdeithasol a dau weithiwr cefnogi teulu wedi galluogi'r rhaglen i ymyrryd ym mywydau teuluoedd 'mewn perygl' ac i ddarparu amrediad o gefnogaeth sydd ei hangen, rhai ohonynt a fyddai fel arall y tu hwnt i gylch gwaith penodol Dechrau'n Deg
- ***Torfaen***: Mae'r Gweinyddesau Meithrin Iechyd Cymunedol yn gweithio gyda'r ymwelwyr iechyd a'r bydwragedd drwy becynnau hir o ofal a chymorth ar gyfer y teuluoedd hynny sydd â'r angen mwyaf
- ***Castell-nedd Port Talbot***: Mae presenoldeb Seicolegydd Addysg yn y lleoliadau gofal plant wedi cynorthwyo i hwyluso adnabyddiaeth gynnar o blant gydag anghenion arbennig

- ***Abertawe***: Mae'r therapydd lleferydd ac iaith yn asesu anghenion cyfathrebu ac iaith yr holl blant hynny sy'n cyrchu'r ddarpariaeth gofal plant ac yn rhoi ar waith raglen o ymyriadau yn ôl y galw.

7.18 Cefnogwyd hefyd ansawdd staff drwy ymrwymiad i, a buddsoddiad mewn, datblygiad a hyfforddiant staff. Teimlodd nifer o ardaloedd bod y buddsoddiad hwn wedi gwella ansawdd y ddarpariaeth.

- ***Rhondda, Cynon***, ***Taf***: Mae'r tîm Dechrau'n Deg wedi cynnal archwiliad o'r holl weithlu gofal plant ac wedi sefydlu cronfa ddata sy'n nodi cyrsiau a fynychwyd yn ogystal â sbardunau pan fydd angen rhagor o hyfforddiant
- ***Gwynedd***: Mae'r hyfforddiant therapi lleferydd ac iaith ar gyfer ymwelwyr iechyd wedi galluogi iddynt atgyfeirio'n fwy manwl gywir
- ***Sir Gaerfyrddin***: Mae'r hyfforddiant amddiffyn plant a gynigir i ddarparwyr gofal plant wedi eu cefnogi i weithio gyda theuluoedd 'mewn perygl' a datblygu ansawdd y ddarpariaeth leol.

7.19 Yn olaf, ar draws y rhaglen mae'n amlwg bod yna lefelau uchel o fodlonrwydd a galw cryf am y gwasanaeth a ddarperir. Er enghraifft, yng Nghaerffili graddiodd 89% o'r rhieni a holwyd y gwasanaethau Dechrau'n Deg yr oeddent yn eu defnyddio fel "da iawn", gyda'r 11% arall yn eu graddio fel "da"; yn Sir Ddinbych mae'r cyfraddau cadw ar gyfer cyrsiau rhianta wedi bod rhwng 90% a 100%; ac ym Mhowys roedd y nifer oedd yn defnyddio hawl Gofal Plant rhwng 70% a 75%.

## Enghreifftiau penodol o arfer da

7.20 Yn ychwanegol at yr agweddau cyffredin o effeithiolrwydd ac arfer da a ddisgrifiwyd nawr, canfu'r gwerthusiad enghreifftiau penodol o effeithiolrwydd ac arfer da ymhlith y Partneriaethau. Efallai eu bod yn benodol oherwydd yr amgylchiadau arbennig ym mha rai yr oedd y Bartneriaeth yn gweithredu neu oherwydd na fu amser hyd yma i rannu'r arfer ymhlith Partneriaethau eraill. Mae Tabl 0-1 yn rhoi detholiad o'r nifer o wahanol enghreifftiau a ganfuwyd yn yr adroddiadau astudiaeth achos.

Tabl 0-1: Enghreifftiau penodol o effeithiolrwydd ac arfer da

| Ardal Astudiaeth Achos | Enghraifft |
|---|---|
| Blaenau Gwent | Ymglymiad rhieni yn y broses recriwtio ar gyfer gwarchodwyr plant a chydlynwyr Dechrau'n Deg yn ogystal â gwahodd adborth rheolaidd gan rieni am bob un o'r lleoliadau gofal plant. |
| Caerffili | Datblygiad fforymau rhieni wedi bwriadu i roi 'llais' gweithredol i rieni mewn gweithgareddau Dechrau'n Deg. |
| Sir Gaerfyrddin | Defnydd o ddysgu gweithredol er mwyn cynorthwyo i hyrwyddo newid mewn diwylliant ac arferion gweithio ar draws y tîm amlasiantaeth. |
| Sir y Fflint | Datblygiad ymagwedd teulu cyfan i ddarparu gwasanaeth sydd wedi ei arwain gan iechyd ond sy'n gweithredu fel gwasanaethau arwyddbostio a brocera gwasanaeth cyhoeddus i ymdrin â'r sbectrwm ehangach o faterion sy'n effeithio ar y teulu, yn cynnwys amddifadedd, diffyg sgiliau rhianta, rheolaeth ariannol a thai. |
| Gwynedd | Datblygu 'contract' i'w ddefnyddio gyda rhieni sy'n amlinellu eu cyfrifoldebau o ran ymgysylltu gyda darpariaeth Dechrau'n Deg - y diben yw atal rhieni rhag dim ond manteisio ar y gofal plant am ddim a pheidio ag ymgysylltu gyda'r hawliau eraill. |
| Sir Fynwy | Datblygiad rhaglen maethiad sydd wedi ymgysylltu rhieni mewn gweithdai coginio a maethiad gyda'r nod o hyrwyddo bwyta iach. |
| Torfaen | Targedu cefnogaeth iechyd meddwl cymunedol i'r rhieni hynny a nodir fel eu bod yn dioddef o faterion iechyd meddwl mamol, gyda'r nod o atal yr angen am atgyfeirio i wasanaethau iechyd meddwl eilaidd. |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Mae darpariaeth Dechrau'n Deg wedi ei seilio ar ymagwedd 'gyffredinol ond wedi'i thargedu' tuag at ddarparu gwasanaeth. Mae'r ymagwedd hon yn gweld gwneud y pedwar hawl ar gael i bob teulu cymwys gyda chefnogaeth ychwanegol yn cael ei darparu i'r rheiny sydd â lefel uwch o angen. |
| Wrecsam | Datblygiad ddulliau penodol i rieni eu defnyddio yn y cartref fel y gallant barhau i fodelu'r ymddygiad y maent wedi ei ddysgu drwy gyrsiau LAP, gofal plant a rhianta. Mae'r dulliau hyn hefyd yn galluogi cefnogaeth i gael ei darparu i'r rhieni hynny sy'n anoddach eu cyrraedd, neu sy'n llai parod i ymgysylltu mewn gweithgaredd grŵp. |

*Ffynhonnell: SQW Consulting*

## Y lefel gywir o hyblygrwydd?

7.21 O fewn gofynion rhagnodol y rhaglen mae graddau sylweddol o hyblygrwydd i ganiatáu Partneriaethau i gynllunio a darparu hawliau mewn ffyrdd sy’n adeiladu ar ac yn ffitio gyda strwythurau ac arferion lleol sy’n bod yn barod a hwyluso ymatebolrwydd i anghenion lleol.

7.22 Casgliad y gwerthusiad yw bod Dechrau’n Deg yn wir yn darparu'r cydbwysedd cywir rhwng fframwaith rhagnodol ar gyfer darparu a rhoi ar waith, a darpariaeth sy’n agored i ddehongliad lleol. Ar y cyfan croesawyd y cydbwysedd hwn a theimlwyd ei fod yn gywir. Y farn oedd bod natur ragnodol y rhaglen yn rhoi canllawiau clir, yn arbennig y gofynion darparu a nodwyd, ac yn cynorthwyo yn y broses darparu. Gwelwyd hefyd bod yr eglurder ynglŷn â beth oedd ei angen yn gymorth wrth negodi a thrafod gyda phartneriaid gan ei fod yn rhoi sylfaen gref ar gyfer rheoli disgwyliad ac arwain trafodaethau. Ar y cyfan ystyriwyd y gofynion darparu a’r targedau manwl i fod yn briodol ac yn realistig ac yn cynorthwyo darpariaeth.

7.23 O fewn y fframwaith rhagnodedig hwn, mae’n glir bod yr ardaloedd yn gallu defnyddio a theilwra Dechrau’n Deg i’r cyd-destun lleol penodol a hefyd yn gwneud hynny. Mae’n hyblygrwydd sy’n galluogi Dechrau’n Deg i ymateb i anghenion lleol penodol; i fanteisio ac adeiladu ar ddarpariaeth leol sy’n bodoli’n barod; ac i arloesi a threialu ymagweddau newydd tuag at ddarparu. Mae’r hyblygrwydd hwn yn bodoli nid yn unig o fewn y pedwar hawl a’r ystod o wasanaethau a dewisiadau y gellir eu datblygu, ond hefyd ar ymylon y rhaglen lle mae gan dimau y cwmpas i benodi staff ychwanegol i gefnogi ac ategu’r ddarpariaeth graidd.

7.24 odd bynnag, tra yr oedd nifer o Bartneriaethau yn deall ac yn derbyn yr angen am fframwaith rhagnodol, roedd rhai pryderon ynglŷn ag agweddau penodol o’r fframwaith a oedd wedi eu sefydlu a’u canlyniadau ar effeithiolrwydd y rhaglen, yn arbennig y canlynol:

- roedd yr ardaloedd targed daearyddol a ddiffiniwyd yn dynn yn golygu na allai’r awdurdodau lleol hynny gyda lefelau eang o amddifadedd

dargedu a darparu i rai teuluoedd gyda lefelau arbennig o uchel o angen

- ni ellid bodloni'r angen i rai teuluoedd dderbyn rhagor na 2.5 awr o ddarpariaeth gofal plant dyddiol
- roedd y gofyniad i ddarparu gofal plant am 42 wythnos o'r flwyddyn yn golygu bod yr arian yn aml yn cael ei wastraffu gan fod nifer o wythnosau yn ystod gwyliau ysgol yr haf pan oedd y rhai oedd yn ei ddefnyddio yn isel iawn
- teimlai rhai bod y llwyth achos o 1:110 ar gyfer ymwelwyr iechyd yn fympwyol, gan roi dim ystyriaeth i ddyfnder y galw, neu ddwysedd y ddarpariaeth oedd ei hangen gan deuluoedd unigol
- yr angen am arweiniad mwy rhagnodol ynglŷn â monitro a gwerthuso'r rhaglen.

## Ymagwedd amlasiantaeth effeithiol?

7.25 Mae gweithio amlasiantaeth yn sail i Dechrau'n Deg. Dywed canllawiau Dechrau'n Deg:

> *'…bydd yn hollbwysig i lwyddiant bod Dechrau'n Deg yn cael ei datblygu ar sail gweithio mewn partneriaeth, cyd-ymwybyddiaeth rhwng y disgyblaethau a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig, trefniadau clir ar gyfer rhannu gwybodaeth, ac ar sail ymgysylltu â chymunedau sydd wedi eu targedu sy'n grymuso'r rheini yn lleol. Rhaid gwneud cysylltiadau gweithredol rhwng gweithwyr proffesiynol iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg lleol'.*
>
> Canllawiau Dechrau'n Deg 2006-7 a 2007-8

7.26 Mae'r graddau y mae Partneriaethau Dechrau'n Deg yn gweithredu mewn 'ymagwedd amlasiantaeth' yn hytrach na 'gweithio ar y cyd' neu 'ymagwedd integredig' yn amrywio yn ddibynnol iawn ar y trefniadau rhagflaenol yn yr ardal. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, y casgliad o'r gwerthusiad yw bod gweithio amlasiantaeth/ar y cyd wedi cynorthwyo'n sylweddol effeithiolrwydd ac wedi cynorthwyo mewn cyflawni nodau cyffredinol y rhaglen. Fe'i gwelwyd

nid yn unig i wella mynediad at wasanaethau drwy gyd-leoli a darparu ar y cyd ond hefyd i ddwyn ynghyd a chydlynu'r ystod angenrheidiol o sgiliau, gwybodaeth a phersbectifau i alluogi'r rhaglen i nodi a bodloni anghenion - gan ddarparu ymyriadau ac ymatebion wedi eu teilwra i sicrhau bod y gwasanaethau a'r gefnogaeth fwyaf priodol yn eu lle.

7.27 Mae'n ymagwedd y teimlwyd iddi fod wedi'i chynorthwyo gan eglurder ynglŷn â gofynion, disgwyliadau clir ar gyfer darpariaeth a dealltwriaeth gref - a pherthynas waith agos - gyda'r gweithwyr proffesiynol eraill yn y tîm Dechrau'n Deg. Er mwyn hwyluso hyn mae'r ardaloedd yn gyffredinol wedi ceisio cyd-leoli staff gymaint â phosibl a chyn belled â phosibl i greu teimlad o dîm amlddisgyblaeth (yn hytrach na phartneriaeth o weithwyr proffesiynol).

7.28 Er mwyn cynorthwyo'r broses hon mae Partneriaethau wedi rhoi ystod o strategaethau gwahanol ar waith. Er enghraifft, ym Mhen-y-bont ar Ogwr mae'r rheolwr Dechrau'n Deg a chydlynydd CYPP wedi sefydlu tair egwyddor 'anghyfnewidiadwy' ar gyfer gweithio amlasiantaeth:

- y Rheolwr Dechrau'n Deg sy'n rheoli'r rhaglen ac felly'n gwneud rhai penderfyniadau ac â'r gair olaf ar eraill
- mae cyd-leoli yn anghenraid
- mae'n rhaid bod parodrwydd i weithio fel rhan o dîm amlasiantaeth

7.29 Yn Sir Benfro mae'r tîm wedi sefydlu dau gyfarfod amlasiantaeth rheolaidd: 'cyfarfodydd rhwydwaith' sy'n digwydd unwaith y tymor, yn cynnwys pawb sy'n darparu'r rhaglen ac yn rhoi cyfle gwych i ddeall beth mae pawb yn ei wneud, i ddarparu diweddariad ar bolisi, i nodi problemau a materion ac i ddathlu llwyddiant; a 'cyfarfodydd gweithredol', cyfarfodydd llai sy'n cynnwys cynrychiolydd o bob elfen o'r rhaglen Dechrau'n Deg gyda'r nod o drafod a cheisio datrys unrhyw faterion a godwyd yn y cyfarfodydd rhwydwaith neu mewn mannau eraill.

7.30 Caiff arwyddocâd, ac yn wir llwyddiant, ymagwedd amlasiantaeth Dechrau'n Deg ei chefnogi ymhellach gan y ffaith bod nifer o ardaloedd awdurdod lleol

yn ceisio adeiladu arni a'i chopïo wrth iddynt weithredu'r ymagwedd Team Around the Child (TAC)[51] tuag at gyfenwi gwasanaeth.

7.31 Ni fu datblygiad yr ymagwedd amlasiantaeth heb ei anawsterau a'i gyfyngiadau, ac nid yw o reidrwydd wedi digwydd yn hawdd. Mae'n ymagwedd sy'n rhaid gweithio'n ymwybodol arni, gan dreulio amser ac ymdrech i ddatrys materion ac i gael newid diwylliant gwirioneddol yn y ffordd y mae gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd. Mae hyn yn cynnwys newidiadau mewn agweddau, ymagwedd a diwylliant o ran:

- pryderon ynglŷn â chyfrinachedd a gochelgarwch proffesiynol mewn rhyddhau gwybodaeth i wasanaethau eraill
- meddylfryd seilo a'r farn bod safbwyntiau rhai proffesiynau yn fwy dilys
- rhannu data ar draws gwahanol systemau TG
- gwahanol bolisïau datblygiad proffesiynol
- graddfeydd cyflog amrywiol
- gwahanol weithdrefnau rheoli.

7.32 Er gwaethaf yr amser a'r ymdrech (barhaus) sydd ei hangen i fynd i'r afael â'r materion hyn, y farn ar draws yr ardaloedd astudiaethau achos oedd bod y manteision yn gorbwyso'r costau.

## Y cyfuniad cywir o hawliau?

7.33 Mae deall pa gyfuniad o hawliau yw'r mwyaf effeithiol i fodloni anghenion lleol yn gwestiwn pwysig, ac yn un sy'n debygol o ddod yn fwyfwy pwysig mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol a chyfyngu ar adnoddau. Mae wedi dod yn amlwg yn ystod y gwerthusiad bod, i raddau helaeth, effeithiolrwydd y rhaglen wedi ei seilio ar gyfuniad o hawliau, yn hytrach na hawliau unigol.

7.34 Dangoswyd hyn yn yr agweddau ar effeithiolrwydd a drafodwyd yn gynharach yn yr adran hon ond fe ddywedwyd hynny hefyd gan nifer o'r partneriaid a'r

[51] Mae TAC yn fodel o ddarpariaeth gwasanaeth amlasiantaeth. Mae TAC yn dwyn ynghyd amrediad o wahanol ymarferwyr ledled y gweithlu plant a phobl ifanc i gefnogi plentyn neu berson ifanc unigol a'i deulu. |Mae aelodau TAC yn datblygu ac yn darparu pecyn o gefnogaeth wedi ei ganolbwyntio ar ddatrysiadau i fodloni anghenion a nodwyd drwy'r asesiad cyffredin. Ffynhonnell: http://publications.everychildmatters.gov.uk/eOrderingDownload/LeadPro_Managers-Guide.pdf

rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y gwerthusiad. Mae llwyddiant yn dibynnu nid ar ba hawl penodol a ddarperir ond yn hytrach ar sut y caiff yr hawliau eu darparu a'u cyfuno i greu 'pecyn' o ymyriadau sy'n mynd i'r afael ag anghenion penodol teulu.

7.35 Fodd bynnag, ysgogydd allweddol effeithiolrwydd Dechrau'n Deg yw ei allu i ymgysylltu plant a theuluoedd ac mae'r hawliau gofal plant ac ymweliadau iechyd yn hollbwysig i gyflawni hyn:

- ymwelwyr iechyd gan mai hwy yw'r prif bwynt cyswllt
- gofal plant oherwydd bod y lleoliadau yn aml wedi dod yn ganolbwynt ar gyfer y rhaglen, gan ddarparu canolfan ffisegol ar gyfer darparu gweithgareddau a gwasanaethau.

7.36 Nid dim ond oherwydd y pecyn o hawliau yr oedd yn ei gynnig yr oedd Dechrau'n Deg yn effeithiol, ond oherwydd y cysylltiadau yr oedd yn eu hwyluso gyda mentrau ariannu dewisol a gwasanaethau prif ffrwd eraill. Golyga hyn weithio agos iawn gyda Cymorth (yn arbennig gyda LAP a NAP, rhaglenni rhianta a defnyddio arian Cymorth i ddarparu 'gwasanaethau Dechrau'n Deg' yn fwy eang ar draws yr awdurdod lleol), a hefyd Cymunedau yn Gyntaf, Genesis II darpariaeth prif ffrwd megis gwasanaethau deintyddol, gwasanaethau iechyd meddwl a chefnogaeth trais domestig.

## Crynodeb a sylwadau cloi

7.37 Adolygodd y gwerthusiad effeithiolrwydd rhaglen Dechrau'n Deg a daeth i'r casgliad ei bod wedi:

- cynyddu'n sylweddol hygyrchedd gwasanaethau sydd yn ei dro wedi arwain at lefelau cynyddol ac uwch o rai yn defnyddio'r gwasanaethau yn ogystal â mwy o ymgysylltu mewn gwasanaethau ehangach
- meithrin cysylltiadau'n effeithiol ac ymgysylltu gyda'r teuluoedd hynny sydd yn draddodiadol anoddach eu cyrraedd, neu y mae eu hymgysylltiad â gwasanaethau prif frwd yn isel iawn
- ymgysylltu rhieni ym mywydau eu plant
- gweithio gyda'r teuluoedd hynny sydd â'r lefel uchaf o angen

- canfod anghenion yn gynharach yn ogystal â materion neu broblemau ehangach
- creu llwybrau atgyfeirio effeithiol i naill ai i hawliau Dechrau'n Deg neu i wasanaethau cyffredinol ehangach
- datblygu perthynas waith effeithiol gydag ysgolion lleol a wnaeth gynorthwyo'n fawr y symud o Dechrau'n Deg, i'r meithrin, i'r ysgol
- sefydlu ymagwedd amlasiantaeth effeithiol tuag at ddarparu
- recriwtio grŵp ehangach o staff proffesiynol i ddiwallu anghenion lleol yn well
- buddsoddi mewn datblygiad staff a hyfforddiant
- cyflawni ar y cyfan lefelau uwch o fodlonrwydd a galw cryf am y gwasanaethau.

7.38 Caiff Dechrau'n Deg ei gweld ar hyn o bryd gan Dimau Partneriaeth Dechrau'n Deg fel: rhaglen sydd wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng darparu cyfarwyddyd rhagnodol a chaniatáu hyblygrwydd lleol ac ysgogi ymagweddau amlasiantaeth at ddarparu. Mae'r ymagwedd amlasiantaeth wedi cynorthwyo gydag effeithiolrwydd y rhaglen o ran cyfuno ei hawliau gydag ymyriadau eraill a 'phecyn' wedi ei deilwra sy'n mynd i'r afael ag anghenion penodol teuluoedd unigol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen adolygu a mynd i'r afael â rhai o'r materion y cyfeiriwyd atynt ym Mhennod 6 er mwyn gwneud i'r pecyn hwn weithio'n fwy effeithiol.

# 8: Canlyniadau


## Disgwyliadau a chanlyniadau

8.1 Y canlyniadau disgwyliedig o'r rhaglen Dechrau'n Deg yw gwell datblygiad iaith, meddwl a chymdeithasol/emosiynol yn y blynyddoedd cynnar, ymddygiad a sgiliau rhianta, iechyd a les y plant a rhieni sydd wedi elwa o hawliau'r rhaglen a gallu'r gwasanaeth i nodi ac ymateb i angen yn gynharach ac yn fwy effeithiol.

8.2 Cyn archwilio i ba raddau y mae'r Partneriaethau wedi cyflawni'r canlyniadau hyn, mae'n werth ystyried pa mor bell y maent yn debygol o allu cael eu gweld o fewn y boblogaeth darged ar y cam hwn yn natblygiad y rhaglen.

8.3 Mae Fifgur 0-1 yn amlinellu'r llinell amser i nodi'r pwynt pryd y gellid tybio y daeth yn llwyr weithredol h.y. pwynt y gallai plentyn yn cael ei eni i dalgylch Dechrau'n Deg ddisgwyl elwa o'r pedwar prif hawl. Yn seiliedig ar asesiadau'r Partneriaethau eu hunain a barn y tîm gwerthuso, credwn y bydd cynnig rhaglen Dechrau'n Deg llawn ar gael ledled Cymru o fis Ebrill 2009 (er efallai bod rhai Partneriaethau wedi cyflawni hyn yn gynharach).

Fifgur 0-1: Llinell amser gweithrediad llawn Dechrau'n Deg




*Ffynhonnell: SQW Consulting*

8.4 Nid yw'r oediad amser hwn mewn darparu yn peri syndod, ac nid yw chwaith yn adlewyrchiad negyddol ar gynnydd y Partneriaethau. Hefyd, dylid nodi y byddai llawer o blant a theuluoedd wedi bod yn derbyn cefnogaeth gan y Partneriaethau cyn mis Ebrill 2009 ond ar y pwynt hwn gellir barnu bod darparu gwasanaeth llawn wedi dechrau. Rhaid rhoi ystyriaeth i hyn pan yn gosod disgwyliadau ynglŷn ag effeithiolrwydd y rhaglen mewn cyflawni ei chanlyniadau dymunol. Cofiwch fod gwerthusiad Cychwyn Cadarn yn Lloegr wedi dod i gasgliadau llawer mwy cadarnhaol am y rhaglenni lleol yn ei adroddiad mwyaf diweddar o gymharu â'i ganfyddiadau cynharach oherwydd a) roedd y rhaglenni wedi cymryd tair blynedd i gyrraedd cyflwr sefydlog gweithredol a b) roedd y plant a'r rhieni oedd wedi cymryd rhan yn y rhaglenni wedi gwneud hynny dros gyfnod hwy o amser.

8.5 Gan gadw'r disgwyliadau hyn mewn cof, mae'r adran hon o'r adroddiad yn egluro'n gyntaf beth mae'r Partneriaethau wedi bod yn ei wneud i fonitro ac asesu canlyniadau eu gweithgareddau ac, yn ail, pa gasgliadau y daethpwyd iddynt gan y gwerthusiad wrth gyflawni'r canlyniadau. Bu'n rhaid gwneud yr

asesiad ynglŷn â chasgliadau mewn modd ansoddol yn bennaf oherwydd absenoldeb asesiad meintiol a fydd ond yn bosibl pan gwblheir yr arolwg cartrefi yn ddiweddarach yn 2010/11.

## Trefniadau partneriaeth ar gyfer asesu canlyniadau

8.6 Mae rhan fwyaf o'r Partneriaethau naill ai wedi neu yn cynllunio i gynnal gwerthusiad o'u gweithgareddau Dechrau'n Deg. Fodd bynnag, hyd yma mae'r gweithgareddau gwerthuso lleol hyn wedi eu cyfyngu i asesiadau bodlonrwydd defnyddwyr ac wedi canolbwyntio ar faterion proses a darpariaeth. Rydym yn cytuno gyda'r Partneriaethau bod hyn yn briodol o gofio cam eu datblygiad a'i bod yn rhy gynnar i ddisgwyl gallu asesu effaith y rhaglen hyd yn oed ar ganlyniadau canolradd megis gwelliannau i agweddau rhieni.

8.7 Fodd bynnag, o gofio bod y cyflwr sefydlog gweithredol bron â'i gyflawni, mae'n ymddangos bod nawr yn amser priodol i'r Partneriaethau fod yn cychwyn adolygiadau a gwerthusiadau o ganlyniadau. Mae'r Partneriaethau yn amlwg yn cytuno oherwydd mae'n glir ar draws y 22 ardal Awdurdod Lleol bod mwy o sylw a meddwl wedi ei roi i asesu'r gwahaniaeth a wnaed gan Dechrau'n Deg. Mae'r angen i werthuso hyn wedi dod, yn rhannol dros y flwyddyn ddiwethaf, yn flaenoriaeth bwysig i'r timau Dechrau'n Deg lleol.

8.8 Mae hwn yn flaenoriaeth a gaiff ei adlewyrchu fwyaf clir yn y ffocws a'r amser y mae ardaloedd wedi ei dreulio nid yn unig yn datblygu'r dulliau a'r offer i werthuso gweithgareddau, ond hefyd yn y dymuniad i wreiddio'r prosesau hyn mewn fframweithiau gwerthuso a rhesymeg ehangach.

### ***Fframweithiau gwerthuso a rhesymeg a ddatblygwyd***

8.9 Mae'r ardaloedd sydd wedi gweithredu fframweithiau gwerthuso a rhesymeg wedi ceisio defnyddio'r rhain i alluogi achosiaeth i gael ei nodi a chysylltiadau i gael eu gwneud rhwng yr hyn sydd wedi ei wneud, pa mor dda y cafodd ei ddarparu, pa wahaniaeth wnaeth a pha ganlyniadau a roddodd i gyfranogwyr y rhaglen. Fodd bynnag tra mai'r un yw'r sail resymol ar gyfer datblygu'r

fframweithiau hyn, mae pob ardal wedi datblygu a chyflwyno ei fframwaith mewn ffordd a fformat ychydig yn wahanol (gweler Ffigur 0-2).

Ffigur 0-2: Enghreifftiau o fframweithiau gwerthuso a rhesymeg a ddatblygwyd gan ardaloedd Dechrau'n Deg

Yn **Rhondda Cynon Taf** mae'r tîm Dechrau'n Deg wedi datblygu fframwaith gwerthuso sydd wedi ei seilio'n agos ar honno a ddefnyddir ar gyfer y gwerthusiad cenedlaethol. Wedi ei haddasu ar gyfer y sefyllfa leol benodol, mae'r fframwaith hwn yn amlinellu 'theori newid' cyn nodi mewnbynnau ac allbynnau Dechrau'n Deg a'r canlyniadau cychwynnol a chanlyniadau hir dymor a geisir drwy'r rhaglen.

Yn **Nhorfaen** mae'r tîm Dechrau'n Deg wedi dyfeisio fframwaith gwerthuso yn seiliedig ar chwe canlyniad y rhaglen (y pum canlyniad a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chanlyniad proses leol). Mae'r fframwaith hon yn edrych ar bob un o'r canlyniadau hyn ac yn gosod amcan trosfwaol penodol gyda thargedau, camau gweithredu ac offer mesur ar gyfer pob un, yn ogystal â phwy sy'n gyfrifol am eu cyflawni a phryd y maent i'w cynnal.

Mae tîm Dechrau'n Deg **Sir Benfro** wedi datblygu fframwaith canlyniadau sy'n nodi ar gyfer y pedwar hawl, a hefyd un canlyniad 'gwybodaeth' trosfwaol, y camau penodol a'r targedau perthnasol yn erbyn pa rai y caiff y gweithredu hyn ei fesur. Yna mae'r fframwaith yn rhoi manylion beth sydd angen i ddigwydd o ran mesur cynnydd yn erbyn y targedau hyn ar gyfer 2009-10 a 2010-11.

Mae tîm Dechrau'n Deg **Abertawe** yn y broses o ddatblygu fframweithiau rhesymeg, yn seiliedig ar y rheiny a ddefnyddir ar gyfer y gwerthusiad cenedlaethol, ar gyfer gwahanol ganlyniadau (e.e. gwell Iechyd y Geg). Mae'r fframweithiau hyn yn rhoi manylion y cyd-destun sy'n bodoli, y nodau ac amcanion lleol, y tybiannau newid, yr adnoddau sydd eu hangen, y prosesau a'r gweithgareddau, yr allbynnau disgwyliedig a'r canlyniadau tymor byr a hir dymor a ragwelir.

Yng **Nghaerdydd** mae'r tîm Dechrau'n Deg yn datblygu fframwaith canlyniadau ar gyfer pob hawl ac ar gyfer y rhaglen Dechrau'n Deg yn gyfan. Mae Caerdydd yn edrych ar Ymagwedd Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA) sydd yn gyntaf yn ceisio deall a nodi'r 'atebolrwydd poblogaeth', h.y. beth yw'r amodau ansawdd bywyd y mae'r rhaglen yn ceisio ei newid; sut y gellir mesur yr amodau hyn (yn cynnwys dangosyddion cyd-destun a dangosyddion effaith); beth yw perfformiad presennol dangosyddion pwysicaf y mesurau hyn; a pha lefel o newid a geisir ar y mesurau hyn er mwyn gwneud gwahaniaeth i'r amodau ansawdd bywyd? Wedi gwneud hyn, yn ail mae'n ceisio canfod 'atebolrwydd perfformiad', h.y. pa adnoddau a ddefnyddiwyd a pha wasanaethau a ddarparwyd; pa mor dda y cafodd adnoddau/gwasanaethau eu defnyddio a'u darparu; faint o newid/effaith ychwanegol a gynhyrchwyd gan yr adnoddau/gwasanaethau hyn; a beth oedd y canlyniadau ar gyfer cyfranogwyr y rhaglen?

*Ffynhonnell: SQW Consulting*

8.10 Mae'r buddsoddiad o ran ymdrech ac amser a roddir gan dimau Dechrau'n Deg i ddatblygu'r fframweithiau hyn yn dangos y pwysigrwydd y maent yn ei roi ar allu dangos tystiolaeth o lwyddiant a nodi canlyniadau ar y lefel leol wrth iddynt ymddangos - yn hytrach na gorfod priodoli effaith yn ôl-weithredol, ac felly'n llai cadarn, i'r rhaglen unwaith y bydd yr arian wedi dod i ben.

8.11 Fodd bynnag, mae hon yn ymagwedd sydd heb ei gwreiddio ar hyn o bryd ar draws yr holl Bartneriaethau. Mae rhai yn eithaf datblygedig yn eu ffordd o feddwl ond ymddengys mai ychydig iawn o amser y mae eraill wedi ei neilltuo i feddwl am y ffyrdd gorau i wybod y gwahaniaeth a wnaed gan y rhaglen. Ar gyfer yr ardaloedd hynny lle mae'r cynnydd wedi bod yn arafach, fe fydd hi'n

bwysig eu bod yn glir ynglŷn â sut y bwriadant werthuso bob un o'r hawliau; gan fod yn glir ynglŷn â pha offer a ddefnyddir, pryd y dylai'r gwerthusiad ddigwydd a beth fydd yn ei ddangos. Bydd oedi mewn sefydlu'r fframwaith sylfaenol hon yn y peri perygl y bydd cynnydd tuag ar ganlyniadau ar lefel leol yn cael ei fethu.

8.12 Fodd bynnag, dim ond man cychwyn yw fframweithiau gwerthuso a rhesymeg - er yn un cryf - a bydd canlyniadau dim ond yn dod yn amlwg os ceir y prosesau gwerthuso angenrheidiol i gyd-fynd â'r fframweithiau. Felly, mae angen parhau gydag ymdrech ac amser i sicrhau bod y fframweithiau hyn yn cael eu defnyddio'n effeithiol, bod offer priodol yn cael eu datblygu i werthuso gweithgaredd a bod dadansoddiad a meintoliad y canlyniadau yn digwydd.

***Rhoi ar waith ystod o ddulliau ac offer gwerthuso***

8.13 O gofio pwysigrwydd nid dim ond meddwl am y broses gwerthuso, ond rhoi'r broses ar waith, mae'n arwyddocaol bod ffocws wedi ei roi, ac adnoddau wedi eu hymrwymo, ar draws y 22 ardal awdurdod lleol i ddatblygu a rhoi ar waith ystod o ddulliau ac offer gwerthuso. Mae Ffigur 0-3 yn rhoi manylion rhai o'r offer a'r dulliau a fabwysiadwyd.

Ffigur 0-3: Offer a dulliau gwerthuso a fabwysiadwyd gan Bartneriaethau

- **Asesiad meintiol ffurfiol** - mae'n ymddangos bod yr holl ardaloedd wedi mabwysiadu o leiaf un mesur asesu ffurfiol a'r mwyaf poblogaidd yw mesur Amserlen o Sgiliau Tyfu (SoGS) a'r Offer i Fesur Effeithiolrwydd Sgiliau Rhianta (TOPSE). (Er y dylid nodi bod nad yw'r mesuriad SoGS wedi ei fwriadu mewn gwirionedd fel offer gwerthuso). Yn ychwanegol at hyn mae ardaloedd hefyd wedi rhoi ar waith wahanol fesuriadau ffurfiol ar gyfer ymddygiad plentyn, datblygiad plentyn ac iechyd emosiynol rhieni (er enghraifft Eyberg, Highscope, Braselton Newborn Baby Assessment a Parenting Daily Hassles). Mae nifer o ardaloedd hefyd wedi ceisio datblygu, neu y maent yng nghamau cyntaf gweithredu, asesiad safonedig o blant, a gaiff ei gynnal naill ai ar fynediad i ofal plant neu ar fynediad i ysgol, gyda'r nod o ddefnyddio'r asesiad hwn i olrhain y plant drwy'r ysgol. Ar ei fwyaf soffistigedig cynhelir yr asesiad hwn gyda bob plentyn os ydynt yn fuddiolwyr Dechrau'n Deg ai peidio, felly yn galluogi nid yn unig olrhain cynnydd ar ei hyd ond cymhariaeth rhwng plant sydd wedi elwa o gefnogaeth a rhai sydd ddim.
- **Ffynonellau data eilaidd** - mae nifer o ardaloedd wedi bod yn canolbwyntio ar y broses o gasglu data ar gyfer ystod o nodweddion poblogaeth leol, ac maent yn parhau i wneud hynny. Mae'r rhain yn cynnwys atgyfeiriadau Damweiniau ac Achosion Brys, lefelau hylendid deintyddol, cyfraddau bwydo ar y fron, cyfraddau imiwneiddio, achosion o iselder ôl-eni ac atgyfeiriadau gwasanaethau cymdeithasol. Defnyddiwyd y data hwn, yn gyffredinol, mewn dwy ffordd rhyng-gysylltiedig. Mae ardaloedd wedi casglu'r data ar gyfer y boblogaeth gyfan fel rhan o broses gwaelodlin ar ddalgylchoedd Dechrau'n Deg a daearyddiaeth ehangach, gyda'r nod o ddiweddaru hyn wrth a phan fydd y data ar gael dros y tymor hwy. Mae ardaloedd eraill, fodd bynnag wedi casglu data, pan fydd ar gael, ar gyfer buddiolwyr Dechrau'n Deg unigol (megis atgyfeiriadau gwasanaethau cymdeithasol a chyfraddau bwydo

ar y fron) er mwyn nodi newid ar y lefel leol iawn ac yn y byr dymor.

- **Asesiad anecdotaidd ac astudiaethau achos** - mae ardaloedd wedi datblygu a defnyddio ystod eang o offer i asesu ansawdd a bodlonrwydd gyda darpariaeth yn ogystal ag asesu'r gwahaniaeth y mae wedi ei wneud. Mae'r rhain yn cynnwys holiaduron i rieni a ffurflenni adborth, asesiadau proffesiynol o ddatblygiad plentyn a rhiant, ac astudiaethau achos. Mae'r defnydd o asesiadau 'cip ar yrfa' - disgrifiadau byr sy'n disgrifio'r plentyn, ei broblemau ac unrhyw welliannau - wedi bod yn arbennig o boblogaidd gyda nifer o leoliadau gofal plant yn eu defnyddio. Mae asesiad proffesiynol anecdotaidd, yn arbennig gan athrawon, hefyd wedi bod yn ffordd arbennig o bwysig i asesu ar y cam cynnar hwn, peth o'r gwahaniaeth a wnaed gan y rhaglen.
- **Arolygon mynediad a gadael** - ar draws y 22 ardal awdurdod lleol mae'r defnydd o arolygon mynediad a gadael wedi bod yn ddull effeithiol o gasglu gwybodaeth ynglŷn â'r bodlonrwydd a'r gwahaniaeth a wnaed gan yr hawliau. Mae'r arolygon yn dueddol o fod yn seiliedig ar ganfyddiadau rhieni/gofalwyr ac mae'n rhoi ciplun defnyddiol o gynnydd. Ar draws yr ardaloedd, defnyddiwyd arolygon mynediad a gadael i asesu'r hawliau gofal plant, rhianta ac iaith a chwarae, yn ogystal â darpariaeth arall megis therapi lleferydd ac iaith a bydwreigiaeth.

*Ffynhonnell: Astudiaeth Achos Ardal 2009*

8.14 Mae'r offer hyn yn gyffredinol wedi eu canolbwyntio ar un neu ddwy elfen o weithgaredd gwerthusol. Yn gyntaf, cael y syniad o'r niferoedd sy'n defnyddio a lefelau bodlonrwydd gyda'r gweithgareddau. Hyd yma mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o gynnydd wedi ei wneud gyda'r asesiadau anecdotaidd a'r arolygon mynediad a gadael, yn bennaf oherwydd bod y rhain yn haws i'w datblygu a'u rhoi ar waith. Y canlyniad yw bod y dystiolaeth ar ganlyniadau sydd ar gael ar hyn o bryd yn or-ddibynnol ar ganfyddiadau ansoddol.

8.15 Fodd bynnag, ni ddylid tanamcangyfrif y dymuniad i roi ar waith brosesau meintiol cadarn. Mae wedi dod yn amlwg o'r gwerthusiad bod mwyafrif sylweddol o ardaloedd yn sefydlu offer gwerthusol, a fydd yn eu galluogi i asesu'r cynnydd tuag at ganlyniadau ac effaith Dechrau'n Deg ar amodau poblogaeth leol ehangach. Mae hyn yn galonogol, yn arbennig y dyhead i sefydlu prosesau sy'n galluogi unigolion i gael eu holrhain drwy'r ysgol ac o gymharu â charfan sydd ddim yn un Dechrau'n Deg. Mae'r diffyg data meintiol cyfredol yn fwy o fater amseru yn hytrach na bwriadol.

### *Recriwtio staff ymroddedig*

8.16 Mae'r broses werthusol hefyd wedi cael ei chefnogi mewn nifer o ardaloedd gan recriwtio, neu fwriad i recriwtio, swyddog gwerthuso a monitro neu swydd debyg. Yn gyffredinol, mae gan y swydd hon y cylch gwaith i wreiddio a chefnogi'r broses werthuso ar draws y rhaglen, ac mae'n arwydd cadarnhaol

pellach o ymrwymiad yr ardaloedd i ddangos yn gadarn a chynhwysfawr y gwahaniaetha a wnaed gan Dechrau'n Deg.

## Asesu'r gwahaniaeth – cynnydd tuag at ganlyniadau

8.17 Ar draws y rhaglen mae'n amlwg bod cynnydd wedi ei wneud tuag at ganlyniadau, yn arbennig canlyniadau canolradd y rhaglen o ran: datblygiad plentyn yn cynnwys gwell datblygiad ieithyddol, meddyliol ac emosiynol; a datblygiad teulu/rhieni yn cynnwys ymddygiad, sgiliau a manteision iechyd rhieni. Yn ogystal, mae'n ymddangos hefyd bod Dechrau'n Deg wedi cyfrannu'n fwy eang i gyflawni gwelliant gwasanaeth cynaliadwy.

8.18 Ar y cam hwn, fel y nodir uchod, anecdotaidd yn bennaf yw'r dystiolaeth o'r cynnydd hwn ac mae wedi ei seilio ar ganfyddiadau naill ai rhieni neu weithwyr proffesiynol. Fodd bynnag, nid oes amheuaeth yr ychwanegir pwysau i'r casgliadau gan nifer yr ardaleodd sy'n adrodd ar welliannau tebyg. Felly mae ein hadroddiad gwerthuso wedi ceisio troedio'r llinell gul rhwng gor-chwarae tystiolaeth ansoddol ac anecdotaidd a than-chwarae'r corff cryf o dystiolaeth leol sy'n pwyntio'n gyson mewn cyfeiriad cadarnhaol ac sydd yn atgyfnerthol o'r ddeutu. Mae hwn yn gafeat pwysig ac un y mae'n rhaid ei ddeall wrth ddarllen yr hyn sy'n dilyn.

***Canlyniadau datblygiad plant***

*Gwell datblygiad cymdeithasol ac emosiynol*

8.19 Mae dros dri chwarter yr ardaleodd astudiaeth achos yn datgan yn glir bod darparu hawliau Dechrau'n Deg a gwasanaethau ehangach wedi cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol y plant y mae'n gweithio gyda hwy. Mae'r honiad hwn wedi ei seilio ar ystod o ffynonellau tystiolaeth ond yn aml gwelir mai athrawon sy'n rhoi'r mwyaf o bwysau iddo sy'n adrodd ar 'wahaniaethau amlwg' mewn plant Dechrau'n Deg sydd wedi eu paratoi'n well ar gyfer ysgol, yn setlo'n gynt, yn ymddwyn yn well ac yn fwy hyderus mewn rhyngweithio gyda phlant eraill (Tabl 0-1).

## Tabl 0-1: Tystiolaeth o well datblygiad cymdeithasol ac emosiynol[52]

| Ardal Astudiaeth Achos | Tystiolaeth o welliant |
|---|---|
| Merthyr Tudful | Drwy'r 'proffil asesu Dechrau'n Deg' sgoriwyd plant mewn un lleoliad wrth iddynt ddechrau'r rhaglen ym meysydd datblygiad cymdeithasol ac emosiynol, sgiliau llythrennedd a chyfathrebu; datblygiad mathemategol; datblygiad corfforol; datblygiad creadigol; gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd; a dwyieithrwydd. Yna sgoriwyd y plant eto wrth iddynt gwblhau eu tymor olaf. Ar gyfartaledd, ar draws pob maes dysgu, cynyddodd y sgoriau gan 78 pwynt canran gyda'r cynnydd sgrïau mwyaf mewn dwyieithrwydd (145%) a datblygiad mathemategol (118%). |
| Blaenau Gwent | Caiff pob plentyn ei asesu a'i sgorio wrth ddod i mewn a gadael yn erbyn yr un chwe maes datblygiad a nodir uchod. Ar draws y chwe lleoliad a aseswyd mae'r canlyniadau yn dangos gwelliant cyson rhwng y ddwy sgôr gyda chynnydd o rhwng 5 a 47 pwynt canran a gwelliant ar gyfartaledd o 29% ar draws y lleoliadau. |
| Abertawe | Gwelodd astudiaethau achos o blant Dechrau'n Deg cyn, yn ystod ac wedi darpariaeth mewn un lleoliad yr enghreifftiau canlynol o welliant:<br>• Plentyn A – llai dibynnol ar aelodau staff; mwy tebygol o archwilio ac arbrofi gyda deunyddiau/gweithgareddau newydd; mwynhau cwmni plant eraill.<br>• Plentyn B – cynnydd mewn geirfa a gwell gallu i gyfathrebu; gwell ymddygiad; a gwell integreiddio gyda chyfoedion<br>• Plentyn C – mwy o hyder a gwelliant mewn lleferydd<br>• Plentyn D - mwy o hyder a gwelliant yn y gallu i chwarae gyda chyfoedion<br>• Plentyn E - mwy o ryngweithio gyda chyfoedion a chynnydd mewn hyder |
| Ceredigion | Adroddodd adborth ysgrifenedig gan bennaeth bod y "newid yn amlwg yn y garfan gyntaf un" gan fod plant Dechrau'n Deg "yn dawelach, yn fwy hyderus ac wedi setlo'n gynt i'w hamgylchedd newydd". Roedd y plant hefyd yn "gallu adrodd mwy o hwiangerddi... gwneud ffrindiau'n gynt ... [a] gallu defnyddio os gwelwch yn dda a diolch yn Gymraeg yn gyson". Mae'r adborth hefyd yn nodi bod "y plant a ddechreuodd ar yr un amser ac nad oedd wedi mynychu [Dechrau'n Deg] yn methu â gwneud yr un fath". |
| Torfaen | Dynododd adborth gan athrawon ysgol bod y plant sydd wedi cyfranogi yn Dechrau'n Deg yn barod i ddysgu, yn canolbwyntio'n well, bod ganddynt well iaith a'u bod yn ymddwyn yn well na phlant sydd ddim yn rhai Dechrau'n Deg. |
| Wrecsam | Mae ysgolion wedi adrodd bod yr asesiad mynediad yn 3 oed ac asesiad gwaelodlin yn 4 oed yn dangos gwell sgiliau iaith, canolbwyntio a chymdeithasol, hyder a hunan-barch mewn plant sydd wedi elwa o hawliau Dechrau'n Deg o gymharu â'r rheiny sydd heb. |

*Ffynhonnell: SQW Consulting*

[52] Mae'r enghreifftiau hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth a gynhyrchwyd gan asesiadau ac offer lleol. Mae'r broses a'r dulliau ar gyfer cynhyrchu'r dystiolaeth hon wedi ei datblygu'n annibynnol gan bob Partneriaeth Dechrau'n Deg ac nid ydynt wedi cael eu hasesu na'u gwirio'n allanol.

*Gwell datblygiad ieithyddol a meddyliol*

8.20 Wedi eu cysylltu'n agos i'r canlyniadau a nodir uchod, nododd nifer llai o ardaleodd hefyd welliannau penodol yn natblygiad ieithyddol a meddyliol y plant. Eto, roedd barn a chanfyddiadau athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill yn ffynhonnell tystiolaeth bwysig, oherwydd hyd yma, cyfyngedig yw'r meintoliad o gynnydd (Tabl 0-2).

Tabl 0-2: Tystiolaeth o well datblygiad ieithyddol a meddyliol[53]

| **Ardal Astudiaeth Achos** | **Tystiolaeth o welliant** |
|---|---|
| Rhondda Cynon Taf | Mae atgyfeiriadau i wasanaethau lleferydd ac iaith wedi lleihau mewn ardaleodd Dechrau'n Deg ers cyflwyniad Dechrau'n Deg. |
| Caerffili | Ers cyflwyno Dechrau'n Deg mae atgyfeiriadau i'r adran clywedeg wedi gostwng gan 14% ac mae atgyfeiriadau ar gyfer therapi lleferydd ac iaith wedi gostwng gan 23%. |
| Abertawe | Canfu'r holiaduron rhieni cyn-sgrinio ac ôl-ymyrraeth yn dilyn therapi lleferydd ac iaith bod:<br>• pryder rhieni ynghylch lleferydd ac iaith eu plentyn wedi lleihau gan 30 pwynt canran (o 80%)<br>• canran y plant yn defnyddio geiriau i nodi eu hangen wedi cynyddu gan 10 pwynt canran (i 23%)<br>• cyfran y plant yn defnyddio 5 neu ragor o eiriau yn cynyddu o 60% i 90%, gyda dim plant yn defnyddio 'dim geiriau' (o gymharu â 10% cyn ymyrraeth)<br>• graddiodd 80% o rieni leferydd ac iaith eu plentyn ar 5 (allan o 10) neu uwch wedi ymyrraeth o gymharu â 34% cyn hynny. |
| Casnewydd | Canfu astudiaethau achos o blant Dechrau'n Deg yr enghreifftiau canlynol o welliant:<br>• Plentyn A – cynnydd yn y defnydd o Saesneg gan blentyn mai ei ieithoedd cyntaf oedd Punjabi ac Urdu<br>• Plentyn B – iaith mwy mynegiadol a chliriach<br>• Plentyn C – cynnydd yn y defnydd o Saesneg a Chymraeg gan blentyn sy'n geisiwr lloches<br>• Plentyn D – mam wedi son am welliant 'sylweddol' mewn iaith a sgiliau cymdeithasol<br>• Plentyn E – nid Saesneg yw iaith y cartref, ond mae nawr yn defnyddio Saesneg gyda hyder wrth chwarae a chanu. |
| Powys | Dengys ffurflenni adborth o sesiynau LAP a NAP rhwng 2007/08 a 2008/09 bod rhwng 80 and 100% o rieni yn dweud eu bod wedi gwella eu gallu i gefnogi datblygiad eu plant a bod eu plant wedi gwella eu sgiliau iaith a rhifau. |
| Gwynedd | Mae ymwelwyr iechyd a staff gofal plant wedi nodi gwelliannau sylweddol yn sgiliau iaith y plant. |

[53] Mae'r enghreifftiau hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth a gynhyrchwyd gan asesiadau ac offer lleol. Mae'r broses a'r dulliau ar gyfer cynhyrchu'r dystiolaeth hon wedi ei datblygu'n annibynnol gan bob Partneriaeth Dechrau'n Deg ac nid ydynt wedi cael eu hasesu na'u gwirio'n allanol.

| Ardal Astudiaeth Achos | Tystiolaeth o welliant |
|---|---|
| Sir Fynwy | Dywedodd 100% o'r rhieni oedd yn ymwneud mewn darpariaeth LAP bod iaith eu plentyn wedi gwella. |

*Ffynhonnell: SQW Consulting*

### *Canlyniadau teulu/rhieni*

*Cynnydd mewn bwydo ar y fron, y nifer yn cael eu himiwneiddio a llai o atgyfeiriadau Damweiniau ac Achosion Brys (DacAB)*

8.21 Ar draws y rhaglen mae'n amlwg bod Dechrau'n Deg wedi dechrau dylanwadu'n gadarnhaol ar ystod o ganlyniadau iechyd, y rhai y gellir eu hadnabod hawsaf yw'r cynnydd mewn bwydo ar y fron, y nifer yn cael eu himiwneiddio a llai o atgyfeiriadau DacAB (Tabl 0-3). Dylanwadwyd ar y canlyniadau hyn gan ystod o ffactorau, ond yn bennaf y ddarpariaeth ymweliadau iechyd mwy dwys ac yn arbennig ei lwyddiant mewn ymgysylltu â'r teuluoedd hynny sy'n draddodiadol anoddach eu cyrraedd, neu'r grwpiau hynny (e.e. mamau yn eu harddegau) sy'n aml ddim yn ymgysylltu mewn darpariaeth prif ffrwd.

Tabl 0-3: Tystiolaeth o gynnydd mewn bwydo ar y fron, y nifer yn cael eu himiwneiddio a llai o atgyfeiriadau DacAB[54]

| Ardal Astudiaeth | Tystiolaeth o welliant |
|---|---|
| Merthyr Tudful | Mae cyfraddau imiwneiddiad mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, a fu yn hanesyddol rhwng 80-85%, erbyn hyn wedi cael dod yn agosach i gyfartaledd y fwrdeistref, sef 94%. |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Cyn Dechrau'n Deg (Rhagfyr 2006 hyd Mawrth 2007) roedd rua 21% o lwyth achos Ymwelwyr Iechyd yn bwydo ar y fron; yn dilyn Dechrau'n Deg cynyddodd hyn i 36% rhwng mis Rhagfyr 2007 a mis Mawrth 2008. |
| Castell-nedd Port Talbot | Cynyddodd cyfraddau cychwyn bwydo ar y fron o 37% yn 2007 i 59% yn 2008 yn dilyn cyflwyniad Dechrau'n Deg. |
| Torfaen | Cynyddodd cyfraddau bwydo ar y fron gan 11 pwynt canran o 33% yn 2006 i 44% yn 2007 - o gymharu â chynnydd gan 5 pwynt canradd ar draws y fwrdeistref yn gyffredinol. |
| Caerffili | Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2009, gostyngodd atgyfeiriadau i adrannau DacAB, fel y'u cofnodir gan Ymwelwyr Iechyd, gan 11% o gymharu â'r un cyfnod yn 2008. |

*Ffynhonnell: SQW Consulting*

[54] Mae'r enghreifftiau hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth a gynhyrchwyd gan asesiadau ac offer lleol. Mae'r broses a'r dulliau ar gyfer cynhyrchu'r dystiolaeth hon wedi ei datblygu'n annibynnol gan bob Partneriaeth Dechrau'n Deg ac nid ydynt wedi cael eu hasesu na'u gwirio'n allanol.

*Cynnydd mewn hyder ac ymgysylltiad rheini*

8.22 Ynghyd â gwell datblygiad cymdeithasol ac emosiynol y plentyn, mae'n debyg mai cynnydd mewn hyder ac ymgysylltiad rhieni yw'r canlyniad mwyaf arwyddocaol nesaf rhaglen Dechrau'n Deg hyd yma. Ar draws yr ardaloedd ceir nifer o enghreifftiau o rieni nid yn unig yn ymgysylltu mwy yng ngwasanaethau Dechrau'n Deg ond hefyd mewn gwasanaethau cyffredinol sydd wedi rhoi manteision ychwanegol ar gyfer y teulu ehangach (Tabl 0-4). Mewn nifer o ardaloedd gwelwyd Dechrau'n Deg, gyda'i gydweithio agos a'i gyd-leoli gydag ysgolion, fel ffactor arwyddocaol mewn annog rhieni i ymgysylltu mwy gydag ysgolion, mewn llawer o achosion yn tynnu 'ffobia' ysgol a oedd yn aml wedi esblygu yn ystod eu plentyndod.

Tabl 0-4: Tystiolaeth o hyder ac ymgysylltiad rhieni[55]

| **Ardal Astudiaeth Achos** | **Tystiolaeth o welliant** |
|---|---|
| Sir Benfro | Roedd hi'n ymddangos bod cefnogaeth i rieni wedi helpu i godi hunanhyder a hunan-barch rhieni gan eu galluogi i ddelio yn well gyda heriau bob dydd rhianta. |
| Wrecsam | Mae gwerthusiadau defnyddwyr gwasanaeth yn awgrymu bod sgiliau rhianta'r rheiny sy'n mynychu rhaglen rhianta wedi gwella o ganlyniad uniongyrchol y gweithgaredd Dechrau'n Deg a wnaethpwyd. Er enghraifft, galluogodd y cwrs 'Coginio Sylfaenol' i un rhiant goginio bwyd ffres ar gyfer ei phlentyn, galluogodd cwrs 'Ymddygiad yn y Cartref' un arall i reoli'n well ymddygiad ei phlentyn; a galluogodd rhaglen 'Blynyddoedd Rhyfeddol' riant arall i ganolbwyntio ar roi mwy o sylw i'w amseroedd chwarae rheolaidd. |
| Torfaen | Gan ddefnyddio'r asesiadau Rhianta Dyddiol Ffwdan asesodd rieni eu hunain yn erbyn 20 math o ddigwyddiad (e.e. clirio llanast bwyd neu deganau yn barhaus) a dynodi pa mor aml mae bob digwyddiad yn digwydd a'r ffwdan y mae'n ei olygu iddynt. Caiff sgôr ei chreu ar gyfer bob digwyddiad (amledd sgôr x sgôr ffwdan), ac o hyn caiff sgôr cyffredinol ei chreu. Ym mis Hydref 2009 cofnodwyd 48 o achosion, gyda 22 ohonynt yn wynebu 'ymddygiad heriol' fel y waelodlin, ond nid felly yr oedd hi wedi chwe wythnos ar gyfer pedwar o rieni (lleihad o 17%). Ar y cyfan, ar draws y 48 achos gostyngodd y sgôr amledd gan 17% a sgoriau dwysedd gan 15%. |
| Bro Morgannwg | Mae canlyniad gwerthusiad TOPSE yn dangos cynnydd cyffredinol mewn hunan effeithiolrwydd ar draws saith o'r wyth maes rhianta. Cyfartaledd y cynnydd cyn ac wedi cefnogaeth oedd 5 pwynt, gyda'r cynnydd mwyaf yn y maes 'rheoli' (11 pwynt). |
| Ynys Môn | Gan ddefnyddio General Health, holiadur Hunan-barch a Phleser mewn Rhianta Rosenberg, canfu'r ardal bod 74% o rieni yn dangos gwelliant |

[55] Mae'r enghreifftiau hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth a gynhyrchwyd gan asesiadau ac offer lleol. Mae'r broses a'r dulliau ar gyfer cynhyrchu'r dystiolaeth hon wedi ei datblygu'n annibynnol gan bob Partneriaeth Dechrau'n Deg ac nid ydynt wedi cael eu hasesu na'u gwirio'n allanol.

| Ardal Astudiaeth Achos | Tystiolaeth o welliant |
|---|---|
| | wedi'r 'Sesiynnau Chill Out Rhianta'; yn arbennig mewn agweddau at rianta a sgiliau rhianta. |
| Sir Fynwy | Drwy ddarpariaeth LAP, dywedodd 98% o rieni bod eu gallu i gefnogi eu plant wedi gwella; a thrwy'r Grŵp Therapi Celf cynyddodd hunan-barch y rheini hyn oedd yn gysylltiedig gan 57%. |
| Abertawe | Gofynnwyd i rieni yn mynychu cyrsiau rhianta sgorio eu hunain (0-10, gyda 10 yr uchaf) cyn ac wedi darpariaeth yn erbyn nifer o feini prawf. Gofynnwyd hefyd i'r gweithwyr proffesiynol oedd yn darparu'r cyrsiau i sgorio'r rhieni yn erbyn yr un meini prawf cyffredinol. Gwnaethant ganfod y canlynol:<br>• teimlai rhieni bod eu hunanhyder a'u hunan-barch wedi codi gan gyfartaledd o 3 pwynt, tra bod y gweithwyr proffesiynol yn teimlo eu bod wedi codi gan 5.7 pwynt<br>• teimlai rhieni bod eu sgiliau rhianta wedi codi gan gyfartaledd o 2.84 pwynt, tra bod y gweithwyr proffesiynol yn teimlo eu bod wedi codi gan 4.22 pwynt<br>• teimlai rhieni bod ymddygiad eu plant wedi codi gan gyfartaledd o 1.1 pwynt, tra bod y gweithwyr proffesiynol yn teimlo eu bod wedi codi 4.11 pwynt. |
| Casnewydd | Nodwyd bod Dechrau'n Deg wedi deillio ar nifer o fanteision i rieni, yn cynnwys:<br>• cynnydd mewn mynediad at addysg a hyfforddiant i rieni<br>• cynnydd mewn lefelau sgiliau sylfaenol a chefnogaeth ieithyddol ar gyfer rhieni yn ogystal â phlant<br>• cynnydd mewn dyhead ar gyfer plant sy'n cyrchu dysgu<br>• cynnydd mewn traws-atgyfeirio a hunan atgyfeirio<br>• cynnydd mewn perthynas gyda gweithwyr proffesiynol. |
| Sir y Fflint | Mae grŵp o 36 o rieni wedi cael eu hyfforddi i gefnogi'r rhaglen yn wirfoddol. Mae hyn wedi cynorthwyo i rymuso'r gymuned leol a sicrhau mewnbwn rhieni i Dechrau'n Deg, yn ogystal â'r gweithgaredd CYPP ehangach er enghraifft ymgynghoriad ar y Strategaeth Rhianta Cymru Gyfan. |

*Ffynhonnell: SQW Consulting*

*Llai o atgyfeiriadau gwasanaethau cymdeithasol*

8.23 Mewn nifer lai o ardaloedd, cafwyd tystiolaeth hefyd bod Dechrau'n Deg wedi helpu i gyfrannu i leihad yn nifer y plant a atgyfeirir i'r gwasanaethau cymdeithasol neu a roddir ar y gofrestr amddiffyn plant (Tabl 0-5). Mae'n anoddach adnabod ac ynysu cyfraniad uniongyrchol Dechrau'n Deg i'r canlyniad hwn gan fod cynnydd yn fwyaf tebygol o fod yn ganlyniad ffactorau ehangach. Mae hefyd yn anodd dadansoddi'n union pam fod cyfraddau atgyfeirio wedi gostwng, er enghraifft: a yw oherwydd, fel ag y mae mewn rhai ardaloedd Dechrau'n Deg, bod gweithiwr cymdeithasol wedi ei gyflogi fel rhan o'r tîm Dechrau'n Deg ac felly mae awdurdodau lleol yn llai amheus ynglŷn â

gadael plant ‘oddi ar’ y gofrestr amddiffyn neu fod achosion yn cael eu cynnal yn ‘lleol’?; neu a yw oherwydd bod y trothwyon ar gyfer cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant wedi cynyddu ac felly bod nifer y plant sy’n bodloni’r lefel hon wedi lleihau?

8.24 Mae’r cafeatau hyn yn bwysig. Fodd bynnag, o gofio llwyddiant canfyddedig Dechrau’n Deg o ran gwella datblygiad emosiynol a chymdeithasol plentyn yn ogystal â hyder a sgiliau rheini, gellir yn sicr ei ystyried fel ffactor gyfrannol.

Tabl 0-5: Tystiolaeth o leihad mewn atgyfeiriadau gwasanaethau cymdeithasol[56]

| Ardal Astudiaeth Achos | Tystiolaeth o welliant |
|---|---|
| Merthyr Tudful | Mae cyfraddau amddiffyn plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg wedi parhau'n sefydlog dros y flwyddyn ddiwethaf. |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Mae cyfraddau atgyfeirio Gwasanaethau Cymdeithasol y cyngor wedi disgyn rhwng 2006/07 a 2008/09 ar draws y Fwrdeistref gan 26% (o 81 i 60), a gostyngodd nifer yr ychwanegiadau newydd i'r Gofrestr Amddiffyn Plant hefyd gan 13% (o 16 i 14) dros yr un cyfnod - teimlwyd y cafodd cyfraniad Dechrau'n Deg i'r gostyngiad hwn ei ddangos drwy'r 30 teulu yn llwyth achos y Gweithwyr Cymdeithasol Teulu, y byddai mwyafrif ohonynt wedi eu hatgyfeirio i'r gwasanaethau cymdeithasol a byddai rhai ohonynt wedi eu hychwanegu i'r gofrestr amddiffyn plant heb ymyrraeth Dechrau'n Deg. |
| Sir Gaerfyrddin | Lleihad yn nifer yr achosion amddiffyn plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, er gyda chynnydd yn nifer yr "achos pryder" - canfyddiad a welir fel un sy'n dangos bod Dechrau'n Deg wedi helpu i atal cynnydd i'r gofrestr amddiffyn plant. |
| Rhondda Cynon Taf | Gostyngiad a nodwyd yn y garfan o rai 0-4 mlwydd oed ar y gofrestr amddiffyn pant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg o gymharu â chynnydd ar draws y fwrdeistref yn gyffredinol. |
| Bro Morgannwg | Rhwng 2006 a 2009 gostyngodd nifer y plant sy'n derbyn gofal yn yr ardaloedd Dechrau'n Deg o 87 i 55 - gostyngiad o 37% - o fewn pa un bu gostyngiad o blant sy'n derbyn gofal 0-4 oed o 25 i ddim ond 10. Ar draws yr Awdurdod yn gyffredinol gostyngodd nifer y plant o 200 i 175 - gostyngiad o ddim ond 13%. |

*Ffynhonnell: SQW Consulting*

### *Gwell gwasanaethau*

*Cynnydd mewn datblygiad staff*

8.25 Ar draws y rhaglen mae nifer o ardaloedd wedi gwneud datblygiad a hyfforddiant staff yn flaenoriaeth bwysig. Caiff y flaenoriaeth hon ei dangos mewn dwy ffordd. Y gyntaf yw drwy sicrhau bod staff sy'n gyfrifol am ddarparu'r hawliau yn cael eu hyfforddi i safon uchel (h.y. NVQ Lefel 3 ar gyfer staff Gofal Plant). Yr ail ffordd yw sicrhau bod staff yn gallu darparu a chynorthwyo yn narpariaeth ystod ehangach o wasanaethau yn cynnwys cyrsiau rhianta, darpariaeth LAP neu NAP neu ddarparu 'Elklan' (cwrs byr sydd â'r nod o gefnogi ymarferwyr blynyddoedd cynnar i hyrwyddo sgiliau cyfathrebu plant). Canlyniad y buddsoddiad hwn mewn hyfforddi a datblygu

[56] Mae'r enghreifftiau hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth a gynhyrchwyd gan asesiadau ac offer lleol. Mae'r broses a'r dulliau ar gyfer cynhyrchu'r dystiolaeth hon wedi ei datblygu'n annibynnol gan bob Partneriaeth Dechrau'n Deg ac nid ydynt wedi cael eu hasesu na'u gwirio'n allanol.

staff yw gweithlu mwy medrus, sy’n fwy galluog i ddarparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion dalgylchoedd Dechrau’n Deg lleol.

*Gwell cyfleusterau a gwasanaethau lleol*

8.26 Yn ychwanegol at ddatblygu staff mae hefyd yn bosibl i gasglu o’r astudiaethau achos ardal bod Dechrau’n Deg wedi cyfrannu’n gadarnhaol i gyfleusterau a gwasanaethau lleol. Ar ei fwyaf amlwg, mae’r gwelliant hwn yn amlwg drwy fuddsoddiad cyfalaf mewn cyfleusterau newydd, yn arbennig ar gyfer darpariaeth gofal plant. Ar gyfer nifer o ardaloedd mae’r buddsoddiad hwn naill ai wedi uwchraddio’n sylweddol y ddarpariaeth sy’n bod yn barod neu wedi darparu cyfleusterau lle nad oedd rhai’n bodoli cyn hyn.

8.27 Yn fwy cynnil, mae buddsoddiad Dechrau’n Deg hefyd wedi cynorthwyo i greu cysylltiadau rhwng gwasanaethau, a gwella mynediad atynt. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn y berthynas a grëwyd gydag ysgolion lleol, a gwelwyd y rhain fel rhywbeth a oedd wedi cynorthwyo’n fawr gyda throsglwyddiad o ofal plant i feithrin ac ymlaen i’r ysgol (fel ag y nodwyd yn y bennod flaenorol). Caiff y gwelliannau i wasanaethau, ac yn arbennig sut y maent wedi dylanwadu ar ddarpariaeth gwasanaethau prif ffrwd, eu trafod mewn rhagor o fanylder yn y bennod nesaf.

8.28 Yn ychwanegol at y dystiolaeth ansoddol a gasglwyd gan yr astudiaethau achos, gallwn dynnu ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol gyda rhieni a gynhaliwyd gan Ipsos MORI. Mae Ffiigur 0-4 sy’n dangos bod rhieni yn gallu adnabod effeithiau cadarnhaol y gwasanaethau ar eu plant.

Ffiigur 0-4: Asesiadau ansoddol canlyniadau datblygiadol o ymchwil ansoddol Dechrau’n Deg

**Sgiliau datblygiad**

- Adroddodd un fam y cafodd ei phlentyn anawsterau lleferydd ac iaith mai mynychu gofal plant a wnaeth y gwahaniaeth i ddatblygiad lleferydd ei phlentyn, yn hytrach na therapi lleferydd yr oedd wedi bod yn ei dderbyn cyn hynny ond heb fawr o fudd
- “I mi [y fantais orau] yw datblygiad iaith fy merch - mae ei gafael ar leferydd yn wych ers iddi ddechrau dod yma… oherwydd maent yn canu bob dydd a gwneud sgiliau sylfaenol, fel dal pensil a phaentio a'r pethau felly. Maent bob amser yn dod allan yn cario llun y maent wedi ei baentio, a hefyd mae hi'n darllen. *Defnyddiwr gofal plant, Ardal A*
- “Roedd hi'n arfer bod yn fyr ei thymer, yn orfywiog a drygionus. Ond nawr .... ers iddi fod yno, oherwydd bod yn rhaid iddynt rannu, maent yn gorfod cyfathrebu, mae hi wedi datblygu

llawer. *Defnyddiwr gofal plant, Ardal D*

- "Mae ei leferydd yn gliriach ac mae'n dechrau adnabod lliwiau, nid gant y cant eto, ond llawer mwy ers i ni ddechrau gwneud y sesiwn. Felly mae wedi gwella'n aruthrol." *Defnyddiwr LAP un i un, Ardal E*

**Datblygiad rhieni**

- "Does dim rhaid i mi weiddi llawer nawr, does dim rhaid i mi ddefnyddio'r 'time out' achos dydw i ddim wedi gorfod. Funudau yn ôl ar y ffordd adref o'r ysgol cododd [fy mab] ei fraich ataf fel pe bai am ddeud "rwy'n mynd i roi dwrn i ti!", ond nawr mae [ei frawd] yn dweud "Na, neu fe fyddi ar 'time out'!" ac yna dywedodd "Sori mam". Felly maen nhw yn gwybod! Maent yn tynnu ymlaen â'i gilydd ac mae'n braf".*Defnyddiwr cwrs rhianta, Ardal D*
- Yn Ardal A, gwelodd un rhiant oedd wedi derbyn cefnogaeth rhiant un i un welliannau mawr i'w bywyd teuluol. Gwelodd y rhiant yma un dechneg oedd yn arbennig o ddefnyddiol wrth ddelio ag ymddygiad ei phlentyn, ond pwysleisiodd bwysigrwydd cyffredinol cael 'opsiynau' i reoli ymddygiad plant, rhywbeth yr oedd hi'n teimlo yr oedd rhianta un i un yn arbennig o dda am ei ddarparu.
- "Roedd un o'r rhieni yn cael problemau gyda'i phlentyn bach yn cysgu .... fe roesom syniadau iddi ynglŷn â beth yr ydym ni'n ei wneud, a nawr mae'n llwyddo i gael ei phlentyn i gysgu'n well… roedd hynny'n wirioneddol dda. Pan oedden ni'n cael problemau gyda'r bechgyn pan oedden nhw'n un oed, gyda defnyddio'r poti ac ati, rhoddodd y rhieni eraill gyngor i ni, rho gynnig ar hwn a chynnig ar y llall. Ac mae'n gweithio … oherwydd rydym ni gyd yn rhoi syniadau i'n gilydd." *Defnyddiwr rhianta, Ardal E*
- "Mae'n eich gwneud yn ymwybodol o bethau na fyddech yn meddwl y dylai plant fod yn ei wneud, rydych chi'n meddwl mai gwaith yr ysgol ydy hynny. Ond nid felly mae hi, mae'n dechrau yma, llawer yn ieuengach, a dyna lle byddant yn cael y dechrau da." *Defnyddiwr LAP, Ardal A*
- "Mae [LAP] yn dod â'r hyn y maent yn ei wneud yma yn amgylchedd y lleoliad gofal plant i'r cartref, rydych yn mynd ag ef adref gyda chi." *Defnyddiwr LAP, Ardal D*

*Ffynhonnell: Gwerthusiad Ansoddol Ipsos MORI o Dechrau'n Deg 2009*

## Dylanwadu ar wasanaethau prif ffrwd

8.29 Nid oes gofyniad penodol o fewn canllawiau Dechrau'n Deg i'r Partneriaethau geisio a sicrhau prif ffrydio gweithgareddau effeithiol a ddatblygwyd drwy'r rhaglen. Fodd bynnag, mae'n amlwg yn fanteisiol os teimlir bod arfer da a dysgu gan y rhaglen yn cynnig manteision posibl i'r boblogaeth ehangach ei bod yn cael ei mabwysiadu gan wasanaethau prif ffrwd lle bo hynny'n bosibl.

8.30 Yn ystod dwy flynedd gyntaf darpariaeth Dechrau'n Deg roedd canolbwynt y Partneriaethau ar sefydlu'r hawliau a'u rhoi ar waith. Yn ystod y cyfnod hwn roedd Partneriaethau a rhanddeiliaid yn gyffredinol yn gytûn ei bod yn rhy gynnar i fod yn ystyried prif ffrydio gweithgareddau Dechrau'n Deg gan nad oedd eu heffeithiolrwydd wedi ei ddangos eto. Fodd bynnag, wrth i Bartneriaethau ddod yn fwy hyderus yn effeithiolrwydd eu hymagweddau fe welwyd dymuniad cynyddol i ddylanwadau ar a siapio gwasanaethau prif ffrwd.

8.31 Hyd yn hyn, ar y cyfan, mae dylanwad Dechrau'n Deg ar wasanaethau prif ffrwd wedi bod ar ddwy ffurf: naill ai mabwysiadu/cyflwyno uniongyrchol gweithgaredd neu broses a ddarperir drwy Dechrau'n Deg, neu ddysgu gan a thynnu ar brofiad Dechrau'n Deg. Ar y cyfan mae gwasanaethau prif ffrwd yn gadarnhaol ynglŷn â'r 'model' Dechrau'n Deg ac mae'n ymddangos bod ganddynt ddiddordeb arbennig mewn dysgu gan, ac adeiladu ar, yr ymagwedd amlasiantaeth a darpariaeth gwasanaeth integredig sydd wrth wraidd y rhaglen. Mae ffocws Partneriaethau wedi bod ar ddylanwadu ar ddarpariaeth prif ffrwd o ran:

- cyd-leoli gwasanaethau
- gwella mynediad at a'r niferoedd sy'n defnyddio darpariaeth prif ffrwd
- ail-siapio darpariaeth prif ffrwd

8.32 Er gwaethaf y cynnydd o ran ystyriaeth am fanteision ymagwedd Dechrau'n Deg ar gyfer gwasanaethau prif ffrwd dim ond ychydig o dystiolaeth hyd yma sydd o brif ffrydio systematig. Mae hyn yn bennaf oherwydd tri chyfyngiad:

- diffyg tystiolaeth gadarn, feintiol o'r gwahaniaeth a wneir gan yr ymagweddau a ddefnyddir yn Dechrau'n Deg
- y lleihad mewn arian a chyfyngiadau cyllidol y mae'n rhaid i sefydliadau eu rheoli ar hyn o bryd ar draws pob gwasanaeth
- cost uchel Dechrau'n Deg fesul plentyn a natur ansicr a thymor hwy y manteision.

8.33 rth symud ymlaen mae angen i Bartneriaethau a/neu arweinwyr gwasanaeth i ystyried sut y gallant adeiladu achos dros fabwysiadu arfer gorau Dechrau'n Deg sy'n ddibynnol ar fwy na thystiolaeth anecdotaidd a bodlonrwydd ymarferwyr a chyfranogwyr.

## Crynodeb a sylwadau cloi

8.34 Mae angen cymedroli'r disgwyliadau ynglŷn â'r graddau y dylai canlyniadau dymunol fod wedi cael eu cyflawni o Dechrau'n Deg drwy gydnabod mai dim ond yn ddiweddar y cyflawnwyd cyflwr sefydlog gweithredol gan y Partneriaethau. Gwelwyd bod hyn yn ystyriaeth bwysig mewn gwerthuso

canlyniadau rhaglenni lleol Cychwyn Cadarn yn Lloegr a dylid hefyd rhoi ystyriaeth iddynt parthed Dechrau'n Deg.

8.35 Mae'r Partneriaethau yn paratoi i werthuso Dechrau'n Deg ar lefelau lleol er mwyn deall y gwahaniaeth y mae wedi ei wneud. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr amser a'r ymdrech y maent wedi ei roi i ddatblygu fframweithiau rhesymeg a pherfformiad i arwain a chyfarwyddo gweithgaredd gwerthuso a datblygu a gweithredu ystod o ddulliau ac offer gwerthuso. Mae'r rhan fwyaf o'r cynnydd wedi ei wneud gydag asesiadau ansoddol ac arolygon mynediad a gadael a golyga hyn nad yw'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn ansoddol gadarn yn ei natur (er y gellir disgwyl hyn yn ddiweddarach).

8.36 Er gwaethaf hynny, mae ymdrechion gwerthuso lleol yn dangos bod y gwasanaethau a ddarperir gan Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol ar blant - yn bennaf drwy, ond nid yn gyfyngedig i, welliannau mewn datblygiad emosiynol a chymdeithasol - a'u rheini - drwy gynnydd mewn hyder a hunan-barch. Mae'r stori a adroddir yn gryf ac yn gyson yn awgrymu bod y rhaglen ar y llwybr cywir i gyflawni ei chanlyniadau canolradd o ran datblygiad plentyn a datblygiad teulu/rhieni, yn ogystal â chyfrannu yn fwy eang i welliant mewn gwasanaeth.

8.37 Mae Dechrau'n Deg wedi dechrau dylanwadau ar wasanaethau prif ffrwd. Mae diddordeb arbennig mewn dysgu gan, ac adeiladu ar, yr ymagwedd amlasiantaeth a darpariaeth gwasanaeth integredig. Fodd bynnag, cyfyngir ar gyflwyniad a dylanwadu ehangach gan nifer o rwystrau, gyda'r mwyaf sylweddol yn cynnwys diffyg tystiolaeth gadarn, feintiol o'r gwahaniaeth sy'n cael ei wneud gan Dechrau'n Deg a'i chostau a'i manteision a'r lefel is o arian y mae'n rhaid i sefydliadau eu rheoli ar draws yr holl wasanaethau.

8.38 Gellir mynd i'r afael â'r olaf o'r pwyntiau drwy fonitro a gwerthuso allbynnau a chanlyniadau Dechrau'n Deg yn fwy systematig. Mae angen rhoi hyn ar waith yn fwy cyson ar draws Partneriaethau - gyda chymorth yr uned cefnogi Partneriaeth - er mwyn llywio'r drafodaeth leol a chenedlaethol ynglŷn â

phatrwm ariannu ymyriadau blynyddoedd cynnar a chefnogaeth teulu ehangach yn y dyfodol.

# 9: Casgliadau ac argymhellion

## Casgliadau

9.1 Mae’r gwerthusiad wedi ei ddatblygu ar sail y cwestiynau ymchwil a addaswyd o’r briff, fel y dangosir yn Atodiad A. Fodd bynnag, cytunwyd gyda’r Grŵp Ymgynghorol a Llywodraeth y Cynulliad y dylid rhesymoli’r ystod eang o gwestiynau ar gyfer y gwerthusiad i dri mater bras fel a ganlyn:

- Pa mor effeithiol fu’r rhaglen mewn sefydlu'r amodau strwythurol a phroses sy’n angenrheidiol i sicrhau bod cefnogaeth ar gyfer plant difreintiedig yn cael ei darparu’n effeithiol
- Pa mor effeithiol ydyw mewn dwyn y newidiadau mewn agwedd ac ymddygiad plant a’u rhieni sy’n gyson â gwelliannau diweddarach yn eu rhagolygon ar gyfer datblygiad cymdeithasol ac addysgol
- A yw hyn wedi ei gyflawni mewn ffyrdd sy’n rhoi gwerth da am arian?

9.2 Ystyrid y rhesymoli hwn o’r cwestiynau ymchwil yn briodol oherwydd cawsant eu gofyn yn wreiddiol ar gyfer gwerthusiad Cymorth yn ogystal â Dechrau’n Deg, roedd rhywfaint o ddyblygu rhyngddynt yn rhannol oherwydd y dau-ddiben hwn ac y gellid ond mynd i’r afael â rhai o’r cwestiynau yng ngoleuni canlyniadau’r arolwg cartrefi sydd yn y maes ar hyn o bryd gydag adrodd ar y don gyntaf wedi ei bwriadu ar gyfer dechrau 2011.

### *Sefydlu’r ffactorau strwythurol a phroses sy’n hollbwysig i sicrhau darpariaeth effeithiol cefnogaeth ar gyfer plant difreintiedig*

9.3 Wrth ystyried i ba raddau y mae hyn wedi ei gyflawni ar draws rhaglen Dechrau’n Deg mae’n werth dychwelyd i’r ffactorau llwyddiant critigol a amlinellwyd gyntaf yn Ffigur 0-1 a’i ailadrodd isod yn Tabl 0-1.

Tabl 0-1: asesiad o Dechrau’n Deg yn erbyn ffactorau llwyddiant critigol ar gyfer sefydlu cefnogaeth blynyddoedd cynnar effeithiol

| **Ffactorau llwyddiant critigol gefnogi cefnogaeth blynyddoedd cynnar** | **Tystiolaeth o raglenni Dechrau’n Deg yn bodloni’r meini prawf critigol** |
|---|---|
| **Ymyriadau unigol** | |
| • Bod â nodau clir sy’n cynnwys yr angen posibl am nifer o elfennau polisi a’r dulliau | • Mae’r rhaglen Dechrau’n Deg wedi ei nodi’n ddigonol i ddeillio ar sefydlu rhaglen |

| | |
|---|---|
| gwasanaeth i'w cyrraedd<br>• Darparu yn ôl y cynllun ymyrraeth ond gyda'r cyfleuster i ymgysylltu â darparwyr gwasanaeth eraill er mwyn addasu i angen lleol a theuluol<br>• Darparu sylw mawr, hyd hir a chefnogaeth ddwys - gyda dechrau cynharach n cael ei gysylltu i ddatblygiad cryfach<br>• Defnyddio staff gyda chymwysterau uwch mewn lleoliadau integredig - yn enwedig lle bo tystiolaeth o angen difrifol neu angen posibl | Dechrau'n Deg a adwaenir ym mhob un o'r 22Partneriaeth sy'n rhoi digon o hyblygrwydd i alluogi Partneriaethau i adeiladu ar allu ac arbenigedd lleol i fynd i'r afael â materion lleol o fewn fframwaith darpariaeth cenedlaethol.<br>• Mae cynnig Dechrau'n Deg yn ymgysylltu gyda phlant a theuluoedd ar enedigaeth ac yn darparu cefnogaeth hyd nes y byddant yn 4 oed gydag ystod o gefnogaeth yn cael ei chynnig i blant a rhieni/gofalwyr<br>• Mae lleihad mewn llwyth achosion ymwelwyr iechyd yn cefnogi darpariaeth gwasanaeth mwy dwys ac mae cefnogaeth LAP a rhianta lleol gan amlaf yn fwy dwys ac ar gael yn amlach nac mewn ardaloedd sydd ddim yn rhai Dechrau'n Deg<br>• Mae'r rhaglen yn nodi ac mae'r Partneriaethau yn gweithio tuag at well cymwysterau ffurfiol staff yn ogystal â gweithgareddau hyfforddiant a datblygu eang sy'n aml yn ceisio dwyn ynghyd weithwyr proffesiynol o ystod o ddisgyblaethau i ddatblygu neges rhaglen gyson a gallu |
| **Systemau gwasanaeth** | |
| • Darparu cymysgedd o ymyriadau cyffredinol ac wedi eu targedu wedi eu hadeiladu ar bartneriaethau a chydweithredu rhwng asiantaethau a mathau o wasanaeth<br>• Cymysgu datblygiad addysgiadol a chymdeithasol fel peth ategol ac yr un mor bwysig<br>• Darparu canolfannau integredig ac ysgolion meithrin<br>• Ategu cefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc gyda chefnogaeth ar gyfer rhianta a'r teulu ehangach a datblygiad cymunedol<br>• Cyfuno arweinyddiaeth o'r brig i lawr a dyraniad adnoddau ymhlith darparwyr gwasanaeth gydag arbenigedd o'r gwaelod i fyny a gwybodaeth leol<br>• Bod â'r adnoddau a'r disgresiwn i fod yn hyblyg ac yn alluog i newid mewn ymateb i well dealltwriaeth o angen plant a phobl ifanc a'r teuluoedd a'r cymunedau y maent wedi eu lleoli ynddynt | • Mae natur leol darpariaeth yn cefnogi mynediad a chyrraedd. Gan amlaf mae ymwelwyr iechyd yn dal llwyth achosion sydd wedi eu diffinio'n ddaearyddol<br>• O fewn y rhaglen mae'r pedwar prif gynnig darparu hawl Dechrau'n Deg yn agored i'r holl blant a theuluoedd i'w cyrchu ond bydd y Partneriaethau yn darparu cefnogaeth fwy dwys i'r teuluoedd hynny sydd ei angen fwyaf<br>• Mae rhaglen Dechrau'n Deg wedi dangos integreiddiad sylweddol ar draws y rhaglen drwy gyd-leoli gwasanaethau a darpariaeth amlbroffesiwn a darparu gwasanaethau ar y cyd yn cynnwys llwyddiant arbennig mewn ymgysylltu lleoliadau gofal plant a meithrin yn y rhaglen Dechrau'n Deg ehangach<br>• Mae'r gymysgedd gwasanaeth sydd ar gael drwy Dechrau'n Deg yn cynnwys cefnogaeth a datblygiad ar gyfer plant a theuluoedd drwy wasanaethau un i un a gwasanaethau grŵp a gweithgareddau chwarae ac ymwybyddiaeth gyda phob un ohonynt yn ceisio annog ymgysylltu ehangach mewn gweithgareddau a chefnogaeth<br>• Mae darpariaeth hawl gofal plant o ansawdd uchel yn elfen graidd o'r rhaglen ac mae'n un o'r rhai a adwaenir orau ymhlith rhieni<br>• Drwy gydol ein hymchwil mae rôl y Cydlynydd neu reolwr Dechrau'n Deg wedi cael ei hamlygu a'i chanmol fel bod un |

| | |
|---|---|
| | ganolog i lwyddiannau rhaglenni unigol. Mae'r ardaloedd hynny sydd â threfniadau llywodraethu cryf hefyd wedi elwa o sefydlu'r cynnig yn gynnar a datblygiad rhaglen wedi ei chefnogi a'i hintegreiddio<br>• Mae'r Partneriaethau wedi tynnu'n sylweddol ar arbenigedd a phrofiad a ddatblygwyd drwy ddarparu gwasanaeth Cychwyn Cadarn a ariannwyd gan Cymorth |
| **Buddiolwyr targed** | |
| • Darparu gwasanaeth cyffredinol sydd hefyd yn canolbwyntio ar y plant a'u teuluoedd a'r cymunedau hynny sy'n ddifreintiedig yn fiolegol, cymdeithasol a/neu'n economaidd ac/neu'n byw mewn cymdogaethau o amddifadedd uchel<br>• Cydnabod y gallai ymyriadau blynyddoedd cynnar fod yn llai effeithiol ar gyfer y rheiny sydd ar ymylon difreintedd a'r rheini sy'n ddifrifol ddifreintiedig | • Mae rhaglen Dechrau'n Deg yn rhaglen seiliedig ar ardal sy'n darparu cefnogaeth gyffredinol i deuluoedd o fewn ardaloedd o ganlyniad i'w lefelau uchel o ddifreintedd<br>• Caiff asesu i ba raddau y mae rhaglen Dechrau'n Deg yn effeithiol ar gyfer y rheiny sydd ar ymylon difreintedd ac yn ddifrifol difreintiedig eu hystyried unwaith y bydd canlyniadau'r arolwg ar gael |

*Ffynhonnell: SQW Consulting*

9.4 Yn erbyn y meini prawf hyn, sy'n tynnu ar waith Valentine a Katz (2007) a Watson a Tully (2008) yn ogystal â myfyrio ar ganfyddiadau amrediad o ymyriadau blynyddoedd cynnar yn cynnwys y rhaglen Cychwyn Cadarn yn Lloegr, mae'n amlwg bod rhaglen Dechrau'n Deg yn dangos ac yn arddangos nifer o'r ffactorau llwyddiant critigol cysylltiedig â darparu ymyriadau effeithiol yn y blynyddoedd cynnar.

***Tystiolaeth o newidiadau mewn agwedd ac ymddygiad plant a'u teuluoedd sy'n gyson â gwelliannau diweddarach yn eu rhagolygon ar gyfer ddatblygiad cymdeithasol ac addysgol***

9.5 el y manylir yn Adran 8 mae angen i'r disgwyliadau ynglŷn â'r graddau y dylai canlyniadau sy'n gyson gyda gwelliannau diweddarach mewn datblygiad plant fod wedi eu cyflawni gan Dechrau'n Deg ar y cam hwn gael eu cymedroli drwy gydnabod bod cyflwr sefydlog gweithredol dim ond yn ddiweddar wedi ei gyflawni gan y Partneriaethau.

9.6 Prif ffynonellau tystiolaeth canlyniadau a grëir gan werthusiad cenedlaethol Dechrau'n Deg fydd canlyniadau'r arolwg teuluoedd gyda phlant 0-3 oed ac unrhyw ddiwygiadau i'r adolygiad o ffynonellau data eilaidd yn y dyfodol. Mae ton gyntaf arolwg o deuluoedd ar hyn o bryd yn y maes a disgwylir iddo

adrodd yn gynnar yn 2011. Yng ngoleuni hyn, mae'r adroddiad hwn wedi tynnu'n bennaf ar dystiolaeth a ddarparwyd gan y Partneriaethau Dechrau'n Deg Lleol sydd ar y cam hwn yn ansoddol ac anecdotaidd ar y cyfan.

9.7 Mae'r dystiolaeth hyd yma yn bennaf ansoddol - wedi ei seilio ar ganfyddiad rheini a gweithwyr proffesiynol - gyda swm cyfyngedig o asesiad meintiol. Ond mae'r holl dystiolaeth o wahanol ffynonellau yn mynd i'r un cyfeiriad. Mae'n awgrymu gwelliannau yn y canlyniadau canlynol:

- Datblygiad emosiynol a chymdeithasol: Adroddir ar hyn yn aml gan athrawon sy'n nodi 'gwahaniaethau amlwg' mewn plant Dechrau'n Deg sydd wedi eu paratoi'n well ar gyfer ysgol, yn gynt i setlo, yn ymddwyn yn well ac yn fwy hyderus wrth ryngweithio gyda phlant eraill.
- Datblygiad iaith a meddwl: Mae tystiolaeth fwy dethol o well datblygiad ieithyddol a meddyliol ymhlith plant Dechrau'n Deg.
- Hyder ac ymgysylltiad rhieni: Ar draws yr ardaloedd gwelwyd hyn fel canlyniad arwyddocaol Dechrau'n Deg - mae rhieni wedi ymgysylltu nid dim ond mewn Dechrau'n Deg ond hefyd mewn gwasanaethau mwy cyffredinol - gan ddod â manteision posibl i'r teulu ehangach.

***Gwerth am Arian***

9.8 Mae tair elfen i asesiad gwerth am arian - y darbodusrwydd dryw ba un y cafodd cronfeydd Dechrau'n Deg eu defnyddio, yr effeithiolrwydd drwy ba un y bodlonwyd yr amcanion darpariaeth a'r effeithlonrwydd drwy ba un y cyflawnasant eu hallbynnau a chanlyniadau disgwyliedig.

*Darbodusrwydd*

9.9 Golyga'r data monitro cymharol brin ar gyfer rhaglen Dechrau'n Deg nad yw'n bosibl i asesu cost darparu yn ôl allbwn ar y cam hwn. Rhagwelir y bydd gwelliannau yn y data monitro a gesglir a'i ddychwelyd yn cefnogi asesiad o ddarbodusrwydd yn y dyfodol.

9.10 Yn y cyfamser gellid defnyddio'r gyfran o wariant rhaglen ar gostau canolog fel dangosydd darbodusrwydd. Ar draws y Partneriaethau Dechrau'n Deg

cyfartaledd y dyraniad i gostau canolog a gwerthuso yw 13%[57]. O fewn hyn mae dyraniadau Partneriaethau Dechrau'n Deg unigol yn amrywio rhwng chwech a thri deg un y cant.

9.11 Rhagamcanwyd dyraniad o 5-10% i reolaeth a gweinyddiaeth rhaglenni cymdeithasol megis y Gyllideb Adfywio Sengl a'r Fargen Newydd i Gymunedau. Fodd bynnag, rhagamcanodd gwerthusiad Dechrau'n Deg bod y costau cyffredinol yn 26-28 y cant ar gyfer rhaglenni lleol Cychwyn Cadarn llwyr weithredol a chydnabuwyd bod y lefelau hyn o wariant nid ar wasanaethau yn uwch nag y gellid bod wedi ei ddisgwyl fel arfer mewn gwasanaethau cyhoeddus. Awgrymai mai cyfartaledd costau cyffredinol mwy nodweddiadol mewn gofal iechyd neu wasanaethau cymdeithasol fyddai rhwng 10 a 20 y cant er bod rhai ychydig yn uwch (Netten a Curtis 2003). Honnodd y gwerthusiad ei fod mwy neu lai yn anhepgor bod ymagwedd mwy cydgysylltiedig at ddarpariaeth gwasanaeth yn debygol o gynnwys staff yn treulio cyfran uwch o'u hamser yn cydlynu gydag eraill nag a fyddai lle bo gwasanaethau yn gweithredu mewn seilos eithaf hunangynhwysol.[58]

9.12 O fewn yr asesiad hwn mae rhaglen Dechrau'n Deg yn dangos meintiau costau cyffredinol sydd ar gyfartaledd yn llawer is na'r ystod a ragfynegwyd ar gyfer Cychwyn Cadarn. Maent yn debygol o fod hyd yn oed yn is pan roddir ystyriaeth i'r ffaith bod tîm canolog CYPP yn cynnal swyddogaethau sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i raglen Dechrau'n Deg. Ar y dystiolaeth hon, mae'r ddwy raglen wedi cael eu rhedeg yn ddarbodus iawn.

*Effeithiolrwydd*

9.13 Ar y cam hwn mae'r rhaglen wedi bod yn effeithiol iawn o ran y ffordd y mae systemau gwasanaeth wedi eu cynllunio a'u defnyddio ac yn narpariaeth hawliau dros gyfnod byr o amser - yn sicr pan roddir ystyriaeth i'r problemau sefydlu anochel a gysylltir gyda rhaglen newydd. Hefyd, mae corff o dystiolaeth anecdotaidd sy'n ymddangos - ond dim ond swm bychan o

---

[57] Seiliedig ar Ddyraniadau Arfaethedig 2008/09.

[58] National Evaluation of Sure Start Team, Institute for the Study of Children, Families & Social Issues, Birkbeck, University of London, *Cost Effectiveness of Implementing SSLPs: An Interim Report*, 2006

dystiolaeth feintiol - o ran canlyniadau iechyd, datblygol, cymdeithasol ac addysgol gwell yn cael eu cyflawni gan y rhaglen.

*Effeithlonrwydd*

9.14 Dim ond nifer cyfyngedig o astudiaethau hyd yma yn y DU ac mewn mannau eraill sydd wedi olrhain plant a allai fod wedi elwa o ymyriadau blynyddoedd cynnar i'w blynyddoedd diweddarach ac sydd wedi gallu cynnig tystiolaeth o gostau cyffredinol a buddiannau'r ymyriadau. Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen rhy ddiweddar i allu rhoi'r math yma o dystiolaeth.

*Asesiad cyffredinol*

9.15 Ni ellir cynnig canlyniadau cyffredinol ar werth am arian ar y cam hwn o werthusiad rhaglenni Dechrau'n Deg. Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen ifanc sydd wedi dangos llawer o addewid o ran ei darbodusrwydd a'i heffeithiolrwydd. Bydd prawf arall o'r elfennau hyn ac elfen effeithlonrwydd gwerth am arian yn bosibl wedi gweld tystiolaeth yr arolwg cartrefi a fydd yn ffynhonnell bwysig o dystiolaeth yn gynnar yn 2011.

## Argymhellion

***Heriau mewn mynd â'r rhaglen ymlaen***

9.16 Nododd y gwerthusiad bod cynnydd y rhaglen wedi ei gyflawni drwy daclo heriau mwy difrifol - yn arbennig o ran cynyddu gallu ac ansawdd gofal plant ac ymweliadau iechyd. Nid yw hyn wedi bod yn hawdd ac mae rhai heriau'n parhau.

9.17 Mae amrywiad yn narpariaeth yr hawl ymweliadau iechyd gyda Phartneriaethau'n wynebu heriau arbennig o ran recriwtio a chadw a materion yn ymwneud â gweithio amlasiantaeth. Efallai bod yr hawl gofal plant wedi ei or-ragnodi a gallai hyn fod wedi arwain at leoedd dros ben ymddangosiadol mewn rhai achosion. Bu hefyd amrywiaeth ar draws y Partneriaethau yn y ddarpariaeth gan hawliau rhianta a LAP.

9.18 Fodd bynnag, fel y dangosodd rhai Partneriaethau nid yw'r heriau hyn yn anorchfygol. Gellir mynd i'r afael â hwy drwy gyfuniad o ddiwygiadau i ganllawiau Dechrau'n Deg, ymgysylltu parhaus rhwng y darparwyr gwasanaeth perthnasol, cyngor gan yr uned cefnogi Partneriaeth, a rhannu arfer da ar draws y Partneriaethau

***Argymhellion***

9.19 Cynigir yr argymhellion canlynol er mwyn llywio ystyriaethau polisi yn y dyfodol ar gyfer ymyriadau blynyddoedd cynnar ac yn arbennig Dechrau'n Deg:

- Dylid cadw mewn cof yn gyson natur beilot Dechrau'n Deg. Dylid ei hasesu o ran ei heffaith ar wella cyfleoedd bywyd y plant hynny, a'u rheini, sy'n gymwys am ei hawliau - nid yn erbyn dyheadau ehangach ar gyfer plant difreintiedig yng Nghymru yn gyfan. Ni ddylid chwaith ei hystyried fel ateb cyflym ond dylid rhoi amser iddi wreiddio'n weithredol, yn ddiwylliannol ac yn gyson fel rhan o seilwaith cefnogaeth blynyddoedd cynnar yn yr ardaloedd y mae'n gweithredu ynddynt.
- Mae angen adolygu dyraniad cyllideb Dechrau'n Deg o ddau bersbectif o leiaf. Yn gyntaf, mae poblogaeth plant o dan bedair oed mewn ardaloedd Dechrau'n Deg nawr yn fwy nag ydoedd pan gafodd y gyllideb ei dyrannu gyntaf ac mae hyn yn rhoi straen ar ddarparu hawliau Dechrau'n Deg. Yn ail, mae'r rhaglen erbyn hyn yn agos i ddarpariaeth cyflwr sefydlog ac, felly, dylai unrhyw danwariant yn erbyn dyraniad cyllideb - a'r rhesymau dros hyn - gael eu hadolygu'n fanwl iawn.
- Dylai'r gwersi a ddysgir gan Dechrau'n Deg gael eu harchwilio'n gyson gan CYPP fel rhan o'r Cynllun Sengl a manteisio ar gyfleoedd ar gyfer unrhyw welliannau i wasanaethau prif ffrwd y gallai eu hawgrymu parthed datblygiad plant ifanc difreintiedig.
- Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r materion canlynol a dylid ymdrechu i'w datrys pan fo hynny'n angenrheidiol:
  - **Gofal plant**: A ddylid adolygu ac os oes angen, mynd i'r afael â'r 'lleoedd gwag' o ran sesiynau gofal plant a ddarperir, er

enghraifft, trwy gynnig hyblygrwydd i Bartneriaethau i addasu natur yr hawl rhagnodedig (h.y. 2.5 awr, 5 diwrnod yr wythnos)?

- **Ymweliadau iechyd**: A yw hi'n angenrheidiol ac yn bosibl i'r hawl rhagnodedig presennol – sydd wedi'i fynegi yn nhermau llwyth achosion ymwelwyr iechyd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg – gael ei ddiwygio i adlewyrchu cynnig ehangach o gymorth iechyd gan gynnwys sgiliau eraill megis gweithwyr cefnogi teuluoedd a therapyddion lleferydd ac iaith?
- **Rhianta**: A ddylai'r amrywiaeth a welwyd ym maint yr hawl rhianta ar draws Partneriaethau gael ei lleihau trwy nodi lefelau isaf o ddarpariaeth?
- **LAP**: A oes angen i'r hawl LAP – sy'n boblogaidd ac y mae ymarferwyr yn ei ystyried yn gyflwyniad da i ddatblygiad iaith - gael ei adolygu o ran ei botensial i gyflawni canlyniadau iaith disgwyliedig Dechrau'n Deg?

- Mae angen rhoi monitro a gwerthuso systematig allbynnau a chanlyniadau Dechrau'n Deg ar waith yn fwy cyson ar draws y Partneriaethau er mwyn llywio'r drafodaeth leol a chenedlaethol ynglŷn â ffurf ac ariannu ymyriadau blynyddoedd cynnar a chefnogaeth teulu ehangach i'r dyfodol.

# Atodiad A: Cwestiynau Ymchwil yn deillio o'r briff gwreiddiol

| Tabl A-Cwestiynau Ymchwil yn deillio o'r briff gwreiddiol |
| --- |
| C1: A yw'r rhaglen wedi bodloni'n effeithiol yr anghenion a nodwyd drwy ddarpariaeth gwasanaethau? |
| C2: Pa gyfuniad o ddarpariaeth sy'n gweithio o ran cyflawni effaith? |
| C3: A yw'r gwasanaethau a ddarparwyd wedi cael effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth? |
| C4: Sut mae'r rhaglen wedi ei haddasu i fodloni angen lleol? A yw hyblygrwydd wedi gweithio? |
| C5: Pa mor effeithiol fu partneriaethau lleol mewn asesu a dadansoddi angen lleol ac archwilio darpariaeth? |
| C6: Pa mor effeithiol fu partneriaethau lleol mewn datblygu rhaglenni, comisiynu, dyrannu arian a monitro a gwerthuso cynnydd? |
| C7: Pa mor llwyddiannus fu partneriaethau mewn cyfatebu angen i brosiectau lleol? |
| C8: Pa mor effeithiol fu'r rhaglen mewn cyflawni ei nodau cyffredinol? |
| C9: A yw'r rhaglen wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau unigolion? |
| C10: Pa effeithiau gafodd y rhaglen yn unigol a phan gyfunwyd hi ag ymyriadau eraill? |
| C11: Pa wersi sydd i'w gweld o'r rhaglen a beth yw'r materion ar gyfer y dyfodol? |
| C12: Pa ymyriadau sydd eu hangen yn y dyfodol i gefnogi datblygiad y blynyddoedd cynnar? |